Yn gyntaf, er y byddai'r Cyrff yn gwadu hyn yn llwyr, 'roedd ffurf ar offeiriadaeth yn datblygu, yn yr ystyr fod y gweinidogion lawn amser yn anochel yn aelodau arbennig. Ar ôl eu hordeiniad nid oeddent ar yr un gwastad â'r aelodau eraill mewn eglwys. Meddent ar safle neilltuol ac ar freintiau arbennig o fewn eu heglwys a'u Corff nad oeddent ar gael i

aelodau lleyg. A hynny mewn ffordd nad oedd yn digwydd ar ddechrau'r ganrif. Erbyn diwedd y ganrif datblygodd y weinidogaeth (y "barchus arswydus swydd") i fod yn swydd a oedd â statws yn perthyn iddi, nid yn unig statws crefyddol o fewn y Cyrff ond statws cymdeithasol. Mewn geiriau eraill 'roedd y gweinidogion Ymneilltuol yn ymdebygu i Ficeriaid Anglicanaidd. Onid oedd gan lawer ohonynt fans (rheithordy), a theitl (Parch.)?⁹⁵ Ac onid oedd rhai ohonynt yn gwisgo'n glerigol?

Yn ail, golygai'r weinidogaeth sefydlog lawn amser newid o fewn y Cyrff eu hunain. Nawr 'roedd gan y Cyrff weithwyr llawn amser a golygai hynny fod yn rhaid rhoi cyflog teilwng iddynt. Y ffordd orau o wneud hyn oedd trwy i eglwysi gydweithredu a chael trefniadaeth effeithiol i gyflawni'r gwaith. Mewn un ystyr o gwmpas y gweinidogion hyn y tyfodd ac y datblygodd strwythur enwadol pendant. Wrth gwrs nid oedd y datblygiadau mor syml â hynny ond fe gyfrannodd y weinidogaeth lawn amser yn helaeth tuag at sefydliadaeth ac enwadaeth.

Mae dyfodiad gweinidogaeth lawn amser yn allweddol yn y datblygiad o'r sect i'r enwad. Pe na byddai wedi datblygu beth fyddai hanes Cyrff Ymneilltuol Cymru? A fyddai enwadaeth wedi datblygu yn yr un modd pe byddai'r weinidogaeth wedi parhau yn rhan amser? A fyddai sefydliadaeth wedi datblygu i'r un graddau? Wrth i'r weinidogaeth lawn amser ennill tir golygai hyn fod o leiaf ddwy o gerrig sylfaen y sect yn simsanu sef offeiriadaeth yr holl saint a'r elfen wirfoddol bur. Oherwydd nid oedd y gweinidogion yr un fath ag aelodau eraill ac nid oeddent bellach yn gweithio yn wirfoddol gan eu bod yn derbyn cyflog llawn am eu llafur.

Pennod 19. Addysg.

Tuedd y sect yw bod yn radical yn ei gwrthwynebiad i'r llywodraeth seciwlar. Gall aelodau sect wrthod gweithio i'r llywodraeth, gwrthod ymuno â'r fyddin, gwrthod tyngu llw a thalu trethi. ⁽⁹⁶⁾ Felly wrth ystyried addysg, y disgwyliad fyddai i'r sect wrthod unrhyw ymyrraeth a chynorthwy gan gyrff allanol fel cymdeithasau addysgol a chymorthdal llywodraeth, gan ffurfio ei threfn addysgol ei hun. Un o'r rhesymau am hyn, yw nad ydyw sectyddion yn fodlon gwahanu crefydd oddi wrth unrhyw ran o fywyd. Felly, ni ellid disgwyl i sect dderbyn addysg gwbl seciwlar, i'r gwrthwyneb byddai'n rhaid i addysg fod yn seiliedig ar ddaliadau ac egwyddorion crefyddol. Dywed Parson mai un o'r gwahaniaethau rhwng y sect a'r enwad, yw fod yr agwedd grefyddol yn yr enwad yn cael ei wahanu oddi wrth agweddau eraill bywyd e.e. teuluol, economaidd. ⁽⁹⁷⁾ Ond yn y sect ni cheir gwahaniaethu o'r fath. Yn y sect yr agwedd grefyddol yw'r un llywodraethol, lle sylfeinir holl agweddau eraill bywyd, gan gynnwys addysg. Pan yw sect yn dechrau ymwneud â phethau y tu allan i'w milltir sgwâr ei hun, y mae'n dechrau datblygu i fod yn gorff crefyddol o fath arall. Fel y dywed R. Mehl,

"When a sect opens itself to a wordly task, it destroys itself as a sect." ⁽⁹⁸⁾

Fe ategir y farn hon gan B. Wilson,

"The relationship which a sect permits itself and its members to the external world is of vital importance to the nature of its continuance.....the sect is committed to keeping itself 'unspotted from the world.' ⁽⁹⁹⁾ If the sect is to persist as an organisation it must not only separate its members from the world, but must also maintain the dissimilarity of its own values from those of the secular society. Its members must not normally be allowed to accept the values of the status system of the external world.....Whatever the changes in their material circumstances, the group must emphasise the feeling of being a people apart, if it is to persist." ⁽¹⁰⁰⁾

Gan gadw'r gosodiadau a'r dyfyniadau uchod mewn cof, yn awr gallwn fwrw golwg dros hanes addysg yng Nghymru yn y ganrif ddiwethaf, a'r modd y bu i'r Ymneilltuwyr ymwneud â'r datblygiadau.

Ar ddechrau'r ganrif ychydig o ddiddordeb a gymerai'r Llywodraeth mewn addysg ddyddiol yng Nghymru. Oherwydd hynny nifer bychan o ysgolion a oedd yn y wlad. Yr oedd rhyw ddwsin o ysgolion Gramadeg hwnt ac yma, a sefydlwyd gan fwyaf yn nyddiau Elisabeth a Iago'r Iaf. Ysgolion bychain cwbl Seisnig oedd y rhain, yn darparu yn bennaf ar gyfer meibion y dosbarth canol. «101»

Yr unig ddarpariaeth arall ar gyfer addysgu'r Cymry oedd ysgolion preifat. Er bod rhai o'r ysgolion hyn yn ddigon clodwiw ac effeithiol, ar y cyfan ysgolion gwael a thruenus oeddent, yn cael eu cadw gan bobl o bob math, yn weinidogion, beirdd a hen filwyr. Mewn nifer fawr ohonynt yr oedd safon yr addysg yn drychinebus, gan nad oedd yr athrawon wedi cael unrhyw addysg nac hyfforddiant. Fe gawn ddarlun anfarwol o un o'r cyfryw ysgolion gan Daniel Owen yn ei nofel Rhys Lewis. «102»

Cynhelid yr ysgolion preifat mewn amrywiol ffyrdd. Yn achlysurol byddai pobl gefnog yn rhoi neu yn gadael arian yn eu hewyllysiau i gadw ysgol. Rhoddodd Mr. Thomas Jones o Gaer 9p o'r neilltu yn flynyddol er mwyn cynnal ysgol mewn unrhyw ddwy sir yng Nghymru. Yr oedd y manau lle y cynhelid yr ysgolion i gael eu dewis gan gwrdd chwarter o Annibynwyr, ac 'roedd yr ysgolion i barhau yn y manau hynny am gyfnod o ddwy flynedd. «103» Gadawodd Dr. Daniel Williams o Wrecsam arian yn ei ewyllys i gynnal ysgolion. «104» 'Roedd yr ymddiriedolwyr i ddewis person addas i ddysgu Saesneg ac egwyddorion Cristnogol i 20 o blant yn Ninbych, Fflint,

Caernarfon, Trefaldwyn, Meirionnydd neu Holt a Chelmsford, hyd nes y byddai'r arian wedi ei ddihsbyddu. Rhoddid yr arian hwn i gynnal ysgolion mewn Eglwysi a oedd yn rhy fychain i gadw gweinidogion, ac felly 'roedd y gweinidog yn aml hefyd yn athro.

Goroesodd rhai o ysgolion Madam Bevan '105', a chyda'r cynnydd mewn diwydiant fe ddaeth yr ysgolion gwaith. '106' Ysgolion oedd y rhain a oedd yn cael eu cynnal gan waith glo neu waith dur, tynnwyd cyfran oddi ar gyflog y gweithwyr er mwyn talu am addysgu eu plant. Yn aml, oherwydd cyflogau isel byddai gweinidogion a beirdd yn ymgymryd â chadw ysgol, er mwyn cadw'r blaidd o'r drws. '107' Enillodd rhai o'r ysgolion hyn enw da iddynt eu hunain y tu allan i'w cymdogaeth. Rhai felly oedd ysgolion y Parch. Evan Richardson '108' yng Nghaernarfon, - lle'r addysgwyd yr arloeswr mewn addysg, Hugh Owen '109' - y Parch. Robert Jones '110', Rhos-lan, yn Llangybi, y Parch. Thomas Lloyd yn Abergele ac ysgol Ebenezer Thomas '111' (Eben Fardd) yng Nghlynnog Fawr. '112' Pan agorodd Eben Fardd ei ysgol yng Nghlynnog Fawr ym 1827 cytunodd y ficer i dalu iddo 3p y chwarter am ddysgu 24 o blant i ddarllen, 5 swllt yn ychwaneg am gadw cyfrifon y festri, a chyfrannai'r plwyf 6 swllt arall. Nid yw'n syndod felly ei fod ym 1834, ar wahân i ofalu am ysgol, yn cadw siop, yn rhwymo llyfrau ac yn pobi a gwerthu bara. '113'2

Ychydig o ddiddordeb oedd gan yr Ymneilltuwyr mewn addysg gyffredinol ar ddechrau'r ganrif, er fod ganddynt rai ysgolion ac academiâu. Eto rhoddent bwys mawr ar addysg grefyddol drwy gyfrwng yr Ysgolion Sul a oedd yn prysur ennill tir. Yr oedd gwybodaeth o Dduw yn llawer pwysicach yn eu golwg na gwybodaeth gyffredinol fel Saesneg, mathemateg neu ddaearyddiaeth. Hwyrach mai dyma un o'r rhesymau pam yr

oeddent mor gyndyn ac araf ar y dechrau wrth sefydlu ysgolion dyddiol. Yr oedd yr Ysgol Sul ynnddi ei hun yn gyfrwng addysg heb ei hail yn y cyfnod hwn. Er mai ei phrif ddiben oedd hyfforddi'r bobl mewn egwyddorion Cristnogol ac i ddeall yr ysgrythur, ochr yn ochr â hyn yr oeddent yn dysgu darllen ac i resymu'n glir. Fe ddywedir fod ym 1812, 256 o Ysgolion Sul yng Ngogledd Cymru a 186 yn y Deheudir. Felly ar ddechrau'r ganrif yr Ysgol Sul oedd y corff addysgol mwyaf yng Nghymru. <114>

Yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ffurfiwyd dwy gymdeithas yn Lloegr i hyrwyddo addysg plant tlodion. Enw'r naill oedd "Y Gymdeithas Ysgolion Frutanaidd a Thramor," ac enw'r llall oedd "Y Gymdeithas Genedlaethol." Yr oedd y ddwy gymdeithas yn adlewyrchu meddwl y ddau ddyn a roddodd gychwyn iddynt sef Joseph Lancaster a Dr. Andrew Bell. <115> Crynwr oedd Lancaster, ac fe sefydlodd ysgolion i'r werin yn Llundain. Yn yr ysgolion hyn darllenid y Beibl, ond yr oedd yr addysg yn anenwadol, ac o'r herwydd cawsant gefnogaeth Ymneilltuwyr, Chwigiadaid aristocrataidd a'r teulu brenhinol. Clerigwr oedd Bell a sylfaenwyd y Gymdeithas Genedlaethol ganddo er mwy llenwi'r wlad ag ysgolion gwerinol tebyg i eiddo Lancaster, ond fod catecism Eglwys Loegr yn rhan hanfodol o'r addysg a roddid ynddynt. <116>

Ffurfiwyd y Gymdeithas Genedlaethol er hyrwyddo addysgu y tlodion yn egwyddorion yr Eglwys Sefydledig ym 1811. <117> Hon oedd y Gymdeithas fwyaf gweithgar yng Nghymru ar ddechrau'r ganrif. Agorwyd yr Ysgol Genedlaethol gyntaf yng Nghymru ym Mhenley, Sir Fflint ym 1811, o dan yr hen enw Ysgol Madras. <118> Hon oedd un o'r ychydig ysgolion a gafodd adroddiad ffafriol gan y dirprwywyr ym 1847. Y pryd hynny addysgid 78 o fechgyn mewn un dosbarth gan yr athro a 73 o ferched dan ofal athrawes mewn

dosbarth arall, gyda 15 monitor yn eu cynorthwyo. Erbyn 1833, cyn dyfodiad cymorthdal y llywodraeth, 'roedd 146 o Ysgolion Cenedlaethol yng Nghymru yn addysgu 13,424 o ddisgyblion. ⁽¹¹⁹⁾ Fodd bynnag, ni ddechreuodd y Gymdeithas Genedlaethol ar ei gwaith o ddifrif yng Nghymru hyd oddeutu 1837. Yn y blynyddoedd dilynol gwnaeth gynnydd sylweddol. Ym 1838 yr oedd 72 o'i hysgolion yn Esgobaeth Bangor yn unig, a rhwng 1837 a 1846 cynyddodd rhif y plant yn ysgolion yr Eglwys Sefydliedig trwy'r wlad yn gyffredinol o 25,686 i 44,841. ⁽¹²⁰⁾

Ffurfiwyd y "Gymdeithas Frutanaidd a Thramor" ym 1814 i "hyrwyddo addysgu dosbarth gweithiol y gymdeithas o bob perswād crefyddol." ⁽¹²¹⁾ Yn y rheolau a oedd yn ganllaw i weinyddu'r ysgolion Brutanaidd a Thramor dywedid y byddai darllen, ysgrifennu, rhifyddeg a gwnïo yn cael eu dysgu ynddynt, ac y dylai'r gwersi darllen gynnwys darnau o'r ysgrythur. Nid oedd catecism o unrhyw fath i gael ei gynnwys yn addysg yr ysgolion a disgwyliid i'r plant fynychu lle o addoliad ar y Sul a ddewisid gan eu rhieni. ⁽¹²²⁾

Araf iawn fu cynnydd y Gymdeithas Frutanaidd a Thramor yng Nghymru, a hynny am amryw resymau. 'Roedd hi'n anodd iawn ennyn unrhyw fath o frwdfrydedd ymhlith yr Ymneilltuwyr, ac felly 'roedd diffyg arian yn fwgan mawr. Hefyd nid oedd gan y gymdeithas gysylltiadau â chyrrff a oedd yn barod i'w chynorthwyo, fel yr oedd gan y Gymdeithas Genedlaethol a ddefnyddiai holl adnoddau'r Eglwys Sefydliedig yng Nghymru. O ganlyniad, nid oedd ond 15 o ysgolion Brutanaidd yng Nghymru ym 1820. ⁽¹²³⁾ Erbyn 1843 nid oedd y sefyllfa fawr gwell gan nad oedd ond 28 drwy Gymru benbaladr. ⁽¹²⁴⁾

Dechreuodd y llywodraeth gymryd diddordeb mewn addysg ym 1820, pan gyflwynodd Henry Brougham ⁽¹²⁵⁾ ei fesur seneddol ar addysg. ⁽¹²⁶⁾ Bu

Brougham yn cadeirio pwyllgor dethol ar addysg a ganfyddodd mai dim ond un o bob 16 o'r boblogaeth oedd â chyfle i dderbyn addysg elfennol. Ni chredai'r pwyllgor y gallai'r gwirfoddolwyr wella'r sefyllfa ac mai'r unig ateb felly oedd i'r llywodraeth ymyrryd. Pan gyflwynodd Brougham ei fesur yng Ngorffennaf 1820, fe gododd wrychyn yr Ymneilltuwyr. Y rheswm am eu gwrthwynebiad oedd, nid ei fod yn cynnig cymorthdal i gynorthwyo addysg, ond oherwydd f'od yn rhaid i'r athrawon yn yr ysgolion fod yn Eglwyswyr. O ganlyniad i'r gwrthwynebiad ni chynigwyd y mesur eilwaith, ac fe roddwyd addysg o'r neilltu gan y llywodraeth am ddeng mlynedd arall. ⁽¹²⁷⁾

Rhwng 1820 a 1833 bu'n ddistaw iawn yn y byd addysgol, heb nemor ddim yn digwydd. Ond ym 1833 fe bleidleisiodd 50 yn erbyn 26 yn Nghŷ'r Cyffredin dros roi 20,000p tuag at addysg. 'Roedd yr arian i'w rannu rhwng y Gymdeithas Genedlaethol a'r Gymdeithas Frutanaidd, gyda'r llywodraeth yn rhoi punt am bob cyfraniad gwirfoddol o bunt a gesglid gan y cymdeithasau. ⁽¹²⁸⁾ Oherwydd fod gan y Gymdeithas Genedlaethol gyfranwyr cyfoethocach na'r Gymdeithas Frutanaidd, yr oeddent ar y dechrau'n derbyn tua thri chwarter cymorthdal y llywodraeth. Cymorth bychan iawn oedd 20,000p o'i gymharu â symiau enfawr a delid y dyddiau hynny am bethau eraill, e.e., ym 1839 rhoddodd llywodraeth Melbourne swm o 70,000p tuag at godi stablau'r brenin yn Windsor. Ond o dipyn i beth fe gynyddodd y cymorthdal, ym 1839 'roedd yn 30,000p, erbyn 1846 cododd i 100,000p. Cymorthdal i adeiladu ysgolion yn unig oedd cymorthdal 1833. ⁽¹²⁹⁾ Ym 1839 cymerwyd cam pwysig arall. Ymgymerodd y llywodraeth, dan arweiniad yr Arglwydd John Russell⁽¹³⁰⁾, â chyfrannu tuag at gynnal ysgolion yn ogystal a'u hadeiladu. I gynorthwyo yn y gwaith hwn penodwyd Pwyllgor Cyngori ar Addysg. (Committee of Council on Education). ⁽¹³¹⁾

Bu Eglwys Loegr yn ddiwyd iawn wrth fanteisio ar gymorthdal y llywodraeth. Yn ystod y blynyddoedd hyn yr enillodd yr Ysgolion Cenedlaethol y fath afael ar lawer o ardaloedd yng Nghymru. ⁽¹³²⁾ Dengys Syr Thomas Phillips fod nifer y plant yn yr ysgolion hyn ac yn Ysgolion Sul y pedair esgobaeth Gymreig wedi cynyddu rhwng 1826 a 1846 o 17,000 i 63,000. ⁽¹³³⁾

Hwyrfrydig ar y llaw arall oedd yr Ymneilltuwyr i fanteisio ar gynigion y llywodraeth. Yr oeddent yn llawer mwy parod i aros yn eu hunfan yn dwrddio a chondemnio bwriadau Eglwys Loegr wrth godi ysgolion Cenedlaethol yn hytrach na gweithredu eu hunain. Fe ymddengys fod nifer o resymau am hyn, hwyrach eu bod yn fodlon ar y gwaith yr oedd yr Ysgol Sul yn ei wneud, hwyrach nad oeddent yn gweld pwysigrwydd addysg seciwlar. Ond yn sicr 'roedd ganddynt faich ariannol ar eu hysgwyddau, dyledion adeiladu capeli, costau cynnal capeli a gweinidogion. Un o'r prif resymau am eu harafwch oedd diffyg unfrydedd ynglŷn ag addysg. Erbyn y tri degau 'roedd Ymneilltuaeth wedi ei rhannu'n ddwy blaid, y naill yn glynu yn dynn wrth yr Egwyddor Wirfoddol Bur gan wrthod derbyn arian gan y llywodraeth, a'r llall yn barod i dderbyn cymorthdal tuag at ysgolion anenwadol. Rhaid cofio fod pob addysg yn y cyfnod hwn yn wirfoddol, gan ei fod yn cael ei gynnal drwy gyfraniadau gwirfoddol. Bu'r dadlau rhwng y ddwy blaid yn boeth iawn yng Nghymru ar brydiau yn enwedig rhwng 1843 a 1853. A siarad yn gyffredinol 'roedd y Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleyaid o blaid derbyn cymorthdal, tra oedd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr o blaid addysg gwbl wirfoddol. Hefyd gallwn yn fras rannu Cymru yn ddwy, y Gogledd, lle 'roedd y Methodistiaid gryfaf o blaid cymorthdal; a'r De lle 'roedd yr Annibynwyr a'r Bedyddywr gryfaf yn bleidiol i wirfoddoliaeth bur. ⁽¹³⁴⁾

Ar y 7ed o Fawrth 1843 cyflwynodd Ysgrifennydd Cartref Robert Peel⁽¹³⁵⁾, sef Syr James Graham⁽¹³⁶⁾ ei fesur ffatrioedd i'r senedd.⁽¹³⁷⁾ Cynigwyd y mesur hwn yn bennaf i reoli cyflogi plant a phobl ifanc mewn ffatrioedd. Ond ynddo yr oedd un adran yn ymwneud ag addysg, a'r adran arbennig honno fu'n achos cynnwrf buan. Bwriad y rhan yma o'r mesur oedd trefnu addysg orfodol i blant tlodion ac i blant yn gweithio yn y ffatrioedd. Yr hyn a gododd wrychyn yr Ymneilltuwyr oedd fod yr addysg hon i fod yng ngofal yr Anglicaniaid. 'Roedd yr ysgolion i gael eu rheoli gan ymddiriedolwyr a chlerigwyr, 'roedd dau warden eglwys a phedwar rhydd-ddeiliad i gael eu penodi gan yr ustusiaid ar gyfer pob ysgol. 'Roedd catecism a Llyfr Gweddi'r Eglwys i gael eu defnyddio ac 'roedd prifathrawon yr ysgolion i gael eu penodi gan yr esgobion.⁽¹³⁸⁾ Ar ben hyn oll 'roedd y plant i fynychu'r Eglwys, oni bai fod y rhieni'n gwrthwynebu. Nid oedd plentyn i gael ei gyflogi mewn ffatri oni bai ei fod yn ddisgybl yn un o'r ysgolion hyn, neu un o ysgolion y ddwy gymdeithas addysgol.

Parodd y mesur hwn gynnwrf yn rhengoedd Ymneilltuaeth, cynhaliwyd cyfarfodydd protest a llifodd 25,000 o ddeisebau i Lundain, gyda mwy na 4 miliwn o lofnodion arnynt, gan orfodi J.Graham i roi'r mesur o'r neilltu.⁽¹³⁹⁾ Teimlai'r Ymneilltuwyr pe bai'r mesur yn cael ei wneud yn ddeddf, y trosglwyddid addysg plant trwy'r wlad i grafangau'r Eglwys Sefydledig, a dyna'r peth olaf a ddymument.⁽¹⁴⁰⁾ Ac yn y cylchgronau Ymneilltuol yr oedd yr ymateb yn chwyrn.

"Dygwyd yr Ysgrif hon gan Syr J.Graham yn gyfrwys a dichellgar, gan ofalu cadw ei dannedd allan o'r golwg hyd y gallodd. Meddyliodd lluwars o wŷr deallus ei bod yn ysgrif ragorol, ac y dylasai pawb ei phleidio; ond erbyn ei hystyried gydag ychydig mwy o fanyldra, gwelwyd fod ganddi ddannedd ysglyfaethus a gwenwynllyd ofnadwy iawn - yn tueddu yn uniongyrchol at ddiddymu pob ysgolion dyddiol a Sabbathol yn mlith pob enwad crefyddol, ond yr Eglwys Sefydledig yn unig....yn chwanegu awdurdod yr Eglwys Waddolog, ar draul tynu enwadau eraill i lawr, a'u

hysbellio o'u meddiannau ar draul cynnal oferdybiau Puseyaidd, llawer mwy Pabaidd na Phrotestanaidd."⁽¹⁴¹⁾

Sylweddolwyd fod angen gwelliannau sydyn yn y byd addysgol yng Nghymru, un ai trwy wirfoddoliaeth bur neu drwy wirfoddoliaeth yn cael ei noddi gan y llywodraeth.

Ym 1843 y dechreuodd gweithgareddau'r gwirfoddolwyr pur, a hynny'n Lloegr. Yng nghyfarfodydd yr Undeb Cynulleidfaol yn Leeds ym mis Hydref, mynegodd Edward Baines ei safbwynt ynglŷn ag addysg, safbwynt a oedd yn ddylanwad mawr ar y meddwl cynulleidfaol yn y blynyddoedd dilynol. Dadleuai Baines fod addysg yn ymwneud â'r meddwl a'r moesau. O ganlyniad i hynny, cyfrifoldeb crefyddol ydoedd, i gael ei gynnal gan yr eglwysi yn unig. Maentumiai nad oedd ar unrhyw gyfrif yn rhan o gyfrifoldeb y llywodraeth, oherwydd dyletswydd y llywodraeth oedd "ffurfio a gweinyddu cyfreithiau, gwarchod pobl ac eiddo ac arwain perthynas allanol y wlad." Os oedd gan y llywodraeth hawl i drefnu addysg meddai hawl hefyd i drefnu crefydd, a beth wedyn am y dystiolaeth Ymneilltuol? Dyletswydd Ymneilltuwyr felly oedd gwrthwynebu ymyrraeth y llywodraeth ag Addysg, gan ei fod yn bygwth rhyddid y bobl. Daethpwyd i'r casgliad y dylai'r Cyrff Ymneilltuol adeiladu ysgolion drwy ymdrechion gwirfoddol heb gymorth y llywodraeth.⁽¹⁴²⁾

Prif gefnogwyr gwirfoddoliaeth bur yng Nghymru oedd Henry Richard,⁽¹⁴³⁾ David Charles, Caerfyrddin, Caleb Morris⁽¹⁴⁴⁾, David Rhys Stephen⁽¹⁴⁵⁾, David Rees, Llanelli, ac Evan Jones⁽¹⁴⁶⁾ (Ieuan Gwynedd).⁽¹⁴⁷⁾ Credai'r rhain fod yr ysgol yn gorff crefyddol, yn estyniad o'r gynulleidfa Gristnogol; ac fel Baines credent nad oedd gan y

llywodraeth fwy o hawl i ymyrryd mewn addysg, nag oedd ganddi i ymyrryd yng ngweithrediad yr eglwysi. Pwysleisient undod bywyd a'r amhosibilrwydd o wahaniaethu rhwng y seciwlar a'r ysbrydol. ⁽¹⁴⁸⁾ Daliant ei bod yn gwbl amhosibl i rai rhannau o fywyd fod yn grefyddol, ac i rannau eraill fod yn seciwlar, 'roedd bywyd Cristion yn ei gyfanrwydd yn Gristnogol. O ganlyniad dyletswydd cyrff crefyddol oedd darparu addysg, heb unrhyw gymorth allanol, nid dyletswydd llywodraeth. ⁽¹⁴⁹⁾ Yn y cylchgronau 'roedd safbwynt y gwirfoddolwyr pur yn cael ei fynegi'n gryf yn enwedig gan Ieuan Gwynedd, ysgrifennwr heb ei ail. Yn ei dyb ef ni ellid gwahanu addysg oddi wrth grefydd gan fod y ddau yn annatod glwm,

"Gan mai hyfforddiad y meddwl ydyw Addysg, y mae yn eglur y dylai crefydd gael ei gyd-wau a phob rhan ohoni. Nid ydyw addysg ddi-grefydd ond melltith....Yn awr yr ydym ni oll yn credu na ddylai y Llywodraeth ddysgu crefydd; ond gan fod cau crefydd allan yn bechadurus a niweidiol, y mae yn ddigon eglur na ddylai y llywodraeth gael dyfod i mewn ar draul o droi crefydd allan....Nid oes un eto wedi llwyddo i ysgaru addysg a chrefydd oddi wrth eu gilydd, mae eu cysylltiad wedi para cynifer o oesoedd, nes y gallwn, o'r bron ddywedyd, y rhai a gysylltodd Duw nac ysgared dyn." ⁽¹⁵⁰⁾

Yn fwy na hynny nod pennaf addysg oedd dysgu egwyddorion a moes i'r disgyblion, a sylfaen moes oedd Cristnogaeth.

"Beth ydyw addysg? Ai dysgu yr A.B.C. sillebu, darllen a rhifyddu? Nage fawr, nid yw y pethau hyn ond moddion addysgu....Prif ddiben addysgu ydyw gwneud dyn yn aelod defnyddiol o gymdeithas, yr hyn a sicrheir drwy ddysgu iddo yr hyn a'i gwna yn ddefnyddiol, parchus a dedwydd....Am ei natur, eglur ydyw y rhaid iddo fod yn cynnwys gwybodaeth am dda a drwg....Rhaid i'r wybodaeth y soniwyd amdani fod yn foesol. Crefydd ydyw sylfaen moesoldeb, a rhaid i addysg gynnwys gwybodaeth am Dduw, cyn y gellir ei alw'n foesol." ⁽¹⁵¹⁾

Credai Ieuan Gwynedd ym mhellach mai peth drwg oedd addysg seciwlar, gan y byddai'n arwain y disgyblion tuag at anghrediniaeth, i edrych ar y byd fel byd di-Dduw.

"Na throwch y Beibl dros ddrws yr ysgol er derbyn arian y llywodraeth. Mae addysg fydol mor anghymwys i gyfansoddiad meddwl dyn ag a fyddai y môr i'r aderyn, ac uchelderau'r awyr i'r pysgodyn....Gwaherddir yr athro i siarad am weithredoedd Duw yn y nefoedd, y ddaear a'r dwfr sydd tan y ddaear. Gall fynd a'i ysgolheigion i weled dulathau ystafelloedd y dyfnder, ond ni faidd ddywedyd mai Duw a'i gosododd yn eu lle. Gall eu cymryd i sylwi ar y môr wedi ei rwymo mewn gwisg o niwl, ond ni chaiff yngan pwy a'i greodd... Mewn gair, y mae y cynllun a gynnigir i chwi, Ymneilltuwyr Cymru, yn distewi cerddoriaeth cylchoedd y ddaear, yn rhwymo tafod y greadigaeth, ac am ddileu arwyddion tragwyddol allu a Duwdod Iôr o'r pethau a wnaeth."⁽¹⁵²⁾

Ac nid yn unig Ieuan Gwynedd a deimlai fel hyn, ysgrifennodd Simon Evans, Pen-y-groes, gan daro'r un tant. Yn ei dyb ef 'roedd yn amhosibl rhoi addysg gyflawn heb sôn am Dduw.

"Nid oes un Ymneillduwr a foddiona dderbyn arian y llywodraeth at ysgolion lle y cyfrenir addysg grefyddol. Cymeraf hyn yn ganiataol; ac os gellir profi annymunoldeb sefydlu ysgolion heb addysg crefyddol, rhaid gwrthod rhoddion seneddol. Ymofynwyn. A ydyw yn ddichonadwy ac yn ddymunol i roddi addysg masnachol heb roddi addysg crefyddol? Atebwn. Y mae yn anhawdd os yn bosibl. Y mae yn ofynol na fyddo'r addysg yn anghrefyddol: anghrefydd sydd nacad. Anffyddiaeth yw peidio credu. Dysgu rheolau natur, seryddiaeth &c., heb son am Greawdwr, fyddai dysgu Anffyddiaeth; son am Grewr a wnelai yr addysg yn grefyddol. Rhaid i'r ysgolfeistr fod yn ddyn crefyddol neu anghrefyddol; os yn grefyddwr, bydd yn anhawdd os yn amhosibl, iddo ddysgu plant heb son am Dduw, am Fibl, ac am ail-fyd....Gwthir ef i ymofyn sylfaen i foesau da heblaw gair Duw...."⁽¹⁵³⁾

Ond 'roedd eu dadl fwyaf nid ynglŷn ag undod bywyd y Cristion, ond yn erbyn y llywodraeth a'r Eglwys Sefydledig; yn amlach na pheidio yr oeddent yn ystyried y ddwy garfan uchod fel un blaid. Nid oedd gan y

llywodraeth unrhyw hawl o gwbl i ymyrryd ag addysg, ac yn fwy na hynny yr oedd derbyn cymorthdal yn gyfystyr â gwadu Ymneilltuaeth.

"Gan mai diben y llywodraeth yw diogelu bywydau a meddiannau, nis gall y dichon mai ei dyletswydd ydyw addysgu. Ni welsom neb eto yn amcanu profi fod un hawl gan y llywodraeth i addysgu, er y gwelsom lawer yn cymryd hynny yn ganiataol. Ond nid pwnc i'w gymryd yn ganiataol ydyw... Os dylai'r llywodraeth ddysgu mewn un modd, dylai addysgu crefydd.....ac os dylai ddysgu crefydd, y mae'r Eglwys Wladol yn iawn, ac nid ydyw yr Eglwys Ysbrydol ond twyll, hudoliaeth a distryw. Os gall Ymneilltuwyr dderbyn arian y wlad i gadw ysgolfeistri, gallant eu derbyn hefyd i gadw gweinidogion... Os ydym am ymddiried yn y llywodraeth y mae'n bryd i ni wadu Ymneilltuaeth. Nis gallwn ni fwy nac eraill wasanaethu Duw a Mamon." (154)

'Roedd Ieuan Gwynedd yn y dyfyniad uchod yn poeni y buasai ymyrraeth y llywodraeth yn effeithio ar ryddid yr unigolyn. Ategwyd yr ofn gan Dewi Goch, Llangloffan.

"Nid dyledswydd y llywodraeth yw addysgu'r plant, oblegid y mae plaid arall sef eu rhieni, dyledswydd y rhai yw eu haddysgu... os dywedwn ei bod yn ddyletswydd ar y llywodraeth i addysgu y bobl, meddyliwn, bid sicr yr holl bobl, y tlawd a'r cyfoethog... Y mae hyfforddiad moesol y mawrion yn llawer mwy o bwys i'r wlad na hyfforddiad yr iselradd... Tuedd addysg dan nawdd llywodraeth yw diraddio y meddwl..." (155)

Cytunai Simon Evans gyda Dewi Goch ar y pwnc hwn gan ddweud mai priod waith llywodraeth oedd cosbi drwgweithredwyr a diogelu bywydau a meddiannau, nid addysgu. Credai ymhellach y byddai ymyrraeth y llywodraeth ag addysg yn rhwystr i gynydd meddwl y boblogaeth. (156) Ond fe âi Ieuan Gwynedd gam ymhellach gan ddweud ei fod yn gweld rhywbeth drwg yn ymyrraeth y llywodraeth ag addysg, mai eu bwriad oedd cyflyru meddyliau'r bobl er mwyn eu gwneud yn driw i'r wladwriaeth.

"Ac os daw ymyrraeth y llywodraeth ag addysg i mewn yn esmwyth a hudol yn awr, ni bydd raid i neb ohonom wrth oes Methusalem i'w

gweled yn brathu fel sarph, ac yn pigo fel neidr. Er nad yw yn gofyn i ni yn awr, ond bwyta afal, gall yr "aeron teg," os yn "waharddiedig idd y byd ei flas," ddwyn ar ein penau "Angeu a phob erchyll wae."

Ein gosodiad yw nad oes hawl gan y llywodraeth i ymyraeth ag Addysg...Addysg ydyw hyfforddiad y meddwl....nid oes un peth yn deillwng o'r enw Addysg, ond yr hyn sydd yn ffurfio cymeriad. Yn awr, y mae yn ddigon eglur nad oes a fyno un llywodraeth wladol a ffurfio cymeriadau ei deilliaid - mae y rheswm am hyn yn eglur. Nid yw llywodraeth ond sefydliad wedi ei fwriadu er lles y deilliaid....Y mae llywodraeth wedi ei gwneud er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y llywodraeth....Dylai yr aelodau....fod yn y cyflwr mwyaf manteisiol er cyfaddasu y llywodraeth er gwneud eu hanghenion i fyny. Os felly, y mae yn ddigon eglur.....Bydd y rhan fwyaf o feddyliau yn sicr o fyned ar hyd y llwybr yr hyfforddwyd hwy; ac o ganlyniad, y mae gan bob llywodraeth wladol hunan-les mewn golwg wrth gymeryd gofal addysg y bobl. "Y cyw a fegir yn uffern, yn uffern y myn fod." <157>

Pe bai cynigiad y llywodraeth yn ddim byd mwy nag arian, mae'n debygol y gallai'r gwirfoddolwyr hyn fod wedi ei dderbyn. Ond iddynt hwy yr oedd y cynigiad yn rhywbeth llawer amgenach na hynny, ac fe fuasai ei dderbyn yn mynd yn erbyn eu hegwyddorion. Fel y dywedodd R.D.Thomas,

"Dywedasom o'r blaen a dywedwn yn gryno etto, fod yn well gennym fod heb addysg bydol, pe byddai raid, na derbyn addysg gymysglyd gwenwynol y Llanwyr....credwyf etto mai dyletwsydd ymneilltuwyr Cymru yn awr yw gwrthod cynorthwy - glynu wrth ac amddiffyn ein hegwyddorion - ymdrechu yn egniol i symud y rhwystrau sydd ar y ffordd lledaeniad crefydd ac addysg yn ein gwlad,- gwneud eu gorau at hyn ar yr egwyddor wirfoddol - sefydlu cymdeithas ysgolaidd newydd at gynorthwyo gweiniaid - a pheidio digaloni, ond ymddiried yn eu Duw." <158>

Yr oedd y gwirfoddolwyr pur yn ddrwgdybus o unrhyw beth yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn gysylltiedig ag ef, rhown y gair terfynol ar y pwynt hwn i Ieuan Gwynedd.

"Weithwyr a Llafurwyr Cymru! Na ddaller chwi gan y cynnigiad o arian a osodir ger eich bron yn bresenol gan bleidwyr addysg y llywodraeth. Nid pwnc o arian ond pwnc o egwyddor yw hwn.....Ymneilltuwyr Cymru! Ai gwir eich bod chwi am addoli y llo aur? A ydyw eich ymddiried yn y gwirionedd wedi darfod a'ch hyder mewn egwyddor wedi pallu? Ai arswydol yr ydych rhag i Eglwys

Loegr fyned a'r plant oddiarnocho os na chwareuwch yr un ystranciau a hithau." (159)

Haws dywedyd "Wele'r Wyddfa!" na mynd drosti, dyna oedd hanes y Gwirfoddolwyr pur. Er fod ganddynt ddadleuon cryf, ysgrifennwyr gwych a chefnogwyr dylanwadol, braidd yn gloff oedd eu hymgais i sefydlu rhwydwaith o ysgolion yng Nghymru. Ym 1844 anfonwyd Henry Richard gan Undeb Cynulleidfaol Lloegr i baratoi adroddiad ar gyflwr addysg yn y De. (160) Ym mis Mawrth 1845 cyhoeddwyd llythyr yn y cylchronau Cymraeg gan 12 o Gymry Llundain a oedd yn perthyn i'r pedwar Corff Ymneilltuol. Yn y llythyr yr oeddent yn rhybuddio'r Cymry, oni bai eu bod hwy yn ymgymryd a'r gwaith o ddarparu addysg, fod perygl y buasai mesur tebyg i fesur 1843 yn cael ei gyflwyno unwaith eto. Cyhoeddai hefyd y byddai cynhadledd o holl gyrff crefyddol De Cymru yn cael ei chynnal i drafod y modd gorau i ddarparu ysgolion drwy gydweithrediad yr holl Gyrff. 'Roedd y gynhadledd i'w chynnal yn Llanymddyfri ar y 9ed a'r 10ed o Ebrill 1845. (161)

Daeth tua 120 o gynrychiolwyr ynghyd, yn weinidogion a lleygwyr o'r prif Gyrff yn Ne Cymru; 70 o Gynulleidfaolwyr, 20 o Fedyddywr a 15 o Fethodistiaid Calfinaidd a Methodistiaid Wesleyaidd. Ffurfiwyd "Pwyllgor Addysg Deheudir Cymru," a phenodwyd David Rees, Llanelli, D. Rhys Stephens, Casnewydd, a J. Pratten, Aberhonddu, fel ysgrifenyddion. (162) Cytunwyd yn y gynhadledd y dylai'r pedwar Corff uno i sefydlu ysgolion anenwadol, ac mai'r cam cyntaf oedd sefydlu Ysgol Normal i hyfforddi athrawon, fel arbrawf dros dro. (163) Ym mis Medi 1845 penderfynodd y pwyllgor logi adeilad yn Aberhonddu, yr hen faracs am 3 blynedd ar gost o 50p y flwyddyn, i'w ddefnyddio fel Ysgol Normal i hyfforddi dynion yn y system Brydeinig o ddysgu. Agorwyd yr ysgol ar Ionawr y cyntaf 1846, gydag Evan Davies (164) yn brifathro. Symudwyd yr Ysgol i Abertawe ym 1849. (165) Dechreuwyd hefyd ar y

gwaith o agor ysgolion, penodwyd pwyllgorau lleol a sirol. ⁽¹⁶⁶⁾ Prif waith y pwyllgorau hyn oedd hel arian, gan nad oeddent yn derbyn unrhyw gymorthdal.

Agorwyd ysgol fodel ynghlwm wrth y Coleg Normal yn Aberhonddu ⁽¹⁶⁷⁾, ac ysgolion gwirfoddol mewn festrioedd capeli, ond anodd yw gwybod beth oedd y rhif. Mae'n fwy na thebyg eu bod yn lluosog, ond fe brofodd y draul o'u cynnal yn faich rhy drwm i bobl yr ardaloedd, ac ym 1853 penderfynwyd gofyn i'r Gymdeithas Frutanaidd anfon trefnydd i'r De. ⁽¹⁶⁸⁾

O un safbwynt yr oedd Ieuan Gwynedd a'i debyg yn parhau'r traddodiad Catholig ac Anglicanaidd fod addysg i fod o dan fawd yr Eglwys. Ac felly yr oedd, fel hwythau, yn gwrthwynebu addysg seciwlar lwyr. Ble felly oedd y gwahaniaeth? Fe ymddengys ei fod yn eu hagwedd tuag at y wladwriaeth. Yr oedd y traddodiad Catholig ac Anglicanaidd yn croesawu nawdd y wladwriaeth tra 'roedd y gwirfoddolwyr pur yn ei wrthwynebu. Ac 'roedd y gwrthwynebiad hwn i raddau'n seiliedig ar ofn y byddai trefn addysgol wladwriaethol yn tanseilio ei safiad sectaidd.

Dros y blynyddoedd newidiodd rhai gwirfoddolwyr pur eu barn, gan ddilyn Dr. Robert Vaughan ⁽¹⁶⁹⁾ a ddadleuai ei bod yn bosibl gwahanu crefydd oddi wrth addysg. Un o'r cyfryw rai oedd David Rees, Llanelli. ⁽¹⁷⁰⁾ Gwrthodai Vaughan y farn fod addysg grefyddol yn annatod glwm wrth addysg gyffredinol. Credai nad oedd unrhyw wrthwynebiad moesol i'r llywodraeth gyfrannu at addysg, cyn belled â bod yr addysg honno'n gyfan gwbl seciwlar. Pe bai'r Ymneilltuwyr yn parhau i wrthwynebu pob cymorthdal gan y llywodraeth, byddai hynny'n gyfystyr â dweud, "ei bod yn well i'r bobl fod

heb addysg na heb addysg grefyddol." Brwydrodd felly o blaid ysgolion cwbl seciwlar yn cael eu cynnal gan y wladwriaeth. ^{'171'} Felly fe ddaeth ymdrech y gwirfoddolwyr pur i ben oherwydd diffyg cefnogaeth ac arian, a llwyddiant yr Ysgolion Brutanaidd.

Yn awr edrychwn ar garfan arall o Ymneilltuwyr, dynion fel Hugh Owen, Lewis Edwards, Y Bala, William Rees (Hiraethog), Henry Griffiths^{'172'}, Aberhonddu, James Kilsby Jones, John Phillips, Bangor, a William Williams^{'173'} aelod seneddol Coventry; dynion a gredai ei bod yn ddyletswydd ar y llywodraeth i hyrwyddo addysg gyffredinol, ac nad oedd derbyn cymorthdal gan y llywodraeth i godi ysgolion, a thalu cyflogau athrawon, i godi safon addysg seciwlar, mewn unrhyw fodd yn anghyson ag egwyddorion sylfaenol Ymneilltuaeth. ^{'174'} 'Roedd y blaid hon yn llawer mwy "enwadol" ei hymarweddiad na'r blaid arall. 'Roeddent yn fwy parod i gydymffurfio â'r byd oddi amgylch, ac yn barod i dderbyn arian y llywodraeth, hynny yn rhywbeth na fydddech yn ei ddisgwyl i sect ei wneud. Hefyd 'roeddent yn barod i rannu - i ryw raddau - bywyd y Cristion gan ddweud y gellid gwahanu addysg oddi wrth grefydd. Er fod nodweddion "enwadol" i'r blaid hon, 'roedd ganddi hefyd nodweddion sectyddol ac un o'r rhain oedd eu hatgasedd tuag at yr Eglwys Sefydledig. Ond sut oedd y dynion hyn yn gallu cyfiawnhau derbyn cymorthdal gan y llywodraeth? Unwaith eto fe drowm at y cylchgronau i ganfod yr ateb. Dyma ddywedai R.P., yn Y Dysgedydd (1847),

"Y mae llawer yn ofni derbyn cymorth o'r wladwriaeth o herwydd y perygl a ddychmygant fod yn ei arolygiaeth ar yr Ysgol; ond y mae'r arswyd hwn yn codi yn fynych oddiar anwybodaeth neu anystyriaeth o derfynau yr hawl a honir. Nid yw y llywodraeth yn honi unrhyw ddylanwad ar yr Ysgol, yn mhellach na bod i arolygwyr gael rhyddid i ymweled yn achlysurol, er mwyn cael gwybod a fydd ysgol yn cael ei chynnal yno, ac i'r dyben o gael hysbysiad o wir sefyllfa addysg yn y wlad, ni ofyna awdurdod i gyfnewid yr un lot

o'r hyn a ddysgir, nac i ymyraeth dim a'r un cyfrif a'r moddion o gyflwyno addysg." '175'

Felly, yn ôl R.P., nid oedd unrhyw amcanion drwg yng nghynigion y llywodraeth fel y credai Ieuan Gwynedd. Yn wir 'roedd rhai o bleidwyr cymorthdal yn cymryd safbwynt cwbl o chwith i Ieuan Gwynedd, gan ddweud mai trwy dderbyn cymorthdal yr oedd sicrhau addysg grefyddol.

"Ond nid pob math o Addysg a ddichon roddi'r goron ar ei ben; gall feddu rhifyddiaeth a gramadeg ac athrawiaeth, a throï mewn cylchoedd uchel yn y byd, a mwynhau pob moethau, ac yn y diwedd fod yn gymhwysach i drigo fel Nebuchodonozor gyda gwyltffilod, na chyda dynion. Rhaid cael rhywbeth heblaw addysg allanol i buro'r chwaeth, ac heblaw coegfoesau i addurno'r cymeriad. Rhaid cael addysg a'n dug i gyffyrddiad â Duw, ac a dyru annibynoldeb i'r meddwl. Addysg a'n gwna i deimlo mai dynion, ac nid nwyddau ydym...mae y cynllun Brutanaidd bob peth o'r bron i wneud i fyny y diffygion ag yr oeddem yn eu teimlo dan yr hen gynlluniau o'r blaen....y mae yn ateb i'n disgwyliadau mwyaf hyderus." '176'

Ac yn fwy na hynny nid oedd derbyn cymorthdal yn amharu dim ar ryddid yr unigolyn; i'r gwrthwyneb 'roedd yr Ysgolion Brutanaidd yn cydnabod rhyddid dyn.

"Yr ydym yn ymorfoleddu mewn addysg gwirfoddol fel y mwyaf teilwng a'r mwyaf anrhydeddus, gan fod yn benderfynol yn hyn, y bydd iddo, dan fendith y Nef, fod yn foddion i godi cymeriad y genedl....Mae yr Ysgolion Brutanaidd eto wedi eu sefydlu ar yr egwyddor ag sydd yn cydnabod rhyddid dyn fel deiliad barn a byd arall. Yr ydym yma etto dan yr angenrheidrwydd o'u cymharu a'r ysgolion Cenedlaethol, er gweld rhagoroldeb y naill sefydliad ar y llall. Mae y flaenaf a'i drws ar agored, yn derbyn pwy bynnag a ddaw, heb ei rwymo i lyncu un credo yn groes i'w farn, na chydymffurfio ag un gwasanaeth yn groes i'w cydwybod. Ynddi yr ydym yn cyfarfod â phlant gwahanol enwadau gyda'u gilydd a "Phawb fel brodyr yno'n un, Heb neb yn tynnu'n groes." '177'

Fe gawn dinc "enwadol" iawn ar derfyn y dyfyniad uchod, wrth i'r awdur sôn am undod. Yn y dyfyniad isod gan "Un ohonoch eich hunain," yn Y

Traethodydd (1849), fe welwn y modd yr oedd rhai ysgrifennwyr o blaid cymorthdal yn gallu rhannu bywyd dyn yn adrannau crefyddol a seciwlar.

"Y mae argraff wedi ei wneyd ar feddyliau llawer o bobl ac nid rhyfedd wrth ystyried yr ymgais sydd wedi bod ac yn bod at hyn, fod yn rhaid i addysg fod yn gwbl yr un a chrefydd; yn gymaint felly fel na ellir derbyn cymhorth y llywodraeth at roddi addysg fydol i blant tlodion heb gydnabod hawl llywodraeth i ddysgu crefydd: a thrwy hyn, gyfiawnhau yr egwyddor o sefydliadau crefyddol gan y llywodraeth. Nis gallaf mewn un modd gydsynio a hyn: a thybiwn na fyddai eisiau mwy na gosod y peth yn deg a didwyll ger bron y wlad, er argyhoeddi yr ystyriol anhleiddgar fod y cyfryw olygiadau yn hollol anghywir. Y gwirionedd yw, nid dysgu crefydd, ond rhoddi addysg fydol yw yr amcan penodol a phwrpasol mewn ysgol ddyddiol. Dylai pob gorchwyl, a phob ymwneyd rhwng y naill ddyn a'r llall fod wedi ei sylfaenu ar egwyddorion Cristnogol, a chael ei ddwyn ymlaen mewn ysbryd efengylaidd. Ond nid yw hyn yn un rheswm am ddywedyd mai gweithred grefyddol yw pob peth a wneir felly. Nid gweithred grefyddol yw prynu neu werthu, er ei chyflawni dan ddylanwad crefydd. Felly yn gywir y mae dysgu darllen, ysgrifenu a rhifyddiaeth i blant: ac nid dysgu crefydd yw gorchwyl priodol yr ysgolfeistr...Derbynir cymhorth y llywodraeth mewn pethau mwy crefyddol nag ysgol o'r fath hyn. Y mae y rhan amlaf o'r cymdeithasau crefyddol yn defnyddio y llythyr-gerbydau (mail) i gludo ei hysbysiadau...Yr wyf yn nodi y pethau hyn i ddangos fod Ymneilltuwyr yn ei hystyried yn briodol i ddefnyddio sefydliadau gwladol, pan y gallont er gwasanaethu crefydd, ac nad ydynt yn ystyried eu bod yn gweithredu yn erbyn eu hegwyddorion eu hunain wrth wneyd hyny...Cyflogi'r "policeman" i gadw heddwch yn yr heolydd; ond nid yw hynny yn ei gwneyd yn amhriodol iddo ymresymu â'r afreolus am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd...Nid am eu gwasanaeth i grefydd mae y llywodraeth yn eu talu; ond tra yn cael eu talu gan y llywodraeth am wasanaeth arall, gallant os byddant yn ewyllysio, fod yn wasanaethgar i grefydd...Felly y mae gydag ysgolfeistri. Nid yw ei fod yn cael ei gynnal gan y llywodraeth, mewn un gradd yn ei rwystro i ddysgu crefydd." (178)

Gwelwn uchod y gwahaniaeth rhwng agwedd y Gwirfoddolwyr oedd o blaid derbyn cymorthdal, a'r Gwirfoddolwyr pur, tuag at addysg. Credai'r blaenaf y gellid i raddau rannu addysg oddi wrth grefydd, ond fod crefydd yn gefndir i'r addysg. Credai'r olaf mai gweithred grefyddol oedd addysgu. Ond fel y Gwirfoddolwyr Pur, 'roedd i bleidiwyr cymorthdal eu nodweddion sectyddol, sef eu gwrthwynebiad chwynn i'r Eglwys Sefydledig. Pryderai

H. Jones, Heol Awst, Caerfyrddin, fod arafwch yr Ymneilltuwyr gydag addysg yn caniatáu i'r Eglwysgwyr ddylanwadu ar y plant.

"Sylwed y darllenydd ar y ffaith hon; sef os na dderbyniwn ni gynorthwy arian trethi, fel ymneillduwyr, i roddi addysg gelfyddydawl i'r plant, y mae Eglwys Loegr yn eu derbyn wrth y miloedd ar filoedd, i ddysgu iddynt gatecism yr eglwys ac eglwysyddiaeth y Llan yn drwyadl, gydag addysg gelfyddydawl." <179>

Credai "Anghydfurfiwr" hefyd yn ei ysgrif yn Y Dysgedydd (1844), fod yr Anglicaniaid yn defnyddio addysg er mwyn hyrwyddo eu crefydd eu hunain.

"Addysg rhydd, cyhoeddus, poblogaidd, yw yr hyn sydd angenrheidiol, i'r genedl mewn ysgolion dyddiol. Dyma ein rheswm am y cynhyrriad diweddar i wrthwynebu y cynnigiad a wnaed i gyfrwyo y genedl ag addysg caeth seiliedig ar Lanyddiaeth gan Syr J. Graham. Y mae pleidwyr y trefniant cenedlaethol yn honi fod pob addysg i fod yn seiliedig ar grefydd, ac mai Llanyddiaeth yw crefydd; o ganlyniad mai deistiaeth ac anffyddiaeth yw pob addysg allan o gylch rheolaeth y Personiaid. Y mae hyn yn ddiâu yn berffaith gyson ag Eglwys-Loegriaeth. Hereticiaid a damnedigion yw pawb a phob peth allan o'i therfynau, yn ol ei hegwyddorion sylfaenol; ac felly yr oedd y cynnigiad hwnw yn berffaith unol â'i hysbryd; a dyma un o'n rhesymau ninnau am wrthod y National Schools, a gamelwir felly. Dysgeidiaeth naturiol ac nid chatecismau Llanyddol, sydd ar y genedl eisiau...Y mae eisiau dysgu i'r plant yn mlaen pob peth feddwl drostynt eu hunain. Gwaith y cof yw dysgu chatecismau, ac "ymarfer corfforol," yw dysgu iddynt dalu moesau i'r rhai a gyfarfyddant, ar y ffordd, ond y mae gan ddyn feddwl, ac eisiau ei ddiwyllio, ac y mae eisiau paratoi y plant i'w roddi mewn ymarferiad. Gellid dysgu parrot i adrodd catecism, a dysgu mwnci i wyro o flaen person ar yr heol, ond y mae addysg deilwng o ddyn yn galw y meddwl allan i ymarferiad." <180>

Yn mis Awst 1843 ymddangosodd llythyr enwog Hugh Owen, <181> at ei gydwladwyr yn y cylchgronau Cymraeg. Ei fwriad, trwy gyfrwng y llythyr, oedd ennyn brwdfrydedd yn ei gyd-Gymry i sefydlu ysgolion Brutanaidd dan nawdd cymorthdal y llywodraeth. <182> Y cynllun oedd sefydlu Ysgolion

Brutanaidd ymhob ardal a ffurfio Cymdeithas Ysgolion Frutanaidd ym mhob Sir. 'Roedd pwyllgor i'w benodi ymhob ardal i ddewis safle, i gynllunio adeiladau, i geisio cefnogaeth leol i'r ysgol ac i gael athro a fyddai'n gyfrifol am gadw'r ysgol. Hefyd yn y llythyr rhoddwyd awgrymiadau ynglŷn â chael cymorthdal gan y llywodraeth a thanysgrifiadau gan dirfeddianwyr a threthdalwyr lleol. Gan bwysleisio'r angen am athrawon hyfforddiedig, amlinellodd Hugh Owen y cyfleusterau a oedd ar gael yng Ngholeg Normal y Gymdeithas Frutanaidd a Thramor yn Llundain. Cynigiodd roi gerbron y Llywodraeth unrhyw gais am sefydlu ysgol Frutanaidd. ⁽¹⁸³⁾

'Roedd yr ymateb i lythyr Hugh Owen mor fawr, fel y bu'n rhaid iddo, oherwydd y ceisiadau am wybodaeth ynglŷn ag adeiladu Ysgolion Brutanaidd droi at y Gymdeithas Frutanaidd a Thramor am gymorth. Erfyniodd arnynt benodi cynrychiolydd yng Nghymru. Gwrandawyd ar ei gais ac ym mis Rhagfyr 1843 ysgrifennodd i'r Drysorfa, yn cyhoeddi fod John Phillips wedi ei benodi fel cynrychiolydd ar ran y Gymdeithas yng Ngogledd Cymru. ⁽¹⁸⁴⁾ Yn fuan gwelwyd ffrwyth gwaith J. Phillips. Erbyn Ebrill 1845 gallai Hugh Owen gyhoeddi yn Y Drysorfa fod John Phillips wedi ffurfio,

"80 o gyfeisteddfodau mewn cynifer o wahanol ardaloedd gyda golwg ar sefydlu ysgolion ynddynt. O'r nifer yma o ardaloedd, mae 12 o honynt eisoes wedi sefydlu ysgolion; yn y rhai y mae tua 1,500 o blant yn derbyn addysg... Heblaw hyn y mae 20 o ddynion ieuainc o Gymru wedi bod yn athrofa y Gymdeithas yn Llundain o fewn y flwyddyn, yn cael eu haddysgu a'u cymhwyso i fod yn Ysgolfeistriaid; ac ynddi yn bresenol mae 7 yn ychwaneg." ⁽¹⁸⁵⁾

Tra nad oedd ym 1843 ond tua 6 ysgol Frutanaidd yng Nghymru gyfan, yr oedd ym mhen tair blynedd dros saith mil o blant yn derbyn addysg mewn ysgolion o'r fath. ⁽¹⁸⁶⁾ Yr oedd y cynnydd yn amlach yn y Gogledd na'r De. Erbyn 1846 yr oedd 31 o ysgolion wedi eu hagor a 12 o rai eraill ar y

gweill. ⁽¹⁸⁷⁾ Pan sylweddolodd Hugh Owen maint ac anawsterau'r gwaith, awgrymodd i'r Gymdeithas ym 1844, y dylid cael tri cynorthwywr rhan amser, yn hytrach nag un llawn amser. Erbyn Gorffennaf 1845 'roedd y Parch. H. Pugh ⁽¹⁸⁸⁾ o Fostyn a'r Parch. J. Mills wedi eu penodi i gynorthwyo John Phillips. ⁽¹⁸⁹⁾ Erbyn Mai 1847 'roedd 48 o ysgolion eraill wedi eu hagor. ⁽¹⁹⁰⁾

Y cam nesaf a gymerodd Hugh Owen oedd ffurfio "Cymdeithas Addysgiadol Gymraeg." (Cambrian Education Society.) Cafwyd y cyfarfod cyntaf yn Llundain 2 Ebrill 1846. ⁽¹⁹¹⁾ Cyflwynodd y gymdeithas hon ei hun yn y modd arferol, drwy gyhoeddi cyfarchiad yn y cylchgronau Cymraeg. Yn y cyfarchiad adroddwyd hanes addysg yng Nghymru o ddyddiau Griffith Jones, i ddangos fod y Cymry wedi eu hyfforddi yn well nag unrhyw wlad mewn gwymbodaeth ysgrythyrol. 'Roeddent yn cymharu hyn â'r diffyg llwyr oedd wedi bod mewn addysg seciwlar. Yn Y Drysorfa (1846), mynegwyd y rheswm dros ffurfio'r Gymdeithas.

"Gofyn y gwaith o sefydlu ysgolion dyddiol drwy Gymru am fwy o draul arianol nag a ellir disgwyl i'r Gymdeithas Frutanaidd a Thramor ei dwyn, oddigerth i ran fawr o'r draul gael ei chyfranu o'r wlad hono; ac ar yr un pryd bydd i'r gymdeithas wedi ei ffurfio yn fwriadol er mwyn Cymru feddu honiadau grymusach am gynorthwy ar Tirfeddianwyr y Dywysogaeth ac un o nodwedd fwy cyffredinol...." ⁽¹⁹²⁾

Bwriad y gymdeithas hon oedd;

1. gosod ar waith oruchwylwyr er cymhell y bobl i sefydlu ysgolion ym mhob lle angenrheidiol.....
2. Er rhwyddhau ymdrechadau pwyllgorau lleol trwy eu cynnysgaeddu a chynlluniau o Ysgoldai cymhwys i'w cymdogaethau, i wneuthur ceisiadau drostynt am roddion gan y llywodraeth...
3. Rhoddi cynorthwy arianol at adeiladu ysgoldai mewn cymdogaethau lle byddo angen neillduol am hyny.
4. Gofalu am athrawon cymhwys i gynorthwy dynion ieuainc gobeithiol i dderbyn addysg mewn Ysgol Athrawol...

5. Penodi Ymwelwyr (Inspectors) i gynorthwyo yn nhrefniad ysgolion...
6. Cynorthwyo gweithrediadau Ysgolion ar ôl eu sefydlu. "¹⁹³"

Felly gosododd Hugh Owen sylfeini cadarn iawn i'r Gymdeithas Brutanaidd a Thramor yng Nghymru. A bu ei waith yn llwyddiant mawr.

'Roedd y Methodistiaid Calfinaidd yn frwdfrydig iawn o blaid yr Ysgolion Brutanaidd, hyn yn rhannol oherwydd fod John Phillips a Hugh Owen eu hunain yn aelodau o'r Corff hwnnw. Yn ardaloedd y chwareli yn Sir Gaernarfon - yn cynnwys Dinorwig, Waunfawr, Bethesda, Llanllechid a Llanrug - gwariodd y Methodistiaid Calfinaidd 8,000p ar godi ysgolion, a rhwng 1844 a 1873 codwyd 23 o ysgolion Brutanaidd yn yr ardal. "¹⁹⁴" Ceir hefyd ambell gyhoeddiad fel yr un isod gan y Gymdeithasfa (Bala, 1853).

"Hysbyswyd a chadarnhawyd cynnigion y cyfeisteddfod tuag at hyrwyddo Addysg ddyddiol yn ein hardaloedd ac yn benaf trwy wneyd darpariaeth at gael athrawon cymwys, sef

1. Ein bod yn cadarnhau yr annogaeth ar i un casgliad gael ei wneuthur yn ein cynulleidfaoedd trwy Ogledd Cymru, Lerpwl a Manchester tuag at ffurfio trysorfa er mwyn cynorthwyo gwŷr ieuaingc awyddus i fod yn ysgolfeistriaid.
2. Fod i'r casgliad gael ei wneuthur yn mhob man hyd y byddo modd erbyn Cymdeithasfa Trallwm....
5. Fod Parch. L. Edwards a J. Phillips i weithredu fel bwrdd ymchwil. "¹⁹⁵"

Cododd gweithgarwch a brwdfrydedd y Methodistiaid Calfinaidd wrth agor Ysgolion Brutanaidd amheuaeth ym meddyliau rhai. 'Roeddent yn ofni mai awydd hyrwyddo eu daliadau crefyddol eu hunain ar feddyliau'r ieuenctid oedd y rheswm am eu brwdfrydedd. Fel y dywedodd R. Jones, Bethesda,

"Gwyddoch mai newydd a dieithr ydyw i'r Methodistiaid gydwethredu ag enwadau eraill mewn pethau cyhoeddus, ac oherwydd hyny y dylai gocheliadau fod yn fwy. "¹⁹⁶"

Ym mis Ebrill 1865 daeth Hugh Owen a rhai o'i gyfeillion i Fangor er mwyn trafod, ymhlith pethau eraill, yr angen am goleg hyfforddi yn Ngogledd Cymru. 'Roedd pawb yn frwdfrydig iawn yno; felly cafwyd cyfarfod arall ym mis Gorffennaf yn Y Rhyl pryd y penderfynwyd sefydlu coleg ym Mangor. Ymgymerodd John Phillips unwaith eto â'r gwaith llafurus o ennyn diddordeb o'i blaid ymhlith y Cymry a chasglu rhoddion. Teithiodd yn ddifflino i bob rhan o Gymru, i Lerpwl, Manceinion a Llundain. Casglwyd 11,500p i gyfarfod cymorth ariannol o 2,000p gan y llywodraeth. Derbyniwyd cyfraniadau oddi wrth y prif sefydliadau crefyddol mewn meintiau amrywiol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ar y blaen gyda 10,786p 6' 3c. Agorwyd y coleg ym 1858, a thros dro bu yn festri Capel Tŵr-gwyn, Bangor, yna symudwyd i ddau dŷ. Ym mis Awst 1862 'roedd yr adeilad newydd yn barod gyda lle i 40ain o fyfyrwyr a phenodwyd John Phillips yn brifathro. <197>

Trwy ddygnwch a gweithgarwch difflino dynion fel Hugh Owen a J. Phillips llwyddwyd i sefydlu nifer mawr o ysgolion Brutanaidd yng Nghymru; erbyn 1849 'roedd 86 ohonynt, erbyn 1850 'roedd 92, erbyn 1854 'roedd 105, erbyn 1857 'roedd 120. Ym 1870 'roedd 302 o ysgolion Brutanaidd yng Nghymru, 97 yn y Gogledd a 207 yn y De. <198>

Daeth y dadlau mawr ar addysg i ben yng Nghymru gyda Deddf Addysg Forster. Ar 17 Chwefror 1870, cyflwynodd W.E. Forster, gweinidog addysg Gladstone ei fesur ar addysg i'r Tŷ Cyffredin. 'Roedd y mesur hwn yn rhannu'r wlad i ardaloedd ysgolion (school districts) a rhoddwyd hawl i'r Adran Addysg asesu anghenion addysgol pob ardal. Er mwyn cyflenwi'r anghenion rhoddwyd cyfle i'r Ymneilltuwyr gyflwyno cynlluniau a cheisiadau am gymorthdal. Os nad oeddent wedi gwneud hynny erbyn diwedd 1870, 'roedd

bwrdd ysgol i gael ei sefydlu, - mewn ardaloedd a oedd heb ysgol, - yn cael eu hethol gan y trethdalwyr lleol.

Gadawyd addysg grefyddol dan ofal y bwrdd lleol, ond 'roedd cymal yn y mesur i sicrhau nad oedd addysg unrhyw blentyn yn ddibynnol ar fynychu cyfarfod crefyddol o fewn neu^y tu allan i'r ysgol. Gwrthwynebai rhai Ymneilltuwyr y mesur, oherwydd ei fod yn fanteisiol i'r bobl hyny a gredai mewn addysg enwadol. Trwy'r mesur hwn 'roedd yn bosib i Ysgol fod yn gwbl enwadol pe bai'r bwrdd lleol yn mynnu hyn. Ar 8 Awst 1870 gwnawd prif gynigion y mesur yn ddeddf.

Unwaith eto wrth edrych ar hanes addysg yng Nghymru fe welwn arwyddion clir o'r datblygiad tuag at enwadaeth. Cynrychiolai'r gwirfoddolwyr pur yr elfen sectyddol gyda'i gwrthwynebiad i gydymffurfio â'r llywodraeth a chyda'r Eglwys Sefydledig a'i hamharodrwydd llwyr i wahanu addysg oddi wrth grefydd. Elfen lywodraethol bywyd oedd Cristnogaeth ac ni ellid ei gwahanu oddi wrth unrhyw ran o fywyd. Gan hynny dyletswydd yr eglwysi yn eu tyb hwy oedd darparu addysg i blant. Ar y llaw arall cynrychiolai'r gwirfoddolwyr^a oedd o blaid cymorthdal elfen lawer mwy enwadol ei hymarweddiad. Yr oeddent yn barotach i gydymffurfio â'r llywodraeth, a thrwy fod o blaid addysg seciwlar, yr oeddent hefyd yn rhannu bywyd yn grefyddol a seciwlar. Trwy ymddwyn fel hyn yr oeddent yn chwalu'r syniad sectyddol am gyfanrwydd bywyd y Cristion h.y. fod Cristnogaeth yn flaenllaw ym mhopeth a wnai'r Cristion, ac yn ail i ddim. Ar ben hyn 'roedd y Cyrff Ymneilltuol yn mynd yn fwy a mwy cymdeithasol ac eangfrydig ac yn llawer mwy parod i gydweithredu â mudiadau a chyrrff eraill. 'Roedd y gwahanfur rhyngddynt a'r byd yn prysur ddiflannu ac fe ai

yn anos fel yr â'r ganrif yn ei blaen i wahaniaeth rhwng Ymneilltuwr ac aelodau eraill o'r gymdeithas.

Pennod 20. Perthynas Gyda'r Pabyddion.

Un o nodweddion amlwg y sect, fel y gwelwyd yn y rhagymadrodd i'r traethawd hwn yw ei gwrthwynebiad i eglwysi sefydledig. Gan fod y mwyafrif helaethaf - os nad y cwbl - o sectau Cristnogol wedi datblygu o rwyg uniongyrchol neu anuniongyrchol gydag eglwys sefydledig, nid oes gan y sect unrhyw gydymdeimlad gyda'r eglwysi hynny. Yn wir, ymagweddant tuag atynt fel cyrff cyfeilliornus sydd wedi colli pob rhithyn o wirionedd gan fynd ar ddisberod yn llwyr. Ran fynychaf oherwydd hyn mae'r sectau'n fwy na pharod i leisio eu gwrthwynebiad chwyrn i'r eglwysi sefydledig gan ystyried aelodau ohonynt yn anghredinwyr colledig.

Seiliant eu gwrthwynebiad ar amrywiol bwyntiau e.e. diwinyddiaeth; fod yr eglwys sefydledig wedi cyfeillorni oddi wrth ei gwirioneddau dechreuol gan fabwysladau syniadaeth ddynol a di-fudd. Ymosodant yn chwyrn ar draddodiadau, defodaeth, sefydliadaeth, offeiriadaeth ac anhyblygrwydd litwrgaidd. Condemniant hi o gydymffurfio yn ormodol â'r byd gan gynnal y status quo; yn aml condemniant unrhyw gysylltiad rhwng yr eglwys sefydledig a'r wladwriaeth, '199' a chyhuddant hi o ddiystyru disgyblaeth i'r fath raddau fel na allant wahaniaethu rhwng credinwyr ac anghredinwyr. '200'

Yn ôl Milton Yinger, mae ymddangosiad sect yn arwydd o aneffeithiolrwydd eglwys sefydledig i foddhau ei haelodau. '201' O'i hanfod arwydd o brotest yw sect yn erbyn yr eglwys sefydledig, pe bai'r eglwys sefydledig yn gallu boddhau pawb ni fyddai rheidrwydd i sect ddatblygu. Dywed R. Mehl am y sect,

"it always represents a kind of protest against the instituted and established church, against that institutionalism and

establishment which appears to it as the very symbol of treason and of compromise with the world."⁽²⁰²⁾

O ganlyniad mae'r sect yn ystyried y fam eglwys yn aml fel methiant affwysol. Pen draw hyn yw i'r sect fynd i ystyried yr eglwys sefydledig fel yr Anghrist. Dywed B. Wilson wrth drafod Sect yr Adfentyddion, "The Established Church is regarded as fulfilling the role of the anti-Christ."⁽²⁰³⁾ Oherwydd hyn fe fabwysiedir gan sectau Cristnogol eirfa a darluniau o Lyfr y Datguddiad gan alw'r eglwys sefydledig yn "Butain fawr"⁽²⁰⁴⁾ ac yn "Babilon fawr."⁽²⁰⁵⁾

Nid oes dim amlycach na'r ffaith na all sect gydnabod fod unrhyw wirionedd yn perthyn i'r corff y maent yn ymneilltuo oddi wrtho. Byddai unrhyw gyfaddawd, cydsyniad neu gydweithredu'n dileu pwrpas bodolaeth y sect. Mewn ystyr mae'n rhaid i'r sect barhau yn ei phrotect a'i gwrthwynebiad i'r eglwys sefydledig er mwyn cyfiawnhau ei bodolaeth ei hun.⁽²⁰⁶⁾ Dyma paham fod Henri Desroche yn dweud mai un o nodweddion amlycaf y sect yw ei bod yn "anti-church."⁽²⁰⁷⁾

Ond beth oedd agwedd y Cyrff Ymneilltuol tuag at yr eglwys sefydledig? A oedd unrhyw nodweddion sectyddol yn eu hagweddau tuag atynt? Yn y fan hon mae'n rhaid i ni rannu ein sylwadau yn ddwy ran gan fod yng Nghymru ddwy eglwys sefydledig (yn yr ystyr gymdeithasegol) sef yr Eglwys Babyddol a'r Eglwys Anglicanaidd. Gwendid dadansoddiad y cymdeithasegwyr yw eu bod yn ddi-ffael yn ystyried y sect ochr yn ochr ag un eglwys sefydledig. Hawdd yw creu sefyllfaoedd dychmygol delfrydol i gyfiawnhau damcaniaethau, anos yw eu cymhwyso at sefyllfaoedd go iawn. Yng Nghymru fel mewn llawer o wledydd eraill 'roedd y sefyllfa'n fwy cymhleth na hynny gan fod dwy eglwys sefydledig yn dod o fewn cwmpas profiad a bywyd y Cyrff

Ymneilltuol. 'Roedd yr Eglwys Babyddol ar ryw orwel pell heb fod yn unrhyw fath o fygythiad ymarferol ac eto'n destun llawer o rybuddion a gocheliadau.⁽²⁰⁸⁾ Ar y llaw arall 'roedd yr Eglwys Anglicanaidd ar drothwy'r drws ac nid yw mor hawdd dadansoddi perthynas yr Ymneilltuwyr â hi. Mae'n ddiddorol sylwi ar yr agweddau meddwl gwahanol oedd tuag at yr eglwysi sefydledig hyn, oherwydd nid oedd y Cyrff Ymneilltuol yn ymddwyn tuag at y ddwy yn yr un modd.

Y Pabyddion.

Yn gyntaf fe ystyriwn agwedd y Cyrff Ymneilltuol tuag at yr Eglwys Babyddol. Gallwn ddweud yn sicr fod y pedwar Corff Ymneilltuol yn unfryd unfarn ynglŷn â'r Eglwys Rufeinig. Nid oes rhaid ond cael cipolwg ar rai o esboniadau Beiblaidd y cyfnod. Wrth esbonio'r geiriau "y butain fawr sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer," o Lyfr y Datguddiad (17:1,3), fe ddywed Thomas Charles o'r Bala mai hon oedd "Rhufain Babaidd." Ac fe ychwanega, "y mae gwedi puteinio oddiwrth wir grefydd at goel-grefydd ac eilunaddoliaeth; ac wedi hudo llawer eraill gyda hi, sef brenhinoedd y ddaear a'u deiliaid. Llygrodd y ddaear â'i phuteindra, ac y mae ei barn yn agos, ac yn ofnadwy."⁽²⁰⁹⁾ Wrth ddiffinio'r gair Anghrist a'r geiriau o Ddatguddiad 17: 3,4,9,12,18, dywed Thomas Charles drachefn heb flewyn ar ei dafod, "Rhufain, gan hyny, mae yn amlwg, yw eisteddle a gorsedd-fainc Anghrist. Mae y nodau hyn yn briod-lun o Eglwys Rhufain; ac yn anmhosibl byth eu cymhwyso, yn briodol, i neb arall. Y mae yn eglwys wrthgilliedig; gwedi ymadael â'r gwirionedd; wedi llywodraethu ar frenhinoedd yn ormesol, ac 'wedi meddwi gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu:' yn eilunaddolgar i'r graddau eithaf; yn addoli llun y groes, a'r elfen fara yn y sacrament; yn gweddio ar Mair, ac ar seintiau dirifedi."⁽²¹⁰⁾ Hon oedd y farn gyffredin am y Pabyddion, ac yr oedd esbonwyr Ymneilltuol eraill fel

George Lewis⁽²¹¹⁾, James Hughes⁽²¹²⁾, W. Jones⁽²¹³⁾, Pen-y-bont, Morgannwg, o'r un safbwynt yn union â Thomas Charles.

Ceir syniad clir o agwedd yr Ymneilltuwyr tuag at y Pabyddion ar ddechrau'r ganrif yn Hanes y Merthyron, gan Thomas Jones⁽²¹⁴⁾, Dinbych. Wrth ddarllen y gyfrol hon gwelir mai rhan o fwriad yr awdur oedd "goleuo" gwerin Cymru ynglŷn â thywyllwch Pabyddiaeth yn ogystal â dysgu iddynt hanes Protestaniaeth. Yn y rhagymadrodd i'r gwaith unieithir Pabyddiaeth â phaganiaeth. Mae'n ddiddorol sylwi ar yr ieithwedd sectyddol a'r defnydd o eirfa a darluniau o Lyfr y Datguddiad pan yn cyfeirio at y Pabyddion.

"Erbyn bod diweddiad ar hyny, yr ydym yn cael Angrist, dan radd o newidiad gwedd, yn uchel ei ben yn Rhufain; lle yr oedd gorseddfa Paganiaeth wedi bod am oesoedd o'r blaen. Yr oedd gan y bwystfil hwn "ddau gorn tebyg i oen, a llefaru yr oedd fel draig;" *Dad. xiii. 11.* Bu ei ragrith, ei rym, a'i gynddaredd, ar gynnydd am amryw oesoedd; ac fe barodd farwolaeth i lawer o gannoedd o filoedd, os nid i rai miloedd o filoedd, o saint y Goruchaf. Yn mhen amser wedi cychwyniad neu godiad Anghrist, a thra yr oedd ar gyrhaedd ei rym anferthaf, cododd y gau brophwyd Mohamet ei ben; a'i ddilynwyr ffyrnig, gyda eu byddinoedd a'u meirch lliosog, ac aethant yn mlaen "fel y lladdent y traian o'r dynion;" *Dad. xviii. 2. 7c.*, a dwyn barnau echrydus ar gyrph ac eneidiau niferi mawrion o ddynolryw.

Y mae y bwystfilod hyn wedi "rhyfela yn erbyn yr Oen" â grym mawr a llidiogrwydd creulawn. Ond yn bresennol y mae eu rhwysg a'u gallu ar ball; ac megys y mae lle i hyderu na welir byth no'r Mohametaniaid yn peri dychryn, gwae, a dinystr ar led gwledydd lawer, fel y gwnaethant gynt, felly y mae lle i obeithio a hyderu hefyd na welir byth mo Eglwys Rhufain, neu "Butain Fawr," yn ei grym a'i hyfder digywilydd, a'i rhwysg erchyll, yn llithio ac yn twyllo, yn arteithio, yn lladd, ac yn gorthrymu, fel y bu hi gynt, ac megys y mae yma gryn ddangosiad am dani. Y mae y pab, a'i attegwyr penaf (y Jesuitiaid yn enwedigol) wedi colli llawer o'u grym yn y trigain mlynedd diweddaf..... Bendithiwn yr Arglwydd am hyn; a gweddiwn, "Syrthied, syrthied Babilon!" nes y delo'r amser y llefir, "Syrthiodd, syrthiodd!" Ie, megys maen melin mawr i waelod y môr: *Dad. xviii. 2.*"⁽²¹⁵⁾

Yn nhyb Thomas Jones yr Eglwys Babyddol yn bendifaddau oedd y "Fabilon Fawr," yr Anghrist y proffwydodd Ioan yn Llyfr y Datguddiad

amdano. Y mae Hanes y Merthyron, yn llawn o hanesion am greulondeb, anghyfiawnder a thrais yr Eglwys Babyddol trwy'r oesau. Pobl ddrwg oeddent yn eu crynswth yn llawn cynllwynion aflan i oresgyn y byd ac heb un iot o Gristnogaeth yn perthyn iddynt. Nid eglwys ar gyfeiliorn ydoedd yn eu golwg hwy, 'roedd yn llawer gwaeth na hynny, yn was y gŵr drwg ei hun. 'Roeddent yn siarad am Babyddion a phaganiaid ar yr un gwynt heb wahaniaethu rhyngddynt. ⁽²¹⁶⁾ Pabyddiaeth oedd y drwg mwyaf a fodolai ac ni ellid defnyddio iaith rhy gryf wrth ei chondemnio. Onid hi oedd yn euog o erlid arwyr Protestaniaeth a gwroniaid y gwironedd trwy'r canrifoedd? Ac yng ngolwg yr Ymneilltuwyr 'roedd y gwaed yn rhuddo ei dwylo. ⁽²¹⁷⁾

Ym 1828 fe ryddfreniwyd yr Ymneilltuwyr Protestannaidd ac yn sgil hynny fe ryddfreniwyd y Pabyddion y flwyddyn ganlynol. 'Roedd rhai Ymneilltuwyr yn erbyn rhyddfrenio'r Pabyddion yn enwedig ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd. Gwrthwynebai John Elias hyn yn chwyrn ⁽²¹⁸⁾ a bu cythrwfl, nid anenwog, yn eglwys Jewin Crescent, Llundain, ⁽²¹⁹⁾ lle diarddelwyd pedwar o'r aelodau am anfon deiseb at y Llywodraeth o blaid rhyddfreniad. ⁽²²⁰⁾ Cyflwynwyd y ddeiseb yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y 9ed o Fehefin, 1828. ⁽²²¹⁾ Cyhuddodd James Hughes y pedwar deisebwr o fod yn "ddynion annuwiol, dynion wedi caledu i'r eithaf, dynion ym meddiant Satan, a wnaent yr hyn a allent hwy i agor llifddorau i'r gelyn dinystriol (sef y pabyddion) ddyfod i mewn." ⁽²²²⁾ Yr hyn a ymddengys yn rhyfeddol yw fod rhai Ymneilltuwyr wedi sefyll o blaid rhyddid crefyddol i'r Pabyddion er eu hatgasedd tuag atynt. Gwedd ar eu hargyhoeddiad na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd ym mywyd mewnol y sect oedd mynnu rhyddid i bob sect ac eglwys. Mae'n ffaith hynod y gallai'r Cyrff gyfuno mesur helaeth o anoddefgarwch athrawiaethol gydag ymlyniad wrth oddefgarwch suful. Yn Y Dysgedydd (1829), ymddangosodd pigion cyfieithiedig o lythyr Richard Winter Hamilton o Leeds.

Er fod y llythyr hwn yn mynegi condemniad llwyr o'r Eglwys Babyddol gan ei galw'n "anghenfil Erledigaethus"⁽²²³⁾ ac yn "fwystfil",⁽²²⁴⁾ eto saif dros ryddid crefyddol llwyr i'r Pabyddion fel eu bod ar yr un gwastad cyfreithiol a'r Ymneilltuwyr. Barn Richard Winter Hamilton oedd na ellid dileu cyfeilliornadau'r Pabyddion trwy "dân erledigaeth"⁽²²⁵⁾, ond y byddai, "golau y Bibl a grym Rheswm a chariad brawdol....." yn " eu denu oddiwrth allor coelgrefydd."⁽²²⁶⁾ Ymhellach datganai na ddylai unrhyw ddyn gael ei gosbi gan gyfraith gwlad oherwydd ei greddo a'i ddiwinyddiaeth.⁽²²⁷⁾ 'Roeddent yn gwbl hyderus y byddai gwirioneddau Protestaniaeth yn sicr o goncro daliadau'r Pabyddion.⁽²²⁸⁾

Yn y tridegau fe ymddangosodd Mudiad Rhydychen, fel carfan ddiwygiadol o fewn yr Eglwys Anglicanaidd, o dan arweiniad John Henry Newman⁽²²⁹⁾, John Keble⁽²³⁰⁾, Edward Pusey⁽²³¹⁾ a Richard Froude⁽²³²⁾, a barodd ddychryn yn rhengoedd yr Ymneilltuwyr.⁽²³³⁾ Bu'r pedwar gŵr uchod yn fyfyrwyr yng Ngholeg Oriel, Rhydychen, ac yn ystod y tridegau buont wrthi'n ddygn yn ysgrifennu, pregethu ac argraffu tractiau'n cyhoeddi eu huchel eglwysyddiaeth. Credent mai olyniaeth apostolaidd oedd sylfaen awdurdod yr Eglwys Anglicanaidd ac y gellid olrhain yr olyniaeth honno'n ôl trwy'r Eglwys Babyddol i'r Eglwys fore. Ond daliai'r Protestaniaid efengylaidd, a'r Ymneilltuwyr yn eu plith, mai cynllwyn oedd hwn gan Eglwys Rufain i geisio ennill yr Eglwys Anglicanaidd yn ôl i'r gorlan babyddol.⁽²³⁴⁾ Y diwedd fu i Newman droi at yr Eglwys Babyddol gan adael i aelodau'r Eglwys Anglicanaidd gecru ymhlith ei gilydd ynglŷn ag uchel eglwysyddiaeth, defodaeth ac olyniaeth. 'Roedd hyn yn fêl ar fysedd y garfan efengylaidd a ddatganai fod gwrthgiliad Newman yn profi eu amheuan. Dywedodd Hiraethog yn ddirmygus am Newman,

"Nid oedd un lle y tu yma i Rufain a wnelai y tro yn orphwysfa iddo. Yr hen Fabilon Fawr honno o eglwys ddirywiedig, syrthiedig, a aethai "yn drigfa cythreuliaid, ac yn nyth pob aderyn aflan ac adgas," o hygoelion ac ofergoelion, oedd yr unig le a ddygymmodai â'i ysbryd ac â'i elfen ef. Ei genau hi yn unig oedd yn gallu traethu digon o fawrhydi a chabledd, am anffaeledigrwydd ei hawdurdod, hynafiaeth ei ffyrdd, apostoliaeth ei offeiriaid, ac amledd ei gwyrthiau; i foddioni a digoni gwanc ei fympwyon hygoelus." <235>

Erbyn y pedwardegau a'r pumdegau, oherwydd eu rhyddid newydd, yr oedd y Pabyddion wedi cynyddu eu gweithgarwch ym Mhrydain gan gynnwys Cymru, ac enynnodd hyn ymateb ymhlith yr Ymneilltuwyr. Yn Y Dysgedydd (1852), ysgrifennodd Scorpion<236> (Thomas Roberts) erthygl er mwyn dangos, "Anysgrythyroldeb y Grefydd Babaid." <236>

"Pabyddiaeth sydd drefniant o dwyll. Ei athrawiaethau a'i seremonïau ydynt dwyll. Ei maddeuant, a'i phurdan, a'i sacramentau ydynt oll yn seiliedig ar dwyll. Twyll yw ei sancteiddrwydd, twyll yw ei hanffaeledigaeth, a thwyll yw ei hunoliaeth. Mae ei defodau yn dwyll, ei chyffes yn dwyll, ei phurdeb yn dwyll, ei hymprydïau, gwylïau creiriaï, delwau, a'i holl honiadau yn dwyll. Mewn gair, mae y system fwyaf goruchel a gorchestol o dwyll a fu yn y byd erioed. Mae yn orlawn o ysgelerder, ac annuwiaeth, a gormes, a rhagrith, a chelwydd, a gwaed, a ffield-dra....

Mae wedi ei llenwi â phob anghyfiawnder, godineb, anwiredd, cybydd-dod, drygioni; yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll a drwg-anwydau. Mae ar Dduw yn gabledd ac ar ddynion yn bla. Mae ei cheg yn fedd, ei thafod yn felldith, a'i holl ffyrdd yn aflwydd; ei dichellion sydd yn ddi-derfyn, a'i chyfrwysdra yn anysbyddedig. Melusa ei gwenwyn, cuddia ei cholyn, a gwisga ei chreulondeb â gwên. Duw a waredo Gymru rhag y fath bla marwol." <237>

Ym 1856 cyhoeddodd Robert Jones, Llanllyfni, draethawd ar Babyddiaeth gyda'r bwriad o ddangos ei chyfeilliornadau a dangos gwirioneddau cyferbyniol yr efengyl. <238> Credai fod Cymru o dan ymosodiad, gan fod Athrofa Babaid wedi ei hagor yn Nyffryn Clwyd, eu heglwysi'n amlhau, a "fod gweinidogion Eglwys Loegr yng Ngogledd Cymru'n

fwy Pabaidd." (239) Hwn oedd yr unig waith cynhwysfawr ar y Pabyddion yn y cyfnod hwnnw. (240) Yn ei "Annerchiad i'r darllenydd," dywed R. Jones,

"Gallasai y Traethawd fod yn fyrach o lawer, pe buaswn yn ymfoddloni ar wrthbrofi egwyddorion Pabaidd yn unig. Buasai llyfr felly yn rhywbeth sychlyd a diflas. Heblaw bod yn fwy adeiladol i'r darllenydd, nid oes dim, fe ddichon, yn fwy effeithiol i ddangos *counterfeit* Rhufain yn beth salw a diwerth na dangos *aur bathol* yr efengyl ar y bwrdd yn gyferbyniol âg ef." (241)

Parhau yr oedd yr agwedd wrth-Babyddol yn y chwedegau. 'Roedd gan John Evans, Eglwys-bach, ddarlith boblogaidd yn dwyn y teitl "Hanes mab y Golledigaeth," a draddodwyd am y tro cyntaf yn y Ffôr, Pwllheli, ym 1864. Ymosodiad oedd y ddarlith hon ar Babyddiaeth ac fe'i cyhuddai o gymryd enw Duw yn ofer mewn llwon, o gefnogi halogiad y Sabboth, o faddau am ladrad a llofruddiaeth, (242) ac o osod Mair yn lle yr Arglwydd. (243)

Ym 1866 ail-argraffwyd Hanes y Merthyron gan Thomas Jones, Dinbych, yn rhannol oherwydd gweithgarwch y Pabyddion. Yn y rhagymadrodd i'r ailargraffiad fe leisir ofn yr Ymneilltuwyr o'u gweithgarwch,

"Y mae yn eglur fod Eglwys Rhufain - "mam puteiniaid a ffielddra y ddaear" - yn prysur ymbaratoi i roddi dyrnod marwol, os gall, i Brotestaniaeth ein gwlad. Y mae yn tywallt ei dyfroedd gwenwynig i ffynnonellau addysg; yn ymagnïo â'i holl nerth i lygru a gwanhau dylanwad y wasg; ac yn gosod pob gwyn ar ei lawn egni i droi hyd yn oed lyw ein llywodraeth o blaid ei hamcanion. Y mae nid yn unig yn hau efrau yn mhlith y gwenith, ond yn ceisio cloddio dan sylfeini ein crefydd. Y mae yn penderfynu gwneuthur gwell gwaith nag a wnaeth yn nyddiau Iago I. Os methodd hi gyrhaedd ei hamcan gyda "brad y powdr gwn," y mae yn llwyr gredu y gall y tro hwn chwythu, nid ein seneddwyr, fel y ceisiodd y pryd hwnnw, ond Protestaniaeth ei hunan i ddinystr anadferadwy." (244)

'Roedd agwedd y Cyrff Ymneilltuol tuag at y Pabyddion yn nodweddiadol sectyddol. Hi oedd y Butain a'r Fabilon fawr, y Bwystfil a'r

ymgorfforiad o Anghrist Llyfr y Datguddiad. 'Roedd y safbwynt hwn yn gyson a digyfnewid trwy gydol y cyfnod sydd dan sylw, er fe ymddengys fod peth o'r dwyster wedi lleihau erbyn diwedd y ganrif. Yn y cyswllt hwn nid oedd unrhyw newid yn eu hymarweddiad sectyddol tuag at Eglwys Rufain, ac ni fu unrhyw Gymraeg rhyngddynt. Dim ond yn raddol y mae'r sect yn diosg ei hagweddau pendant sectyddol lle mae popeth yn ddu a gwyn gan wisgo agweddau llwyd mwy anelwig yr enwad. Ac am ryw reswm y mae yn llwyddo i ddal gafael ar rai nodweddion sectyddol yn hwy nag eraill, fel yr agwedd wrth-Babyddol ymhlith Cyrff Ymneilltuol Cymru.

Pennod 21. Perthynas ag Eglwys Loegr.

Os mai'r Eglwys Babyddol oedd yr Anghrist yng ngolwg yr Ymneilltuwyr, beth felly oedd Eglwys Loegr? Y gwir yw fod y berthynas rhwng yr Ymneilltuwyr ag Eglwys Loegr yn llawer mwy cymleth na'r berthynas rhyngddynt a'r Pabyddion. (Er mwyn erglurder, yn y fan hon byddwn yn defnyddio'r term Eglwys Loegr pan yn cyfeirio at yr Eglwys Wladol, gan gyfyngu'r defnydd o "eglwys sefydledig" i'w ystyr cymdeithasegol.) Nid oedd yr Ymneilltuwyr yn condemnio Eglwys Loegr i'r un graddau ag y condemnient y Pabyddion. Fel y gwelwyd condemnid yr Eglwys Babyddol yn ei chrynswth yn llwyr ac yn gyfan gwbl, ond nid felly gydag Eglwys Loegr. 'Roedd ymosodiadau'r Ymneilltuwyr ar yr eglwys hon yn llawer mwy penodol ac ar bwyntiau neilltuol yn ei gweithgareddau a'i hymddygiad. Yn ôl pob tystiolaeth ystyrid Eglwys Loegr fel corff afradlon oedd wedi crwydro ymhell oddi wrth ei gwirioneddau dechreuol, ond heb fod yn gwbl anadferadwy. Mae'n debygol fod y ffaith ei bod yn Brotestannaidd yn ei hanfod, yn arddel yr un gwreiddiau â'r Ymneilltuwyr, yn gwneud gwahaniaeth mawr. Oherwydd hyn gallai'r Anghydfurfwyr fod yn llawer mwy grasol tuag ati na thuag at yr Eglwys Babyddol. Cyfleid yn aml yr ymdeimlad fod Eglwys Loegr yn wrthglawdd rhyngddynt a'r Pabyddion. Rhaid cofio mai bwriad yr Ymneilltuwyr ar y cychwyn oedd diwygio Eglwys Loegr nid ei dileu, gwelir hyn yn gwbl glir yn hanes y diwygiad Efengylaidd. Dim ond ar ôl methu â diwygio'r eglwys y bu iddynt ymneilltuo'n llwyr oddi wrthi. Gallai'r ffaith hon fod wedi lliwio agwedd yr Ymneilltuwyr tuag ati, gan wneud eu gwrthwynebiad yn fwy cymedrol. Anaml iawn y defnyddid geirfa llyfr y Datguddiad wrth gyfeirio ati, er fod rhai awduron yn gwneud hynny. <245> Yr hyn a ddaw i'r amlwg yw fod y rheswm sy'n peri i sect ymwahanu oddi wrth eglwys sefydledig - boed trwy ddiwygiad, rhwygiad, neu ddiarddeliad - yn dylanwadu'n fawr ar agwedd ac ymddygiad y sect tuag at yr eglwys honno.

Bu perthynas anghyfforddus rhwng Eglwys Loegr a'r Ymneilltuwyr am gyfnod maith. Weithiau 'roeddent yn ddigon cyfeillgar, dro arall 'roeddent ben ben â'i gilydd. Oherwydd deddfau gwlad a thraddodiad bu cysylltiad arwynebol rhyngddynt hyd ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; bedyddid, ⁽²⁴⁶⁾ priodid a chleddid llawer o Ymneilltuwyr yn ôl trefn Eglwys Loegr. ⁽²⁴⁷⁾

Yn achos y Methodistiaid Calfinaidd bu cysylltiad clôs rhyngddynt ag Eglwys Loegr hyd ordeiniad 1811 a thu hwnt i'r flwyddyn honno. ⁽²⁴⁸⁾ Cyn 1811 'roedd canran uchel o Fethodistiaid Calfinaidd yn cymuno yn Eglwys Loegr, ⁽²⁴⁹⁾ er fod rhai arweinwyr Methodistiaidd yn gweinyddu'r cymun eu hunain, ⁽²⁵⁰⁾ ac 'roedd pob un ohonynt yn cael eu bedyddio yn eglwysi'r plwyf. ⁽²⁵¹⁾ 'Roedd ordeiniad 1811 ynddo'i hun yn arwydd fod Eglwys Loegr wedi methu yng ngolwg y Methodistiaid Calfinaidd, ond hyd y flwyddyn honno edrychent arnynt eu hunain fel o fewn cylch Eglwys Loegr, ⁽²⁵²⁾ ac fe barhaodd yr ymdeimlad hwn am flynyddoedd maith. ⁽²⁵³⁾

Wrth i Ymneilltuwyr gryfhau a thyfu teimlid gwrthwynebiad cynyddol i'r ffaith fod Eglwys Loegr yn eglwys freintiedig. ⁽²⁵⁴⁾ Gwrthwynebiad gwleidyddol yn bennaf oedd y gwrthwynebiad yn erbyn Eglwys Loegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. 'Roedd hi'n eglwys a gynrychiolai orthrwm ac anghyfiawnder tuag at y werin bobl, a hwnnw'n orthrwm gwleidyddol yn ogystal â chrefyddol. Dyma'r cyfnod y dechreuoedd Ymneilltuwyr ymwneud o ddifrif â gwleidyddiaeth gan adael yn llwyr y Gristnogaeth geidwadol anwleidyddol. 'Roedd Ymneilltuwyr fel petai yn dod i oed ac wrth sylweddoli grym ei dylanwad yn cynyddu mewn hunan hyder. Daeth pwynt yn ystod y ganrif pryd y bu iddynt ddiosg meddylfryd gostyngedig crefydd leiafrifol orthrymedig gan wisgo meddylfryd ffyddiog a

mwy eangfrydig crefydd oedd yn y mwyafrif. O ganlyniad aethpwyd ati i geisio cydraddoldeb crefyddol drwy ymosod ar y deddfau hynny a ochrai gydag Eglwys Loegr ar draul y Cyrff crefyddol eraill. Wrth i'r deddfau gael eu dileu 'roedd y ddwy garfan yn ymddieithrio fwyfwy a'r agendor rhwng Eglwys Loegr a'r Ymneilltuwyr yn dod yn gwbl amlwg a diamwys. Symudodd y Methodistiaid Calfinaidd yn raddol oddi wrth Eglwys Loegr gan sefyll am y tro cyntaf yn llwyr o dan faner Ymneilltuaeth gyda'r Cyrff eraill.

Ar ôl deddf rhyddfrenio 1828 daeth llawer mwy o ehofndra i ymdrechion yr Ymneilltuwyr wrth geisio cydraddoldeb crefyddol. Yn ystod y ganrif, wrth i'r deddfau a ffafriai Eglwys Loegr gael eu diddymu, edwinai awdurdod yr Eglwyswyr a chynyddai dylanwad yr Ymneilltuwyr. Syrthiodd y deddfau a wnaï'r Ymneilltuwyr yn ddinasyddion eilradd yn rhibidires. Ym 1836 daeth mesur seneddol i rym oedd yn caniatáu priodasau a weinyddid mewn capeli Ymneilltuol cofrestedig. ⁽²⁵⁵⁾ Diwygiwyd y deddfau claddu ym 1852 pryd y caniatawyd agor mynwentydd cyhoeddus. ⁽²⁵⁶⁾ Ond ni chaniatawyd i weinidogion Ymneilltuol gymryd rhan mewn angladdau mewn mynwentydd eglwysi hyd 1880 pryd y pasiwyd deddf oedd yn caniatáu hynny. ⁽²⁵⁷⁾ Ym 1855 dilewyd deddf a waharddai i fwy nag ugain o bobl addoli mewn adeilad anghofrestedig. ⁽²⁵⁸⁾ Yn y pumdegau rhoddwyd hawl am y tro cyntaf i Anghydfurffwyr fynychu colegau Rhydychen a Chaer-grawnt. ⁽²⁵⁹⁾ Hyd 1828 ni chái unrhyw Ymneilltuwr fod mewn safle o awdurdod, ni chaent fod yn aelodau seneddol, yn ynadon heddwch nac yn gynghorwyr trefol. Yn ôl y gyfraith dim ond Eglwyswyr oedd â hawl i'r swyddi hyn. Dilewyd hyn ym 1828 a rhoddwyd hawl i Ymneilltuwyr geisio am y swyddi. ⁽²⁶⁰⁾ Ym 1868, ar ôl brwydr hir, dilewyd yr orfodaeth i dalu'r Dreth Eglwys gan ei gwneud yn daliad gwirfoddol. ⁽²⁶¹⁾ Canlyniad hyn i gyd oedd tynnu baich gorthrwm oddi ar ysgwyddau'r Ymneilltuwyr, gan eu gwneud bron iawn yn gydradd ag Eglwys

Loegr. Nid oedd rhai o'r deddfau cosbol hyn yn ddim mwy na chyfreithiau ysgrifenedig, nad oeddent yn cael eu gweithredu. Ond gyda diddymiad pob un ohonynt torrwyd dolennau yng nghadwyn gorthrwm crefyddol gan symud at ryddid crefyddol llwyr. Mae'n sicr fod effaith seicolegol hyn yn bwysig ar yr Ymneilltuwyr, gan ei fod yn hyrwyddo'r ymdeimlad o ryddid newydd yn eu plith ac yn agor meysydd a fu gynt yn gaeëdig. e.e., gwleidyddiaeth. Yn awr nid crefydd eilradd oedd Ymneilltuaeth, ond crefydd a allai sefyll ochr yn ochr â'r grefydd sefydledig. Canlyniad arall hyn oedd peri newid yn ansawdd aelodaeth yr eglwysi Ymneilltuol. Gynt os oedd pobl am lwyddo'n wleidyddol neu yn gymdeithasol 'roedd yn ofynnol iddynt fod yn aelodau o Eglwys Loegr. Ond gyda'r cyfreithiau newydd gweddnewidiwyd hyn. Bellach 'roedd yn bosibl bod yn aelod seneddol neu'n ustus heddwch ac yn aelod o eglwys Ymneilltuol. Golygai hyn ymddangosiad math newydd o Ymneilltuwr. Yn gyffredinol cyn hyn, dim ond statws o bwysigrwydd crefyddol oedd gan yr aelodau, nad oedd unrhyw werth nac awdurdod iddynt yn "y byd" y tu allan i'r Corff. Ond 'nawr fe geid aelodau yn yr eglwysi Ymneilltuol a oedd â statws o bwysigrwydd cymdeithasol y tu allan i'r cylch credinwyr. Yn wir fe ddaeth tro ar fyd.

Puseyaeth.

Un o'r pethau a barodd rwyg pendant rhwng yr Ymneilltuwyr ac Eglwys Loegr ac a surodd y berthynas oedd dyfodiad Puseyaeth. ⁽²⁶²⁾ Parodd hyn i'r Methodistiaid fod yn llawer mwy gochelgar o'r Eglwyswyr gan ochri gyda'r Ymneilltuwyr. Gyda dyfodiad yr ucheleglwysyddiaeth Buseyaidd newydd yn y tridegau, fe ymrodd yr Ymneilltuwyr i ymosod ar bopeth yng ngweithgareddau Eglwys Loegr a oedd yn sawru o Babyddiaeth, ac yn fwyaf arbennig defodaeth ac olyniaeth apostolaidd. Nid ymosod yr oeddent ar Eglwys Loegr yn ei chyfanrwydd, ond ar y tueddiadau Pabyddol a oedd yn

amlygu eu hunain o fewn yr eglwys honno. Ym 1850 bu dadl ym Mangor rhwng yr Eglwyswyr a'r Ymneilltuwyr a sbardunwyd gan erthygl yn Y North Wales Chronicle, 7ed o Fedi 1850, a haerai fod encilio at Ymneilltuaeth yn waeth nag encilio at Babyddiaeth. Ymatebodd John Phillips i haeriadau'r Chronicle, drwy draddodi darlith ar "Babyddiaeth Eglwys Loegr, ac Ymneillduaeth," yng nghapel y Tabernacl, Bangor, yr hon a greodd gryn gynnwrf. ⁽²⁶³⁾ Eu hofn mawr oedd fod symudiad ar droed ymhlith rhai Eglwyswyr i glosio at Eglwys Rufain.

Defodaeth.

Gyda dyfodiad Puseyaeth bu cynnydd hefyd mewn defodaeth. 'Roedd defodaeth a rhwysg o unrhyw fath yn mynd o dan groen yr Ymneilltuwyr, ac yn eu barn hwy yn arwydd sicr o ddylanwad Pabyddiaeth. Dywedai gohebydd dienw yn Y Dysgedydd (1875), yn ddi-flewyn ar dafod, "defodaeth ydyw Pabyddiaeth, a dim arall." ⁽²⁶⁴⁾ Ystyrid defodaeth fel ffolineb llwyr ac mai symlrwydd di-addurn a weddai i ddilynwyr yr Arglwydd Iesu. Fel y dywedodd un gohebydd yn Y Cylchgrawn (1871),

"Ni chlywais i erioed fod Pedr neu Paul wrth ddwyn yn mlaen eu gweinidogaeth efengylaidd, yn gwisgo gowns neu robes gwynion, duon, neu amryliw; yn adeiladu allorau o goed neu feini, yn gosod canwyllau goleuedig ar yr allorau hyn, yn cario croesau ac yn aroglarthu yn y gwasanaeth cyhoeddus, ond y mae llawer o weinidogion perthynol i Eglwys Loegr yn gwneud hyn." ⁽²⁶⁵⁾

Condemnid seremoni a defodaeth yn llwyr fel ffwlbri diangen o wneuthuriad dychymyg dyn ac nid o ordeiniad Duw. Nodai Appledore, T.S. yn Y Dysgedydd (1846), y rheswm canlynol pam na feiddiai gydymffurfio ag Eglwys Loegr,

"O herwydd y defodau plentynaid, megys ymgrymu tua'r dwyrain, gweddio mewn gŵn gwyn, a phregethu mewn du; myned o'r pulpud i'r

lle yn annuwiol a elwir yr allor i ddarllen gwasanaeth y cymun; croesi talcen y baban a phen bys gwlyb yn y bedydd; penlinio i gymeryd swper yr Arglwydd; a newid sefyllwedd yn fynych yn yr addoliad, y rhai a ymddangosant yn deganau plentynaid, yn goegbeth crefyddol, neu yn ffurfioldeb anghrefyddol, ac nid yn addoli yr Hwn sydd Ysbryd...."«266»

Galwai gohebydd yn Y Dysgedydd (1867), ar i "bob gweinidog, pob pregethwr, pob athraw coleg, pob myfyriwr, pob athraw Ysgol Sul, pob penteulu, a phob dyn yn mhob man yn ol ei allu i wrthweithio y ffoledd hwn a'i yru ymaith o'r byd."«267» Dywedai awdur arall yn Y Dysgedydd nad oedd defodaeth yn ddim byd mwy nag 'epayddiaeth,'

"Beth yw y pengrymu a wnei'r tua'r dwyrain, pan enwir y Gwaredwr yn ngwasaneth y Llan? Epayddiaeth noeth. Beth ydyw gwisgoedd amryliw gweinidogion yr Eglwys Wladol? Epayddiaeth - ystranciau disynwyr defodaeth. Beth ydyw yr honiadau a wneir gyda golwg ar droi y bara a'r gwin yn y cymun yn wir gorff a gwaed Crist? Celwyddau dybryd, yn cael eu traethu yn enw y Duwdod, yw y cyfan...."«268»

Gwelwyd y duedd newydd at ddefodaeth fel cam amlwg tuag at Eglwys Rufain. Dyma oedd ofn mawr yr Ymneilltuwyr a chredent mai cynllwyn y "defodwyr penboeth," oedd "gwneyd eu gorau i dychwelyd y wlad hon i grafangau y Babaeth."«269»

Olyniaeth.

Mynegwyd yn union yr un safbwynt tuag at bwyslais newydd yr ucheleglwyswyr ar olyniaeth apostolaidd. Dywedai Lewis Edwards yn Y Traethodydd (1852), "Y mae Esgobyddiaeth ynddo ei hun, o fewn terfynau cymedrol, yn ddigon diniwed: ond pan gysylltir ef âg athrawiaeth yr olyniaid, y mae yn tori ei hun allan o gymundeb yr Eglwys Gristnogol."«270» Yn eu tyb hwy, "ni fu erioed ddim ar y ddaear yn fwy twyllodrus....yn fwy gwyneb galed a haerllyg nac athrawiaeth yr olyniaid."«271» Llwybr llithrig

ydoedd yn arwain tuag at gadarnhau awdurdod yr Eglwys Babyddol. Wrth restru egwyddorion y Puseyaidd yn Y Dysgedydd (1844), fe gynhwysir y canlynol fel un o'u hegwyddorion.

"Yr Eglwys Gatholig. - Rhaid fod un wir eglwys a dim ond un. Gan mai yr Eglwys Gatholig ydyw hono, rhaid nad yw pawb allan o'i therfynau yn ddim amgen na ffug-honwyr....y mae egwyddorion ein heglwys yn perffaith gyduno ag egwyddorion Eglwys Rhufain, fel nad oes un rhwystr i'w huno yn gwbl oll." <272>

Datgysylltiad.

Ond prif asgwrn y gynnen rhwng yr Ymneilltuwyr ac Eglwys Loegr oedd ei chysylltiad gyda'r wladwriaeth. Rhan o'r frwydr hon wrth gwrs oedd yr ymosodiadau parhaus ar y deddfau a gaethiwai'r Ymneilltuwyr. Yn ôl yr Ymneilltuwyr 'roedd "hawl gan bob dyn i addoli Duw yn ôl yr argyhoeddiadau a deimla yn ei gydwybod ei hun wrth chwilio yr ysgrythyrau," <273> a chan hynny ni ddylai unrhyw eglwys fod yn gysylltiedig â'r llywodraeth.

"Eglwys Crist sydd sefydliad perffaith ysbrydol. Efe a ddywedodd yn bendant, "Fy nheyrnas i nid yw o'r byd hwn." Nid dynion y byd hwn ydyw ei gwrthrychau, ac o ganlyniad nid oes ganddynt un hawl i ymyraeth â'i llywodraeth. Crist ydyw ei phen.....Mae pob ymyraeth â'r rhyddid hwn pa un bynag ai gan berson unigol, ai corphoraeth, ai llywodraeth wladol yn gam mawr â'r Cristnogion, ac yn bechod yn erbyn Crist....." <274>

Braint pob eglwys Gristnogol oedd bod yn rhydd o hualau llywodraeth fydol, Crist yw pen yr Eglwys a neb arall.

"Yr ydym yn ystyried yr Eglwys Wladol yn anghydfurfiol â'r Ysgrythyr yn ei hymddarostyngiad i awdurdod y Llywodraeth Wladol. Unig Ben a Brenin eglwys y Testament Newydd yw yr Arglwydd Iesu....Yno brodyr ydynt oll i'w gilydd, a deiliaid iddo yntau.Nid fel hyn y mae yn yr Eglwys Wladol. Nage, canys y Senedd â'r Pen coronog sydd wedi sefydlu ei chyfansoddiad hi; ac nid oes gan yr Eglwys hawl i newid dim ar ei phethau ei hunan, heb awdurdod y Senedd, ond mae gan y Senedd awdurdod i newid pob peth a berthyn i Eglwys Loegr, heb ofyn ei chydsyniad, canys y

seneddwyr ydynt y cynrychiolwyr, a'r Frenhines ei hunan yn ben arni." (276)

Aethpwyd ati i alw am ddatgysylltu'r Eglwys oddi wrth y wladwriaeth. (276) Sefydldwyd Cymdeithas Rhyddhad Crefydd a ddatganai, "Fod sefydliadau gwladol trwy y rhai y byddo unrhyw eglwys neu blaidd yn cael ei dewis i'w haddoli, a'i gweinidogion yn cael eu cynnysgaeddu â breintiau allanol a dyrchafiad gwladol, yn cynnwys troseddiad ar reolau cyfiawnder at enwadau eraill." (277) Ymosodwyd hefyd ar y degwm gan ddweud ei fod yn gwbl anghyfiawn gorfodi Ymneilltuwyr i gynnal Eglwys Loegr. (278) Dywedai Lewis Edwards wrth ymdrin â'r degwm,

"Pe bai llywodraeth wladol yn pasio deddf fod pob un o aelodau yr Eglwys Sefydledig i dalu y ddegfed ran o ffrwyth ei dir i gynnal y grefydd a broffesir ganddo, a bod pob un na chydymffurfiai fel aelod o'r eglwys hono yn rhwym o dalu yr un faint fel dirwy i'r llywodraeth, a oes rhywun a gynnigiai amddiffyn y fath ymddygiad? ...Byddai y fath ddeddf yn yr oes hon yn sicr o godi gwrthwynebiad egniol; a chredwn na cheid ond ychydig, hyd yn oed yn Nghymru, yn ddigon wynebgaled i'w hamddiffyn.....Gan hynny y casgliad teg ac anwrthwynebol ydyw, fod pob ymneillduwr, yn ol y drefn bresennol, yn cael ei golledu yn herwydd ei gydwybodolrwydd, a hynny yn y dull mwyaf anhawdd i'w ddyoddef; ac felly y mae yn rhaid i ni gredu fod gwaddoli rhyw gyfundraeth grefyddol trwy gyfraith yn gamwedd o'r fath wrthunaf yn erbyn cydwybod, ac o ganlyniad yn gwrthdaraw yn erbyn awdurdod benarglwyddiaethol Duw ei hun, i'r hwn yn unig y mae dyn yn gyfrifol am ei grefydd." (279)

Ond eto ni chondemnid Eglwys Loegr yn ei chrynswth yn hytrach condemnid pethau penodol o'i mewn, ac 'roedd rhai ysgrifennwyr am wneud yn siwr fod yr Eglwyswyr yn deall hynny. Pwysleisiai 'Cyfaill' yn Y Dysgedydd (1849), nad oedd Ymneilltuwyr yn erbyn Esgobyddiaeth fel y cyfryw, ond yn erbyn perthynas Eglwys Loegr â'r wladwriaeth.

"Ond y mae y ddau beth yn hollol wahanol, a dylent fod ar wahân yn ein meddyliau; ac yna gallech weled, er fod genym wrthwynebiad cryf i egwyddor eglwys wladol, ond ar yr un pryd gallem garu

esgobyddwyr fel brodyr, a chyduno â hwynt yn ewyllysgar "yn mhob gair a gweithred dda." Yr ydym yn credu nad ydyw yr ysgrythyrau yn cefnogi ei llywodraethu gan esgob teithiol, ond etto nid ydym yn beio y rhai sydd yn meddwl ffordd arall, nac yn meddu un drwg ewyllys tuag atynt am wneud felly....Mae gwahanol olygiadau yn bodoli yn ein plith ein hunain; ond nid ydyw hyn yn ein rhwystro i garu ein gilydd, i ymddwyn yn frawdol, ac i lawenhau yn llwyddiant ein gilydd. Gallwn yr un modd garu esgobwyr fel Cristiaid, ac yr ydym yn dymuno gwneud felly." <280>

Ni fyddech byth yn cael erthygl o'r fath am y Pabyddion. Felly mae'n amlwg fod agwedd yr Ymneilltuwyr tuag at Eglwys Loegr yn gwbl wahanol. Rhaid cofio hefyd fod cydweithio rhwng Eglwyswyr ac Ymneilltuwyr ar rai materion fel y genhadaeth dramor, <281> ac hefyd ar lefel leol. <282>

Yr oedd perthynas yr Ymneilltuwyr ag Eglwys Loegr yn ddiddorol a chymleth ac yn haeddu llawer mwy o sylw nag y gallwn ei roi yn y traethawd hwn. Wrth edrych ar y berthynas rhyngddynt teflir peth goleuni ar ymddygiad sectyddol yr Ymneilltuwyr a'u datblygiad tuag at enwadaeth. Am gyfnod maith 'roeddent yn fodlon ar bethau fel yr oeddent, gan ganolbwyntio ar eu bywyd ysbrydol yn unig. Derbyniant y ffaith mai cyrff bychain di-rym oeddent ac nid oedd ganddynt fawr ddiddordeb mewn ymyrryd â gweithgarwch yr eglwys sefydledig. 'Roeddent wedi dewis ymneilltuo oddi wrth grefydd sefydledig, a dyna ni. Ond wrth i'w niferoedd gynyddu, cynyddai eu dylanwad a maes o law ceisient ryddid crefyddol llwyr, fel bod pob carfan grefyddol ar yr un gwastad â'i gilydd. Wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen sylweddolasant nad lleiafrif di-rym oeddent ond mudiad a allai herio a newid sefydliadaeth gyfundrefnol. Mae'n siwr ei fod yn brofiad od ym 1851 pan sylweddolwyd gyda'r cyfrifiad fod Ymneilltuaeth, y grefydd a ystyrid yn grefydd lleiafrifol, yn fwy poblogaidd na'r grefydd sefydledig. O hynny ymlaen y grefydd sefydledig oedd yr un lleiafrifol yng Nghymru ac 'roedd i'r ffaith hon effaith mawr ar seicoleg yr Ymneilltuwyr. Gorlifodd eu brwdfrydedd

Cristnogol i feysydd gwleidyddol ac addysgol, gan gofleidio yr hyn a ystyrid gynt yn waharddedig.

I grynhoi, gwelwn fel yr oedd agwedd yr Ymneilltuwyr at Babyddiaeth yn enghreifftio'r safiad sectaidd yn ei burdeb. Yn achos Eglwys Loegr, yr oedd eu hagwedd at ddefodaeth, yr olyniaeth apostolaidd a phwyslais diwinyddol Puseyaeth yn enghreifftio'r brwdfrydedd sectaidd o blaid yr hyn a alwent hwy'n uniongrededd. Ond hanfod eu gwrthwynebiad i Anglicaniaeth oedd y berthynas rhwng Eglwys Loegr a'r wladwriaeth. Seciwlareiddio'r eglwys oedd hyn trwy roi ei llywodraeth yn nwylo gwleidyddion. Ar y pen hwn yr oedd yn rhaid gwneud safiad pendant. Ac efallai y gellid dadlau mai brwydr Datgysylltiad oedd brwydr fawr olaf sectyddiaeth Gymraeg oherwydd pan enillwyd honno daeth enwadyddiaeth i'w llawn dwf.

Hyfforddi Gweinidogion. (t. 322 - 335)

1. RSL., 472. Gw., hefyd "To the priestly and professional leadership of the church and its hierarchical organization the sect opposes a lay leadership and a democratic organization," Encyclopaedia of Social Science, cyfrol 13, 634.
2. ES., 34.
3. Warner Stark, The Sociology of Religion, (Llundain, 1966), cyfrol 2, 309.
4. Geraint Dyfnallt Owen, Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr, (Llandysul, 1939), 2-14. Gw., hefyd R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 126. Transactions of the Cymrodorion Society, (1928-29), H.P.Roberts, 'Nonconformist Academies in Wales (1662-1862),' 106. Irene Parker, Dissenting Academies in England, (Caergrawnt, 1914). Y Cofiadur, (1952), rhifyn 22, Geraint Dyfnallt Owen, 'James Owen a'i Academi', W.Morris (gol.), Ysgolion a Cholegau y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, 1973).
5. R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 127.
6. Dawi Eirug Davies, Hoff Ddysgedig Nyth, (Abertawe, 1976). R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 127.
7. E.Cefni Jones, Hanes Coleg y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru 1862-1927, (Blaenau Ffestiniog, 1928), 19.
8. W.P.Jones, Coleg Trefeca 1842-1942, (Llandysul, 1942), 11-13.
9. E.Cefni Jones, Hanes Coleg y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru 1862-1927, (Blaenau Ffestiniog, 1928), 21-2.
10. D.D.Williams, Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 186-87. Gw., hefyd, Cymru Fydd, cyfrol 2, 303, T.F.Roberts, 'Datblygiad Addysg Athrofaol yng Nghymru.'
11. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards Ei Fywyd A'i Waith, (Abertawe, 1967), 41.
12. R.Thomas, Cadwaladr Jones. Dolgellau, (Lerpwl, 1870), 26.
13. Ibid., 189.
14. Am David Davis (1763-1816), gw., Bywg., 104.
15. T.Rees & J.Thomas, Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, (Lerpwl, 1872), Cyfrol 2, 47.
16. Am David Evans (1778-1866), gw., Bywg., 209.
17. Am Benjamin Thomas (1836-93), gw., Bywg., 880-81.
18. Benjamin Thomas, Dafydd Evans Ffynonhenry, (Castell-newydd-emlyn, 1870), 12. Yn Y Tyst, fe gyfeiria Meudwy, (Meudwy oedd J.R.Kilsby Jones, gw., Y Tyst Cymreig, 25 Chwefror 1870, 11.), mewn erthygl o'i eiddo at Dafydd Evans, Ffynnon-henri, a dywed, "Darfod o'r tir y mae yr hen gymeriadau Cymreig gwreiddiol, ac y mae y byd yn dlotach oblegid eu hymadawiad. A oes tuedd mewn addysg i beri i bobl ddwyn yr 'un ddalw ag argraph?' Mae y Bod Mawr wedi gwneud pob creadur, rhesymol a direswa, yn wahanol oddiwrth bob creadur arall ac a fu, y sy', neu a ddaw. Paham

y cyduna cymdeithas i ddinystrio yr amrywiaeth a ddynoda waith y Creawdwr, *Eccentric - od - y galwir dyn naturiol - dyn ac na feddyliodd am ddynwared neb erioad - dyn ac y mae ei fywyd a'i gyflawniadau cyhoeddus ac argyhoedd yr un fath ac ef ei hun. Nid oes dim unffurfiaeth yn ofynol ond mewn *moesau*, un cynllun-gymeriad y sydd, a thrawsnewidiad pawb yn ddiwahan ydyw yr unig unffurfiaid dymunadwy a gorchymynedig.... Ac ai gwir hefyd ydyw fod y Colegau yma yn tueddu i greu unffurfiaeth yn y pregethwyr a ddysgir ynddynt pa fodd i addysgu ei cydgreaduriaid? Mae rhai han bobl wedi hysbysu hyn wrthym, gan sicrhau fod rhai bachgyn yn ymddangos yn fwy gobaithiol a galluog cyn myned i'r Coleg na chwedi dyfod allan o hono. Os gwir hyn, beth yw yr achos o hyn?" Y Tyst Cymreig, 4 Tachwedd 1870, 9.*

19. H. Jones, Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), 218-9.
20. *Ibid.*
21. W. Pritchard, John Elias a'i Oes, (Caernarfon, 1911), 39.
22. *Ibid.*
23. John Owen Jones, Cofiant a Gweithiau y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, (Caernarfon, 1883), 242.
24. Owen Thomas & J. Machreth Rees, Cofiant y Parchedig John Thomas, D.D. Liverpool, (Llundain, 1898), 77.
25. W. J. Owen, Cofiant y Parchedig John Phillips, Bangor, (Caernarfon, 1912), 16.
26. Am Owain Gethin Jones ('Gethin'; 1816-83), gw., Bywg., 471-72.
27. John Price Roberts a Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans Eglwysbach, (Bangor, 1903), 128.
28. Am Lewis Edwards (1809-87), gw., Bywg., 178-79.
29. Am Thomas Richard (1783-1856), gw., Bywg., 798.
30. Am Ebenezer Richard (1781-1837), gw., Bywg., 797.
31. Am Edward Jones (1790-1860), gw., Bywg., 432.
32. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards Ei Fywyd A'i Waith, (Abertawe, 1967), 35-37. Gw., hefyd G. Tecwyn Parry, Cofiant a Gweithiau Dr. Lewis Edwards, Bala, (Llanberis, 1896), 28-29.
33. Am Thomas Charles Edwards (1837-1900), gw., Bywg., 184-85.
34. Thomas Charles Edwards, Bywyd A Llythyrau y Diweddwr Barch. Lewis Edwards, (Lerpwl, 1901), 38-9.
35. G. Tecwyn Parry, Cofiant a Gweithiau Dr. Lewis Edwards, Bala, (Llanberis, 1896), 38-9.
36. G. Tecwyn Parry, Cofiant a Gweithiau Dr. Lewis Edwards, Bala, (Llanberis, 1896), 42. (Mae hwn yn union yr un peth ag a ddywedwyd wrth John Evans, Eglwys-bach.)

- D.D. Williams, Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Galfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 188.
37. L. Edwards, Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 622, 624.
38. Vyrnwy Morgan, Kilsby Jones, (Wrecsam, dim dyddiad), 228-9.
39. Am John Hughes (1796-1850), gw., Bywg., 360.
40. John Hughes, Methodistiaeth Cymru, (Wrecsam, 1856), cyfrol 3, 545.
41. Ibid., 546.
42. Benjamin Thomas, Dafydd Evans Ffynonhenry, (Castell-newydd-emlyn, 1870), 13.
43. John Price Roberts a Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans Eglwysbach, (Bangor, 1903), 110.
44. Vyrnwy Morgan, Kilsby Jones, (Wrecsam, dim dyddiad), 228-9, Er hynny John Elias o bawb gynghorodd Lewis Edwards a David Charles i agor ysgol yn y Bala, Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards ei Fywyd a'i Waith, (Abertawe, 1967), 74.
45. R. Edwards & J. Hughes, Buchdraeth y Diweddwr Barchedig John Hughes, Liverpool, Awdur "Methodistiaeth Galfinaidd Cymru", (Wrecsam, dim dyddiad), 151.
46. J.M. Jones (gol.), Trem ar y Ganrif, (Dolgellau, 1902), 128.
47. W.P. Jones, Coleg Trefeca 1842-1942, (Llandysul, 1942?), 24.
48. Geraint Dyfnallt Owen, Ysgolion a Cholegau yr Annibwywr, (Llandysul, 1839), 122, 136.
49. E. Cafni Jones, Hanes Coleg y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru 1862-1927, (Blaenau Ffestiniog, 1928), 23, 24.
50. Gw., D.D. Williams, Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Galfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 188, John Hughes, Hanes Methodistiaeth Cymru, cyfrol 3, (Wrecsam, 1851), 545.
51. Gw., W.J. Gruffydd, Han Atgofion, (Llandysul, 1836), 200-01.

Y Fugeiliaeth. (t. 336 - 347)

52. T.M. Bassett, Bedyddwyr Cymru, (Abertawe, 1977), 181.
53. Ibid., 60-61, 191-199.
54. Gw., Y Dysgedydd, 1847, 331. Ibid., 1883, 329-339.
55. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards a'i Waith, (Abertawe, 1967), 148, Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 112.
56. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 226-27.

57. A.H.Williams, Welsh Wesleyan Methodism, (Bangor, 1935), 319.
58. Ibid., 319-20. Waller, The Constitution and Polity of the Wesleyan Methodist Church, 495.
59. T.M.Bassett, Bedyddwyr Cymru, (Abertawe, 1977), 189-90.
60. Owen Thomas & J.Machreth Rees, Cofiant y Parchedig John Thomas, D.D., (Llundain, 1899), 162.
61. D.D.Williams, Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 205-07.
62. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 114.
63. Am Y Fugailiaeth gw., Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards ei Fywyd, (Abertawe, 1967), 148-155. D.D.Williams, Hanes y Cyfundeb, (Caernarfon, dim dyddiad), 205-214. Griffith Ellis, Cofiant Edward Morgan Dyffryn, (Dinbych, 1906), 114-134, 180-192, 195-263. T.Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), yr ail gyfrol, 349-370. Thomas Charles Edwards, Bywyd a Llythyrau y Diweddar Barch. Lewis Edwards, M.A., D.D., (Lerpwl, 1901), 423-430. A.H.Williams, Welsh Wesleyan Methodism 1800-1858, (Bangor, 1935), 320-21. R.Owen, Hanes Methodistiaeth Dwyrain Meirionydd. Y Tyst Cymreig, 13 Mai 1870, 'Y Methodistiaid a'r Fugailiaeth', 10. Ibid., 20 Mai 1870, 10. Ibid., 27 Mai 1870, 10. Ibid., 3 Mehefin 1870, 10. Ibid., 10 Mehefin 1870, 10. Ibid., 17 Mehefin 1870, 10. Ibid., 24 Mehefin 1870, 10. Ibid., 1 Gorffennaf 1870, 10. Ibid., 8 Gorffennaf 1870, 10. Ibid., 15 Gorffennaf 1870, 10. Ibid., 22 Gorffennaf 1870, 10. Ibid., 29 Gorffennaf 1870, 10. Ibid., 5 Awst 1870, 10. Ibid., 19 Awst 1870, 10. Ibid., 26 Awst 1870, 10. Ibid., 2 Madi 1870, 10. Ibid., 9 Madi 1870, 10. Y Drysorfa, 1865, 166, 246, 284, 326, 408. Y Traethodydd 1870, 308.
64. D.D.Williams, Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 212.
65. Am Henry Rees (1798-1869), gw., Bywg., 776.
66. Am John Mills ('Ieuan Glan Alarch'; 1812-73), gw., Bywg., 597.
67. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 123-4.
68. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards a'i Waith, (Abertawe, 1967), 148.
69. A.H.Williams, Welsh Wesleyan Methodism 1800-1858, (Bangor, 1935), 320.
70. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 114.
71. Am Edward Morgan (1817-71), gw., Bywg., 604.
72. Am Lewis Jones (1808-54), gw., Bywg., 463.
73. A.H.Williams, Welsh Wesleyan Methodism 1800-1858, (Bangor, 1935), 320. D.D.Williams, Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 211-12.
74. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards a'i Waith, (Abertawe, 1967), 150.

75. Thomas Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), cyfrol 2, 349. Gw., hefyd, Y Dysgedydd, 1824, 'Gweinidogaeth Safydlog', 13. Ibid., 1832, 'Gweinidogaeth daithiol', 369. Ibid., 1840, 'Cromwel o Went, a'r weinidogaeth daithiol', 241-3. Ibid., 1845, 'Y weinidogaeth daithiol', 194. Ibid., 1847, 'Mantaision ac anfantaision y weinidogaeth safydlog', 331. Ibid., 1848, 357. Y Graal, 1832, 'Pregathu Taithiol', 111.
76. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards a'i Waith, (Abertawe, 1967), 155.
77. Am Robert Ambrose Jones ('Emrys ap Iwan'; 1851-1906), gw., Bywg., 480-81.
78. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 249. T. Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), 352, 357.
79. Lewis Edwards, Traethodau Duwinyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 509-11. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards ei Fwyd a'i Waith, (Abertawe, 1967), 153.
80. Lewis Edwards, Traethodau Duwinyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 466. T. Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), 151. Y Dysgedydd, 1847, 331.
81. Gw., "Defodaeth," Y Dysgedydd, 1867, 24. "Epayddiaeth," ibid., 1874, 133, 229. "Gair ar Ddefodaeth," ibid., 1875, 332.
82. Am David Rees (1801-69), gw., Bywg., 775.
83. T. Davies (gol.), Bywyd ac Ysgrifeniadau y Diweddar Parch. D. Rees, Llanelli, (Llanelli, 1871), 264-65.
84. T. Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), 355.
85. Ibid., 352-53.
86. T. Davies (gol.), Bywyd ac Ysgrifeniadau y Diweddar Parch. D. Rees, Llanelli, (Llanelli, 1871), 264-65.
87. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 249-50, 209. Trebor Lloyd Evans, Lewis Edwards Ei Fwyd a'i Waith, (Abertawe, 1967), 152.
88. John Price Roberts & Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans Eglwysbach, (Bangor, 1903), 550.
89. Griffith Ellis, Cofiant Y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 237.
90. Ibid., 215.
91. Ibid., 216, 119, 219.
92. H. Jones, Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), 219-20.
93. Lewis Edwards, Traethodau Duwinyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 384.
94. T. Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), 354.
95. Gw., Saran Gomar, 1822, 'Addasrwydd y taitl Parchedig,' 337. Ibid., 1823, 34, 164, 265, 305, 362, 364.

Addysg. (t. 348 - 372)

96. RSV, 231.
97. R. Robertson, The Sociological Interpretation of Religion, (Rhydychen, 1970), 130.
98. SP, 246.
99. PS, 36.
100. Ibid., 41.
101. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 30.
102. Daniel Owen, Profedigaethau Rhys Lewis, talfyrriad gan E. Curig Davies, (Llandybie, 1967), 18-20.
103. R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 248, Am Thomas Jones (1737-1813), gw., Y Cofiadur (1958), R. Tudur Jones, 'Thomas Jones, Caer,' 40-51.
104. R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 248.
105. Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 163.
106. Gw., Ieuan D. Thomas, Addysg yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, (Caerdydd, 1972), 14, Gareth Elwyn Jones, Modern Wales, (Caergrawnt, 1984), 287.
107. Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 174, 180, J.L. Williams (gol.), Ysgrifau ar Addysg, Cyfrol 4, J.R. Webster, 'Dyheadau'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg,' 46.
108. Am Evan Richardson (1759-1824), gw., Bywg., 804-05.
109. Am Hugh Owen (1804-81), gw., Bywg., 664-65.
110. Am Robert Jones (1745-1829), gw., Bywg., 478.
111. Am Ebenezer Thomas ('Eben Fardd'; 1802-63), gw., Bywg., 886.
112. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 31.
113. Ibid.
114. J.L. Williams & G. Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), pennod 5, T.M. Bassett, 'The Sunday School,' 73.
115. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 32, J.L. Williams (gol.), Ysgrifau ar Addysg, cyfrol 4, J.R. Webster, 'Dyheadau'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg,' 48-50, J.L. Williams & G.R. Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), pennod 6, 83-104, A.L. Trott, The British School Movement in Wales 1806-46, pennod 7, The Contribution of the Established Church to Welsh Education, (1811-1846), 105-126, G.E. Jones, Modern

- Wales 1485-1979, (Caergrawnt, 1984), 285, S.J.Curtis, History of Education in Great Britain, (Llundain, 1948), 207-8, H.C.Barnard, A History of English Education, (Llundain, 1961), 52-57, C. Birchenough, History of Elementary Education, (Llundain, 1920), 24.
116. Adroddiadau Undeb yr Annibynwyr Cymreig, (1910), J.E.Lloyd, 'Addysg Yng Nghymru hyd 1870,' 1250.
117. S.J.Curtis, History of Education in Great Britain, (Llundain, 1948), 208, Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 186.
118. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 32, J.L.Williams (gol.), Ysgrifau ar Addysg, J.R.Webster, 'Dyheadau'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg,' 48.
119. Gareth Elwyn Jones, Modern Wales, (Caergrawnt, 1984), 286.
120. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 32.
121. J.L.Williams (gol.), Ysgrifau ar Addysg, dyfyniad o'r British and Foreign School Annual Report, (1815), 227, Mae ansicrwydd ynglŷn â dyddiad ffurfio'r gymdeithas hon, aabell dro fe gawn 1808, a thro arall fe gawn 1814, Yr hyn a ddigwyddodd ym 1808 oedd fod pwyllgor o chwech wedi eu dewis i gynorthwyo Lancaster yn ei waith, oherwydd ei fod mewn anawsterau ariannol, Gw., S.J.Curtis, History of Education in Great Britain, (Llundain, 1948), 208, Ym 1810 gwnawd y pwyllgor yn fwy a galwyd y corff yn "Royal Lancastrian Institution," Ym 1813 'roedd rhaid gwneud ychwaneg o newidiadau yng ngweinyddiad y corff, ac ym Mai 1814 newidiwyd yr enw i "Cymdeithas Ysgolion Brutanaidd a Thramor, Gw., J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 83-84.
122. Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 227.
123. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 90.
124. Ibid., 98. (Mae'n anodd cael gafaal ar rif yr Ysgolion Brutanaidd yng Nghymru yn y cyfnod hwn. Dywedir yn Addysg yng Nghymru 1847-1947, tud. 33, nad oedd ond 2 ysgol yng Ngogledd Cymru ym 1843, ac ychydig mwy yn y De.)
125. Am Henry Brougham, Baron Broughman and Vaux (1778-1868), gw., DNE., cyfrol 6, 448.
126. S.J.Curtis, History of Education in Great Britain, (Llundain, 1948), 220-22, Charles Birchenough, History of Elementary Education, (Llundain, 1920), 50-1, H.C.Barnard, A History of English Education, (Llundain, 1969), 65-7.
127. R.Tudur Jones, Congregationalism in England 1662-1962, (Llundain, 1962), 195.
128. Ibid., 211. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 32.
129. Adroddiadau Undeb yr Annibynwyr Cymreig, (1910), J.E.Lloyd, 'Addysg yng Nghymru hyd 1870,' 1251.
130. Am John Russell, first Earl Russell (1792-1878), gw., DNE., cyfrol 49, 454-64.

131. Adroddiadau Undeb yr Annibynwyr Cymraig, (1910), J.E.Lloyd, 'Addysg yng Nghymru hyd 1870,' 1251, Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 202.
132. Adroddiadau Undeb yr Annibynwyr Cymraig, (1910), J.E.Lloyd, 'Addysg yng Nghymru hyd 1870,' 1251.
133. Thomas Phillips, Wales. The Language, Social Condition, Moral Character and Religious opinions of the people. Considered in relation to Education, (Llundain, 1849), 397.
134. Adroddiadau Undeb yr Annibynwyr Cymraig, (1910), J.E.Lloyd, 'Addysg yng Nghymru hyd 1870,' 1215.
135. Am Robert Peel (1788-1850), gw., DNE., cyfrol 44, 209-23.
136. Am James Robert George Graham (1792-1861), gw., DNE., cyfrol 22, 328-42.
137. H.C.Barnard, A History of English Education, (Llundain, 1961), 103, 115, Charles Birchenough, History of Elementary Education, (Llundain, 1920), 69-70, S.J.Curtis, History of Education in Great Britain, (Llundain, 1948), 239-42.
138. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 33, 37, R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 203, R.Tudur Jones, Congregationalism in England 1662-1962, (Llundain, 1962), 211.
139. Ibid.
140. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 33.
141. Y Dysgedydd, 1843, 159. Gw. hefyd Y Dysgedydd, 1843, 191, 194, Y Diwygiwr, 1843, 155, 189.
142. R.T.Jones, Congregationalism in England, 212, Am Edward Baines (1744-1848), gw., DNE., cyfrol 2, 438-39.
143. Am Henry Richard (1812-88), gw., Bywg., 798.
144. Am Caleb Morris (1800-65), gw., Bywg., 619.
145. Am David Rhys Stephens ('Gwyddonwyson'; 1807-52), gw., Bywg., 866-67.
146. Am Evan Jones, ('Ieuan Gwynedd'; 1820-52), gw., Bywg., 433-34.
147. Transactions of the Honourable Society of the Cymmrodorion, (1901-2), M.Williams, 'The Romance of Welsh Education,' 26-46, Gw. hefyd, J.Vyrnwy Morgan, Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era, (Llundain, 1909), 271-90, C.Tawelfryn Thomas, Cofiant... Evan Jones (Ieuan Gwynedd), (Dolgellau, 1909).
148. R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 196, B.Wilson, PS, 36.
149. R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 214.

150. Y Dysgedydd, 1848, Ieuan Gwynedd, 21-22.
151. Y Traethodydd, 1848, Ieuan Gwynedd, 48.
152. Ibid.
153. Y Diwygiwr, 1846, arthygl gan Simon Evans, Penygroes, De Cymru, 334.
154. Y Dysgedydd, Madi, 1847, Ieuan Gwynedd, "Byddai cystal ymdrechu gosod awrlais mawr clochdŷ eglwys gadeiriol Bangor yn llogell gwasgod, yn lle oriawr, a gosod y llywodraeth i addysgu y bobl, Gorfodaeth ydyw natur llywodraeth, awdurdod yw ei hanfod. Pan lefara, y mae ei holl eiriau yn y modd gorchmynol." Y Traethodydd, 1849, Ieuan Gwynedd, 295.
155. Y Diwygiwr, 1846, Dewi Goch, Llangloffan, 297.
156. Y Diwygiwr, 1846, Simon Evans, Penygroes, 334.
157. Y Dysgedydd, 1848, Ieuan Gwynedd, 21, Gw. hefyd, Y Traethodydd, 1849, 606.
158. Y Dysgedydd, 1848, R.D.Thomas yn ateb S. ab G. o Gantra'r Gwaelod, 49.
159. Y Traethodydd, 1849, 306.
160. E.Davies, Christian Schools, (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, 1978), 13, Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 34.
161. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 102, R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 218.
162. E.Davies, Christian Schools, (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, 1978), 13.
163. R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 234-39, J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 102.
164. Am Evan Davies (1826-72), gw., Bywg., 113.
165. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 103, R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 234-39, Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 34.
166. E.Davies, Christian Schools, (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, 1978), 13.
167. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, 103.
168. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 34.
169. Am Robert Vaughan (1795-1868), gw., DNB.
170. Dadleuodd Dr. Robert Vaughan hyn yn y British Quarterly Review, Awst 1846, 268, R.Tudur Jones, Hanes Anibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 218.
171. R.Tudur Jones, Congregationalism in England, (Llundain, 1962), 213, Dyfyniad o'r British Quarterly Review, Awst, 1846, 268.

172. Am Henry Griffiths (1812-91), gw., Bywg., 285.
173. Am William Williams (1788-1865), gw., Bywg., 1016-17,1
174. Transactions of the Honorary Society of Cymrodonion, (1901-02), M,Williams, 'Romance of Welsh Education,' 27.
175. Y Dysgedydd, 1847, arthygl gan R.P., 50.
176. Y Dysgedydd, 1853, T.R., 'Addysg yr Ysgolion Brutanaidd,' 9.
177. Ibid.
178. Y Traethodydd, 1849, arthygl gan 'Un ohonoch eich hunain' (Saf Henry Griffiths (1812-91), gw., Bywg., 285.), 416.
179. Y Dysgedydd, 1848, H.Jones, Haol Awst, Caerfyrddin, 344.
180. Y Dysgedydd, 1844, Anghydfurfiwr, "Addysgiaeth y Genedl," 355.
181. Gw., Y Drysorfa, 1843, 294.
182. Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 232.
183. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 102. A.L.Trott, The British Schools Movement in Wales, 1806-46. Dyma fraslun o'r llythyr.
 "Annwyl Gydwladwyr, yr ydych yn gweld angenrheidrwydd am addysg i'ch plant, ac yn caru rhyddid cydwybod; tuag at gael addysg iddynt, rhaid cael ysgolion heb fod yn dwyn cysylltiad neilltuol ag unrhyw blaid grefyddol. I'r dyben hwn, cynnygiaf i'ch ystyriaeth y cynllun canlynol,
 1. Bod ysgol Brutanaidd i gael ei sefydlu ymhob ardal. Mae trefn yr Ysgolion Brutanaidd yn hollol gyson a rhyddid cydwybod...
 2. Bod Cymdeithas i gael ei ffurfio ym mhob Sir, i gael ei galw, Cymdeithas Ysgolion Brutanaidd Sir -----
 3. Bod cyfeisteddod o tua 12 o barsonau ynghyd a thrysorydd ac ysgrifenydd, i gael eu ffurfio ymhob ardal y bydd eisiau ysgol ynnddi." Y Drysorfa, 1843, 294.
184. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 101-03. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, (Llundain, 1948), 34.
185. Y Drysorfa, Ebrill, 1845.
186. Adroddiadau Undeb yr Annibynwyr Cymreig, (1910), J.E.Lloyd, 'Addysg yng Nghymru hyd 1870,' 1253.
187. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, (Llundain, 1948), 34. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 101.
188. Am Hugh Pugh (1803-68), gw., Bywg., 764-65.
189. J.L.Williams & G.Rees Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978), 101.
190. Ibid.

191. Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 241.
192. Y Drysorfa, 1846, 309-10.
193. Y Drysorfa, 1847, 18-9.
194. E. Davies, Christian Schools, (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, 1978), 10.
195. Ffowc Williams, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), 258.
196. R. Ivor Parry, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru), 230, Y Dysgedydd, 1845, 212.
197. Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 38.
198. Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion, (1931-32), Idwal Jones, 'The Voluntary System at Work,' 89, 145. Ym 1853 penodwyd Nefydd yn drefnydd Ysgolion Brutanaidd De Cymru. Ym 1863 cymerodd David Williams, prifathro-Ysgol Copper Works, Llanelli le Nefydd fel trefnydd, Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948), 34, 38.

Perthynas Gyda'r Pabyddion. (t. 373 - 381)

199. SP, 243.
200. Ibid., 231.
201. RSL, 145.
202. SP, 224.
203. PS, 27-28.
204. Datguddiad, 17:1.
205. Datguddiad, 16:9, 17:5.
206. SP, 30.
207. Ibid., 224.
208. Yn ôl cyfrifiad 1851 nid oedd gan y Pabyddion ond 21 o Addoldai yng Nghymru a 4,653 o addolwyr yn ystod oadfa'r bore ar ddydd y cyfrifiad.
209. Thomas Charles, Gairiadur Ysgrythyrol, (Wrecsam, 1884), y seithfed argraffiad, 755.
210. Ibid., 55.
211. Am George Lewis (1763-1822), gw., Bywg., 517-18. Wrth esbonio'r adnod "Ac mi a safais ar dywod y môr; ac a welais fwystfil yn codi o'r môr, a chanddo saith ben, a deg corn; ac ar ei gyrn ddeg coron, ac ar ei bennau enw cabledd," dywad George

- Lewis fel a ganlyn, "Erbyn chwilio a chydmaru pethau â phethau, mae'n rhy anhawdd, debygid, beidio meddwl nad Rhufain Babaidd sydd mewn golwg yn y Bannod hon," George Lewis, Esponiad ar y Datguddiad, (Wrecsam, dim dyddiad), 115.
212. Wrth esbonio'r un adnod â'r uchod, dywed James Hughes, "Gan hyny, y mae yn *hollaw* sicr, mai awdurdod Rhufain fel yn proffesu cristnogaeth, ac nid awdurdod Rhufain *baganaidd*, a fedyllir yma wrth y bwystfil; neu mewn geiriau eraill, Rhufain *Babaidd*." James Hughes, Y Testament Newydd; gyda Nodau Eglurhaol ar Bob Adnod, (Treffynnon, 1846), ail argraffiad, 1093, Wrth esbonio Datguddiad 17:5, dywed, "Mae hi yn cymmeryd arni yn wir yr enw 'Ein Mam Sanctaidd yr Eglwys;' ond mewn gwirionedd MAM PUTEINIAID, A FFIEIDD-DRA Y DDAEAR yw hi; dychmyges, ffynon, taeniodyddes, a phrif esiamp, eilun-addoliaeth, a phob math o gam-ddefnyddiadau a llygriadau o'r grefydd gristionogol, trwy y rhai mae cenhedloedd y ddaear wadi cael eu llygru a'u halogi," *ibid.*, 1101.
213. Wrth ddiffinio'r gair Anghrist dywed W. Jones, "Amrywiol ydynt y tybiau yn aherthynas iddo; ond, cytunir yn gyffredin, nad ydyw yn golygu un person arbenigol, eithr rhyw allu neu gyfansoddiad o egwyddorion ac ymarferion croes i Grist a'i grefydd; yn enwedigol pabyddiaeth yn ei holl ranau a'i llygredigaeth, Ymddengys rhesymoldeb y cyfryw dyb, pan ystyrion gydgordiad y proffwyddoliaethau am anghrist a phabyddiaeth yn gyffredinol a neillduol." W. Jones, Geiriadur Duwinyddol, (Merthyr Tydfil, 1837), cyfrol 1, 74.
Am Pabyddiaeth, Pabyddion gw., hefyd, Yr Eurgrawn, 1824, 'Rhesymau Protestant paham na fyddai yn Babydd,' 303, 337, 371, 416, 451, *Ibid.*, 1826, 'Rhesymau dros ymrthod â Phabyddiaeth,' 225, *Ibid.*, 1836, 'Adfeiliad Pabyddiaeth,' 109, *Ibid.*, 1840, 'Arwyddion yr Amserau,' 105, *Ibid.*, 1846, 'Pabyddiaeth, prawfiadau newyddion o'i llygredd,' 145, *Ibid.*, 1851, 'Holwyddoreg ar Babyddiaeth,' 19, 45, 80, 145, 175, 204, 238, *Ibid.*, 1852, 'Ffaeledigrwydd y Pab,' 346, *Ibid.*, 1869, 'Cyfeiliornadau y grefydd Babaidd,' 470, *Ibid.*, 1871, 'Prydain Fawr a'r Babaeth,' 28, *Ibid.*, 1875, 'Pabyddiaeth,' 110, 158, Y Diwygiwr, 1851, 'Eglwys Rufain,' 99, 'Gwrthwynebu Pabyddiaeth,' 21, 'Pabyddiaeth,' 83, 'Pabyddiaeth a'r Baibl,' 138, 'Sylwadau ar y Grefydd Babaidd a Chrefydd Gristnogol,' 174, 'Y Cynhwrf Gwrth-babyddol,' 53, 'Y Pab a'r Babyddes,' 51, *Ibid.*, 1853, 'Manteision Ymneilltuwyr i wrthwynebu Pabyddiaeth,' 306, *Ibid.*, 1854, 'Pabyddiaeth,' 82, *Ibid.*, 1867, 'Erchyslonrwydd Pabyddiaeth,' 203, *Ibid.*, 1872, 'Nodweddion Pabyddiaeth,' 50, *Ibid.*, 1875, 'Peryglon yr oes oddiwrth Babyddiaeth,' 350, Y Cronicle, 1849, 'Ofergoeladd Pabaidd,' 281, *Ibid.*, 1851, 'Y Pab yn y Clorian,' 275, Y Gainiogwarth, 1847, Gwaddol yr Offeiriad Pabaidd,' 26, 'Pabyddiaeth,' 139, 'Y Ffordd i wrthsefyll Pabyddiaeth,' 46, Y Traethodydd, 1865, 'Y Babaeth,' 220, *Ibid.*, 1875, 418, Y Tyst Cymreig, 11 Mawrth 1870, 8-9, *Ibid.*, 7 Hydref 1870, 'Cwmp y Babaeth', 8, *Ibid.*, 14 Hydref 1870, 'Y Bleidlais a'r Babaeth', 8.
214. PS, 27-28.
215. Thomas Jones, Hanes y Merthyron, (Dinbych, 1866), argraffwyd gyntaf ym 1813, rhagymadrodd, vi.
216. Gw., "Ar daryfn y bedwaredd ganrif nid oedd crefydd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid paganaidd yn gwahaniaethu ond ychydig iawn yn eu hymarferion allanol oddiwrth yr un Gristnogol." Y Dysgedydd, 1847, 135, Gairfa Llyfr y Datguddiad a ddefnyddid wrth gyfeirio atynt, gw., Y Dysgedydd, 1847, 110, *Ibid.*, 48, 178.
217. Gw., John Hughes, Methodistiaeth Cymru, (Wrecsam, 1851), 18, Yr Eurgrawn, 1826, 'Gelyniaeth y Pabyddion,' 164, *Ibid.*, 1839, 'Coel-grefydd y Pabyddion,' 278, *Ibid.*, 1846, 'Cyfeiliornadau y grefydd Babaidd yn cael eu dynoethi,' 103, 138, 175, 210, 233, 261, 297, 326, 354, 'Pabyddiaeth yn falltith i'r byd,' 163, *Ibid.*, 1849, 'Twyll y gwyrthiau Pabaidd,' 306, *Ibid.*, 1850, 'Creulondeb Pabyddiaeth,'

217. Ibid., 1851, 'Twyll Pabyddiaeth,' 15, Y Diwygiwr, 1867, 'Echryslonrwydd Pabyddiaeth,' 203, Y Gainiogwerth, 1847, 'Creulondab Pabyddiaeth,' 295.
218. Gw., W.Pritchard, John Elias a'i Oes, (Caernarfon, 1911), 230.
219. Gw., Gomer M.Roberts, Y Ddinas Gadarn, (Llundain, 1974), 58-68.
220. John E.Davies, James Hughes saf Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 276-283, R.T.Jenkins, Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, (Caerdydd, 1933), 63-67.
221. John E.Davies, James Hughes saf Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 277.
222. Ibid., 278.
223. Y Dysgedydd, 1829, 46.
224. Ibid., 47.
225. Ibid., 46.
226. Ibid., 47.
227. Ibid., 46.
228. Ibid., 1829, 45-49. Gw., hefyd, Roland Bainton, The Reformation of the Sixteenth Century, (Boston, 1952), 'The Struggle for Religious Liberty', 211-227, Jordan, The Growth of Religious Toleration, R. Tudur Jones, Congregationalism in England 1662 - 1962, (Llundain, 1962), 199.
229. Am John Henry Newman (1801-1890), gw., DNE., cyfrol 40, 240-51.
230. Am John Kable (1792-1866), gw., DNE., cyfrol 30, 291-95.
231. Am Edward Bouverie Pusey (1800-1882), gw., DNE., cyfrol 47, 53-61.
232. Am Richard Froude (1803-36), gw., DNE., cyfrol 20, 290-91.
233. Gw., R.W.Church, The Oxford Movement. Twelve Years 1833-45, (Llundain, 1891), A.Tudno Williams, Mudiad Rhydychen a Chymru, Darlithiau Davies, 1983, (Dinbych, 1983), J.W.C.Wand, A History of the Modern Church from 1500 to the Present Day, (Llundain, 1929), 205-220, W.B.Selbie, Nonconformity its Origin and Progress, (Llundain, dim dyddiad), 227, R.Tudur Jones, Congregationalism in England, (Llundain, 1962), 248, 260.
234. David Thomson, England in the Nineteenth Century (1815-1914), (Penguin Books, 1955), 108. Gw., hefyd Elfed ap Nefydd Roberts (gol.) Corff Ac Ysbryd, (Caernarfon, 1988), G.O.Williams, 'Methodistiaeth ac Ecwmeniaeth,' 104.
235. William Rees, Rhydd-weithiau Hiraethog, (Lerpwl, 1872), 220. O'r Traethodydd, 1854.
236. Am Robert Thomas ('Scorpion', 1816-87), gw., Bywg., 827.
237. Y Dysgedydd, 1852, 10.

238. Owen Davies, Cofiant a Llythyrau y Parch. Robert Jones, Llanllyfni, (Llangollen, 1903), 86.
239. Ibid., 88. Erbyn 1880 'roedd gan y Jesuitiaid ganolfan yn Aberdyfi, Meirionnydd, gyda 50 o breswylwyr, Y Dysgedydd, 1880, 253-54. Hefyd prynwyd hen garchar Wyddgrug fel canolfan i 100 o'r brodyr, Y Dysgedydd, 1880, 324.
240. Gw., Charles H.H. Wright, Llyfr Elfennol ar Babyddiaeth, (Caernarfon, dim dyddiad).
241. Owen Davies, Cofiant a Llythyrau y Parch. Robert Jones, Llanllyfni, (Llangollen, 1903), 87.
242. John Price Roberts & Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 271.
243. Ibid., 272.
244. Thomas Jones, Hanes y Merthyron, (Dinbych, 1866), rhagymadrodd i'r ail argraffiad. Parhau yr oedd yr agwedd wrth-Babyddol yn y saithdegau, "Y maent yn cynnal sefydliadau, ac yn chwarae a gwyddonesau sydd o hyd yn eu tywys yn mlaen i Rufain! Ie, i Rufain, Rhufain! Mam Puteindra a fflieidd-dra'r ddaear, Rhufain! sydd a'i gwefusau yn orphwysfa melltithion, Rhufain! na, welwyd deigr yn tosturiol erioed ar ei grudd, Rhufain sydd a llafau cydwybodau arteithiedig, ac ochneidiau rhyddid cadwynedig, yn beroriaeth hyfrydaf i'w chlustiau, Rhufain sydd a'i thrugaredd fel creulondeb seirph, sydd a'i chalon mor oer a'r bedd, sydd yn caru y ffagodau, y carcharau, a'r arteithglwydi, ac sydd yn suddedig hyd ei gwefusau yn ngwaed dynion santaidd, gwragedd tyner, a phlant bychain." Y Cylchgrawn, 1871, 112.
- Perthynas gydag Eglwys Loegr. (t. 382 - 391)
245. Gw., Y Dysgedydd, 1847, 245.
246. John Jones, Cofiant y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, (Pwllheli, 1883), 77-78.
247. R.T.Jenkins, Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, (Caerdydd, 1933), 105.
248. Am Ordeinio 1811 gw., Gomer M. Roberts, Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, (Caernarfon, 1978), Cyfrol 2, 285. John Morgan Jones, Ordeiniad 1811 Ymysg y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 22. John Hughes, Methodistiaeth Cymru, (Wrecsam, 1851), cyfrol 1, 234-480. D.D.Williams, Llawlyfr Hanes y Cyfundeb, Caernarfon, dim dyddiad), 128-141.
249. John E. Davies, James Hughes sef Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 60, 61.
250. John Morgan Jones, Ordeiniad 1811 Ymysg y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 26-28.
251. Gw., Gomer M. Roberts, Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, (Caernarfon, 1978), cyfrol 2, 285. John Morgan Jones, Ordeiniad 1811 Ymysg y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 22. E.P.Jones, Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych, 1735-1909, (Dinbych, 1936), 80.

252. Gw., John Morgan Jones, Ordainiad 1811 Ymysg y Methodistiaid Calфинаidd, (Caernarfon, dim dyddiad), 34.
253. Gw., D.D. Williams, Hanes y Cyfundeb, (Caernarfon, dim dyddiad), 137.
254. Gw., R. Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 208.
255. R.W. Dale, History of English Congregationalism, (Llundain, 1907), 623 - 27, 643 - 44.
Yn ôl Ddeddf Priodas yr Arglwydd Hardwicke, 1753, yr oedd pob priodas nad oedd yn cael ei gwneiddu yn Eglwys y Plwyf yn anghyfreithlon gydag eithrio priodas Iddawon a Chrynwyr. Cyn hynny yr oedd yn bosibl i Ymneilltuwyr gael eu priodi gan eu gwainidogion yn eu capeli eu hunain. Ym 1836 cyflwynodd yr Arglwydd John Russell ddau fesur seneddol. Yr oedd y cyntaf yn caniatáu cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau gan swyddog gwladol. Yr oedd yr ail yn caniatáu priodasau a weinyddid mewn capeli Ymneilltuol cofrestredig. Yn lle cyhoeddi gostegion yn eglwys y plwyf, yr oedd gofyn rhoi rhybudd i'r cofrestrydd ac yr oedd yn rhaid wrth bresenoldeb y cofrestrydd yn y gwasanaeth i wneud y briodas yn gyfreithlon. B.L. Manning, The Protestant Dissenting Deputies, (Caer-grawnt, 1952), 271-285.
256. J. Mathews, Nonconformist Triumphs, (Abertawe, 1899), 25.
257. Ibid., 30-32.
Hyd at 1852 mynwent y plwyf oedd yr unig fan lle gellid claddu'r meirw'n gyfreithlon, er bod mynwent i'w cael wrth ymyl rhai capeli Ymneilltuol a cheid hafyd mynwentydd wedi eu hagor gan gwmnïau preifat - ond prin iawn oedd y rhain. Yr oedd mynwent y plwyf o dan reolaeth y person ac yr oedd ef yn gorfod defnyddio trefn gwasanaeth y Llyfr Gweddi. Golygai hynny na allai gladdu ond y sawl oedd wedi eu bedyddio. Ambell dro gwrthodai'r person gladdu plant bach Bedyddwyr a pharai hynny dramgwydd. Nid oedd hawl gan weinidog Ymneilltuol gladdu ei aelodau ym mynwent y plwyf - y person oedd i wneud hynny. Eu peth gwelliant ym 1852 pan ddeddfwyd fod mynwentydd cyhoeddus i gynnwys rhan gysegredig ar gyfer Anglicaniaid a darn heb ei gysegru, gyda'i gapel ei hun, ar gyfer Ymneilltuwyr. Gyda mesur Cywiro'r Ddeddf Gladdu, 1880 cafwyd caniatâd i weinidogion Ymneilltuol ddefnyddio eu gwasanaeth eu hunain wrth gladdu ym mynwentydd y plwyf. R.W. Dale, History of English Congregationalism, (Llundain, 1907), 630-33, B.L. Manning, The Protestant Dissenting Deputies, (Caer-grawnt, 1952), 286-332, A Sketch of the History and Proceedings of the Deputies, (Llundain, 1813), 64, Ieuan Gwynedd Jones, Explorations and Explanations, 'The Liberation Society and Welsh Politics', (Gwasg Gomer, 1981), 236-68.
258. J. Mathews, Nonconformist Triumphs, (Abertawe, 1899), 33.
259. Ibid., 37.
260. Ibid., 43.
261. Ibid., 68. Gw., R. T. Jenkins, Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, 107-108. R. Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 208. Richard Griffith, Y Gohebydd, (Dinbych, 1905), 199-207.
262. Am Pusayaeth gw., Y Dysgedydd, 1844, 236-38, 271-73, 332-335, 364-67. Ibid., 1849, 109-10, Ibid., 1845, 13-16, 45-48, 77-81, Ibid., 1855, 97-102, 145-47, 178-81, 308-10, 344. Y Traethodydd, 1852, 255.

263. Gw., W.J.Owen, Cyfrol Goffa am y Parchedig John Phillips Bangor, (Caernarfon, 1912), 53, W.Hobley, Hanes Methodistiaeth Arfon Dosbarth Bangor, (Cyfarfod Misol Arfon, 1924), 104, Lewis Edwards, Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 598-602.
264. Y Dysgedydd, 1875, 333.
265. Y Cylchgrawn, 1871, 110. "Dafodaeth neu *ritualism* ydyw pob peth. Dyma sydd yn barwi yr holl ddosbarth hwnw o'r Eglwys Sefydledig a elwir yn *High Church* drwy yr holl wlad. Y mae seremonïau, ffurfiau, dafodau, ymduniau, codi ac ymgrymu, trosi a throsi, croesi ac ymgroesi, wedi myned yn brif ran yr addoliad. Y mae gwisgoedd, canwyllau, thusernau, aroglarth &c., wedi dyfod y pethau pwysicaf y gwasanaeth i gyd. Y maent mewn rhai manau, megys St. Margared, St. Albans, &c., Llundain, wedi taflu Eglwys Rhufain a'i holl ddefodau i'r cysgod yn gwbl oll. Y mae y thusar yn cael ei ysgwyd, gyda'r mwg peraidd uwchben yr allor, dros y llyfr, ac ar y bobl oll. Y mae gwisg offeiriadol un eglwys wedi costio dros saith mil o bunnau,.....Y mae sefyllfa bresenol Eglwys Loegr a'r Uchel-offeiriad sydd o'i mewn yn barffaith arddangosiad o Phariseaeth oes y Gwaredwr. Y maent yn fanwl gyda phethau amgylchiadol crefydd,...gwneud eu phalycterau yn llydain, a dangos rhyw dduwiolfrydadd mawr ger bron dynion, a hyny ar drael esgeuluso pethau trymaf y gyfraith "cyfiawnder, trugaredd, a ffydd." Y Cylchgrawn, 1871, 27, 28.
- "....pahan y mae y fath duedd graf mewn dynion i bwysu ar allanolion crefydd, ac i luosogi dafodau y rhai na orchmynodd Duw erioed?...Mae hyn yn tarddu o ansawdd sefyllfa dyn syrthiedig wedi ei ymdawiad â Duw." Y Dysgedydd, 1874, 135, 133-39.
- "Pam na feiddiaf gydymffurfio ag Eglwys Loegr? Am nad ydyw'n wir eglwys ysgrythyrol, eithr yn gyfundrefn wladwriaethol, sefydledig gan ddynion bydol i ddybenion bydol, a'i bod yn gorffolaeth fydol o'r bron." Y Dysgedydd, 1846, 146. Gw., hafyd Y Diwygiwr, 1871, 'Dafodaeth,' 105.
266. Y Dysgedydd, Appledora T.S., 1846, 147.
267. Y Dysgedydd, 1867, 27-28.
268. Y Dysgedydd, 1874, 'Epayddiaeth mewn Crefydd,' 230.
269. Y Cylchgrawn, 1871, 112.
270. Lewis Edwards, Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 599, Am Olyniaeth Apostolaidd gw., Y Drysorfa, 1848, 344-45, Ibid., 1855, 190-92, Y Greal, 1852, 34-5, Y Cronicle, 1878, 239, Y Dysgedydd, 1844, 'Olyniad Apostolaidd', 272, 332-335, Ibid., 1845, 13-16, Ibid., 1855, 99, Ibid., 1856, 193, W.J.Owen, Cyfrol Goffa am y Parchedig John Phillips Bangor, (Caernarfon, 1912), 75-80, Lewis Edwards, Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 599.
271. Y Cylchgrawn, 1871, 114.
272. Y Dysgedydd, 1844, 273.
273. Y Dysgedydd, 1839, 289.
274. Y Dysgedydd, 1849, 140.
275. W.J.Owen, Cofiant y Parchedig John Phillips Bangor, (Caernarfon, 1912), 64-65.

276. Y Dysgedydd, 1848, 78-80. Dywed R.Mehl, "The sect, following the free churches, denounced every alliance with the state, every concordat, as sin itself, as a form of prostitution, as an intrusion of the lost world into the bosom of the community of the redeemed." SP, 243.
Am Datgysylltiad gw., Lewis Edwards, Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 'Yr Eglwys a'r Wladwriaeth,' 93-112, Y Dysgedydd, 1830, 276, 355, Ibid., 1834, 335-37, Ibid., 1844, 21, 236, Ibid., 1845, 4-6, 102, Ibid., 1847, 358-360, Ibid., 1848, 48-50, 78-80, Ibid., 1849, 140-43, 175-177, 206-07, Ibid., 1852, 44, Y Diwygiwr, 1852, 'Ymddiddanion Teg Rhwng Ymneillduwr ac Eglwyswr,' 334, Ibid., 1853, 'Yr Eglwys Sefydledig,' 212, Ibid., 1874, 'Tystiolaeth Hanesyddiaeth i Niweidiau Crefydd Sefydledig,' 307, Y Cronicle, 1851, 'Cysylltiad yr Eglwys a'r Llywodraeth,' 268, Ibid., 1863, 'Crefyddau Sefydledig ac Ymneilltuaeth,' 322, Ibid., 1864, 134, Ibid., 1865, 325.
277. Y Dysgedydd, 1839, 289.
278. Gw., T.Davies, Bywyd ac Ysgrifeniadau y Diweddar Barch.D.Rees, Llanelli, (Llanelli, 1871), 378-399.
279. Lewis Edwards, Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad), 112.
280. Y Dysgedydd, 1849, 207.
281. R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 179.
282. H.Jones, Cofiant y Parch.W.Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), 158.

Adran 4: Y Cyfnod Allweddol.

Pennod 22. Safon Derbyn.

Rhwng 1840 a 1870 bu nifer o ddatblygiadau a oedd yn allweddol yn y symudiad oddi wrth yr ymarweddiad a'r meddylfryd disgybledig sectyddol tuag at yr ymddygiad a'r agwedd oddefol enwadol. 'Roedd nifer o'r datblygiadau hyn yn cyd-ddigwydd, rhai ohonynt yn effeithio ar ei gilydd ac eraill yn ganlyniad i symudiadau a gychwynnodd yn gynt yn y ganrif. Yn ogystal â hyn, yn y cyfnod hwn fe gychwynnodd rhai tueddiadau a gyfrannodd yn nes at ddiwedd y ganrif tuag at enwadaeth. Mewn gair, proses graddol a chymhleth oedd y symudiad tuag at enwadaeth, nid rhywbeth a ddigwyddodd ar drawiad amrant, ac am gyfnod maith 'roedd elfennau sectyddol ac enwadol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd o fewn i'r Cyrff. Yn y bennod hon fe edrychwn ar rai o'r prif ddatblygiadau gan sylwi ar eu cyfraniad i'r symudiad ymhlith Ymneilltuaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg tuag at enwadaeth.

Newid yn y Ddisgyblaeth.

Un newid pwysig, os nad y pwysicaf, y gellir ei weld yn glir yw'r newid a fu yn natur ac ansawdd y ddisgyblaeth. Mae arwahanrwydd y sect oddi wrth y byd yn dibynnu i raddau helaeth, os nad yn llwyr, ar y ddisgyblaeth. Yn y cyswllt hwn y mae dylanwad disgyblaeth yn bwysicach na dylanwad diwinyddiaeth ac athrawiaeth, (h.y. os yw'n ymarferol bosibl gwahanu diwinyddiaeth oddi wrth ddisgyblaeth; oherwydd yn aml mae natur y ddisgyblaeth yn dibynnu ar y ddiwinyddiaeth a goleddir gan Gorff). Unwaith y mae'r ddisgyblaeth yn llacio a'r aelodau'n gwrthod plygu iddi, yna mae agweddau bydol yn hydreiddio'r gymdeithas fewnol.

Ymhob sect y ddisgyblaeth yw'r gwrthglawdd yn erbyn y byd a'i ddylanwad. Dyma sy'n atal dylanwad allanol gan gadw'r gymdeithas fewnol yn

bur a dilychwin; dyma sy'n atal bydolrwydd, materoliaeth a seciwlariaeth; dyma sy'n cadw pobl anaddas allan; dyma sy'n cadw safonau moesol uchel; dyma sy'n cadw rheolaeth ar yr aelodau fel eu bod yn wahanol i'r byd. Y gwir yw pe bai sect yn llwyddo i gadw ei disgyblaeth ddechreuol yn dynn a manwl, gallai barhau fel sect yn ddi-ddiwedd heb ddatblygu i fod yn gorff o fath gwahanol. Gallai ei phwyslais diwinyddol newid a natur ei haelodaeth, ond tra daliaf'r ddisgyblaeth mewn grym, fe barhâf'r sect fel sect. Felly, mae datblygiad y ddisgyblaeth yn hanfodol i'n hastudiaeth, ac yn arbennig y pethau hynny a effeithiodd ar y ddisgyblaeth gan ei herydu a'i gwanychu.

Gallwn ddostrannu'r newidiadau a fu yn y ddisgyblaeth yn ystod y ganrif yn fras i ddwy ran, sef llacio yn y safonau wrth dderbyn aelodau newydd a lleihad cyffredinol yn nwyster a llymder y ddisgyblaeth.

Un peth a fu'n gyfrifol am y llacio yn y ddisgyblaeth oedd yr awydd cynyddol ymhlith y Cyrff Ymneilltuol i achub eneidiau ar raddfa eang ac ychwanegu at eu niferoedd. Hwyrach fod hyn yn ymddangos yn elfen annisgwyl, ond fe all cenhadu mewn rhai amgylchiadau fod yn fodd i wanychu nodweddion sectyddol yn hytrach na'u cryfhau. Fe ddywed R. Mehl,

"A Sect progresses towards the status of church when it becomes missionary. Obviously, every sect seeks to recruit new members by means of a certain propaganda. But this recruiting action should be distinguished from mission properly called. Mission addresses itself to non-christians and from this act it does not consider its essential task to be one of entering into competition with other churches. Its common task with other churches is to make the gospel known, however much it be under a slight, particular form. The sect which becomes missionary recognizes that there is a more fundamental task than polemic and competition with other Christian churches. Thus it complies with the understanding of the church, if it is true that the essence of the church is to be missionary." « 1 »

Ac fe ddywed B. Wilson,

"The principal tension between the demand for separateness and other sect values arises in the injunction, accepted by many sects, to go out and preach the gospel. Evangelism means exposure to the world and the risk of alienation of the evangelising agents....."⁽²⁾

Y mae cenhadu ar raddfa eang yn agor y sect i'r byd ac i ddylanwadau allanol ac fe all hyn beri symudiad tuag at ymarweddiad mwy goddefol tuag at aelodau newydd a hyd yn oed tuag at "y byd" ei hun.

Derbyn Aelodau.

Fe edrychwn yn awr ar y newid a fu yn y dull o dderbyn aelodau newydd i mewn i'r Cyrff. Yn ystod y ganrif yn raddol disodlwyd yr hen ddull pwylllog o dderbyn ymgeiswyr i gyflawn aelodaeth drwy eu haddysgu a'u rhoi ar gyfnod o brawf, gan ddull o dderbyn aelodau'n sydyn wedi iddynt wneud proffes.⁽³⁾ Newid oedd hwn a ddigwyddodd dros gyfnod hir o amser.

Fel y crybwyllwyd eisoes - yn yr adran ar bregethu - daeth newid sylfaenol yn y dull o annog pobl i gyflwyno eu hunain i'r Arglwydd. Ar ddechrau'r ganrif pwysleisid pwyll a gochelid rhag derbyn pobl anaddas yn aelodau oherwydd effeithiau teimladrwydd yn unig. Rhoddid amser i ymgeiswyr ystyried oblygiadau dyfod yn Gristion cyn cyflwyno eu hunain yn aelodau eglwysig. Ond gyda'r pregethu cymelliadol a ddatblygodd rhoddid llawer mwy o bwysau ar y gwrandawyr i dderbyn Crist a chyflwyno eu hunain yn aelodau. Symudodd y pwyslais i raddau oddi wrth dderbyn Crist tuag at ddod yn aelod o'r eglwys.⁽⁴⁾

Y dull a fabwysiadwyd fwyfwy yng Nghymru wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen oedd "tynnu'r rhwyd" ar derfyn gwasanaeth, dull a gyrhaeddodd ei anterth yn Niwygiad 1859. Ystyr "tynnu'r rhwyd" oedd galw ar derfyn gwasanaeth ar i'r gwrandawyr a oedd wedi credu o'r newydd yn yr Arglwydd Iesu i aros ar ôl.⁶ Er mai Humphrey Jones⁶ a Dafydd Morgan⁷ oedd y meistri wrth y gwaith hwn rhaid cofio fod y dull wedi hen ennill ei blwyf yng Nghymru cyn eu dyfodiad hwy fel diwygwyr. Yn ôl J.I. Packer, Charles G. Finney a greodd y dull hwn o efengylu.

"This type of evangelism was invented by Charles G. Finney in the 1820's. He introduced the 'protracted meeting' (ie, the intensive evangelistic campaign), and the 'anxious seat', forerunner of the counselling room, a front pew left vacant where at the meeting's end 'the anxious may come and be addressed particularly...and sometimes be conversed with individually'. In closing his mission sermons, Finney would say, 'There is the anxious seat; come out, and avow determination to be on the Lord's side.'"⁸

Dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, fod John Elias o Fôn yn condemnio cymell yn llwyr ac yn gyfan gwbl, gan ei alw'n "ysfa gnawdol o geisio myned a gwaith yr Ysbryd Glân yn nychweliad pechadur o'i law."⁹ Bu farw John Elias ym 1841 ac felly 'roedd yr arfer yn lled gyffredin cyn hynny. Cyfeiriai Robert Ellis hefyd iddo glywed sôn am William Morris, Cilgerran,¹⁰ yn pregethu'n eglwys Jewin Crescent, Llundain, oddeutu 1829 ac ar derfyn y gwasanaeth yn cymell y gwrandawyr i roi eu hunain i Grist.¹¹ Os gwir hyn golygai'r ffaith hon un o ddau beth. Un ai fod syniadau Finney wedi dod dros yr Iwerydd o'r America yn aruthrol o sydyn drwy lythyrau neu drwy dafod leferydd teithwyr, gan na ddaeth ei Lectures on Revivals and Religion o'r wasg hyd 1835.¹² Neu, yn ail, fod yr arfer wedi cychwyn ar yr un pryd ar ddau gyfandir. Digwyddodd yr un peth mewn diwygiad yng Nghapel Helyg, Llangybi, ym 1840. Ar derfyn cyfarfod yn y

flwyddyn honno tynnwyd y rhwyd a daeth 80 ymlaen fel ymgeiswyr am aelodaeth yn yr eglwys. "13"

Cafwyd enghraifft arall o hyn ym 1848 pan oedd John Thomas, Lerpwl, yn weinidog ym Mwlchnewydd. Yn ei atgofion mae John Thomas yn disgrifio'r hyn a ddigwyddai ar derfyn gwasanaeth.

"Gelwais gyfeillach ar ol nos Sabboth, a dymunais ar i bawb oedd ag awydd crefydd arnynt aros ar ol. Ond ni symudodd neb o'i le. Gofynais eilwaith, ond ni symudai neb o'i fan. Ceisiais gan y rhai oedd am grefydd ddôd yn mlaen, ond ni ddeuai neb. Ni wyddwn beth i wneyd, ac yr oedd yno bawb, erbyn hyn, mewn rhyw deimladau dyeithr iawn. Pa fodd bynag, wrth weled pethau felly nid oedd dim i'w wneud ond gollwng y dyrfa ymaith ar ol apelio yn ddifrifol atynt ar iddynt roddi eu hunain i'r Arglwydd yn bersonol cyn myned i orphwys y noson honno." "14"

Y nos Lun ddilynol bu cyfarfod pregethu arall ac ar derfyn y gwasanaeth galwodd John Thomas gyfeillach eto.

"Ar y diwedd gelwais gyfeillach, ond fel y nos Sabboth blaenorol, ni syflai neb o'i le. Rhoddais ail gynyg, ond ni symudai neb. Dywedais o'r diwedd nad ymadawem y noson honno nes gweled pwy oedd o du yr Arglwydd, a chymhellais hwy i dori drwyddi. Ar hynny, dyma fachgen ieuanc, mab i un o'r diaconiaid, yn dyfod allan o'r sêd oddiwrth ei fam, ac i'r sêd fawr. Nid cynt y symudodd nad oedd dau neu dri eraill yn ei ddilyn, ac eraill drachefn yn canlyn. Dechreuodd rhai ar yr oriel symud. Yr oedd y grisiau o'r tu allan, fel yr oedd yn rhaid iddynt fyned allan, ac i mewn trwy y drws i'r llawr; ond gwelid hwy yn dylifo i mewn, ac yr oedd llawenydd mawr, yn enwedig llawenydd rhieni wrth weled eu plant yn rhoddi eu hunain i'r Arglwydd. Ond nid oedd y rhai nad oeddynt yn dyfod yn mlaen yn myned ymaith, eithr arhosit yno i weled y diwedd.....Gwnaeth o haner cant i driugain broffes o Grist y noson hono. Buom yno nes yr oedd yn agos i haner nos." "15"

Profodd tynnu'r rhwyd yn ddull effeithiol, a fendithiwyd yn helaeth, o gael aelodau newydd i'r eglwysi, ac fe welwn oddi wrth y dystiolaeth uchod iddo fod yn arfer lled gyffredin ers yn gynnar yn y

ganrif, ac iddo gychwyn yn bell cyn diwygiad 1859. Ond nid y ffaith fod tynnu'r rhwyd yn digwydd yw'n diddordeb ni yn bennaf yn y fan hon, ond yn hytrach y newid a fu wrth dderbyn aelodau newydd. Y cwestiwn pwysig yw pa bryd yr oedd ymgeiswyr yn dyfod yn gyflawn aelodau, ai yn syth ar ôl gwneud proffes, ynteu a adawyd cyfnod o brawf rhwng gwneud proffes a'u derbyn yn gyflawn aelodau? Yn ddigwestiwn bu Diwygiad 1859 yn fendithiol iawn i'r Cyrff Ymneilltuol, gan ddod â llawer i adnabod y Gwaredwr. Ond ai un o wendidau'r diwygiad hwn oedd fod safon derbyn aelodau o'r byd i'r eglwys wedi gostwng yn y gwres emosiynol?

Yn Niwygiad 1859 daeth tynnu'r rhwyd i fri newydd o dan arweiniad medrus Humphrey Jones a Dafydd Morgan. Llwyddodd y ddau ddiwygiwr yma i berffeithio'r grefft. Daeth y drefn a fabwysiadwyd ganddynt yn y cyfarfodydd diwygiadol i'w hadnabod wrth yr enw "pregeth ddwbl." Pregethid i ddechrau o'r pulpud, ac yna ar derfyn y gwasanaeth deuid i lawr i'r sêd fawr gan roi pregeth fer yn ymbil ar y gwrandawyr i roi eu hunain i'r Arglwydd.¹⁶ Nid oedd ffurf osodedig o wneud hyn; byddai'n amrywio o le i le. Mewn rhai cyfarfodydd gelwid ar y dychweledigion i ddod ymlaen un ai i'r sêd fawr neu i fainc yn nhu-blaen y capel.¹⁷ Yn Nhre'r-ddol gofynnai Humphrey Jones i'r dychweledigion godi eu dwylo.¹⁸ Yn Ysbyty Ystwyth gofynnodd iddynt benlinio ac offrymu gweddi.¹⁹ Ym Mhen-y-bont, Morgannwg, gorchynnodd Dafydd Morgan i ddilynwyr Iesu fynd ar eu gliniau a dilynwyr Baal i fynd allan o'r capel.²⁰ Mae'n bur debygol fod yr oedfaon hyn yn rhai dramatig iawn a phwysau emosiynol mawr - yn gam neu'n gymwys - yn cael ei roi ar bobl i dderbyn Crist.

Yr hyn sy'n anodd iawn i'w ganfod yw a oedd y dychweledigion yn cael eu derbyn yn y fan a'r lle yn aelodau eglwysig cyflawn. Mae'r awgrym

yn gryf fod llaweroedd yng ngwres y Diwygiad wedi eu derbyn yn syth heb unrhyw ragbaratoad, dan wres teimlad. Cwynai Glan Alun⁽²¹⁾ ar ôl iddo fod mewn cyfarfod yn ystod Diwygiad '59, na "chanwyd pennill yn y diwedd, ac felly nid oedd un line wedi ei gosod i nodi allan y terfyn rhwng y cyfarfod cyffredinol a'r cyfarfod eglwysig; ac yna arosodd pawb i mewn yn synedig, ac mewn awydd i weled y diwedd."⁽²²⁾ Mewn geiriau eraill 'roedd y cyfarfod cyhoeddus yn troi'n gyfarfod eglwysig heb roi cyfle i neb ymadael. Cofiai Glan Alun iddo hefyd fod mewn oedfa yng Ngharneddi, Bethesda, yn ystod Diwygiad 1859, lle yr arhosodd 17 o'r newydd. Gofynnodd y pregethwr a arweiniai i'r gynulleidfa, "Tybed a allwn ni fentro cymaint a hyn o bechaduriaid mawrion at Iesu Grist ar unwaith?" Atebodd y gynulleidfa'n gadarnhaol a derbyniwyd y dau ar bymtheg trwy i'r aelodau godi eu dwylo.⁽²³⁾ Os gwir hyn, golygai fod drysau'r eglwysi wedi eu hagor yn lletach nag erioed o'r blaen yn hanes Ymneilltuaeth Cymru ac 'roedd i'r datblygiad hwn ganlyniadau pell-gyrhaeddol.

Pennod 23. Anfodlonrwydd ac Amheuan.

Ffaith arall a ddengys fod newid pendant wedi digwydd yn y dull o dderbyn aelodau yw fod rhai o ysgrifennwyr y cyfnod yn mynegi cryn anfodlonrwydd o'r arfer newydd o dderbyn aelodau'n sydyn. Credai rhai y dylid arholi ymgeiswyr yn llawer manylach cyn eu derbyn yn gyflawn aelodau. Yn ei araith "Yr Amserau Presennol", a draddododd yng Nghwrdd Chwarter Caerfyrddin, yn Abergorlech Hydref 29, 1851, pryderai Joshua Lewis fod dirywiad amlwg yn nisgyblaeth yr eglwysi ac fe gyfeiriai at dri pheth yn arbennig a'i blinai.

Yn y lle cyntaf credai fod disgyblaeth bersonol aelodau'n cael ei hesgeuluso. Meddai, "Nid oes gwyliadwriaeth fanol yn cael ei chadw ar agwedd ysbrydol yr aelod. Ni sylwir yn ddigon craffus ar arwyddion oerfelgarwch a dirywiad ysbrydol, ni wneir ymchwiliad i'w hachosion, ac ni ddefnyddir moddion i adferu yr enaid a'i adfywio. Gall llawer sydd yn awr ar dir gwrthgiliad dystio, na chawsant gynghor, cyfarwyddyd, na rhybydd gan aelod, swyddog, na gweinidog, er eglured oedd yr arwyddion o'u dirywiad ysbrydol."²⁴ Yn ei dyb ef felly nid oedd digon o sylw yn cael ei roddi i gyflwr ysbrydol yr aelodau.

Yn ail pryderai fod ffafriaeth yn codi ei ben ac awgrymai fod rhai swyddogion yn ofni disgyblu rhag sathru ar gyrn teuluoedd dylanwadol. Gofynnai'r cwestiwn, "A weinyddir cyfiawnder ar y draul o ddigio y teuluoedd cyfoethog a chyfrifol?" Wrth ateb ei gwestiwn ei hun fe awgryma fod hyn yn digwydd hwnt ag yma. Dywed, "Os na wneir, bydd yr eglwys yn dangos nad yw ei chalon ond llawn o dwyll a rhagrith. Ond dywedir, 'Byddir mewn perygl o rwygo yr eglwys, ac onid gwell gwyro ychydig oddiwrth y gwir er mwyn cadw tangnefedd?' 'Rhwygo yr eglwys.' Onid trugaredd fyddai cael

gwared o'r teuluoedd hynny, pa mor gyfrifol bynag y byddont, os na fedrant weinyddu cyfiawnder? Rhaid i'r eglwys fod yn gyfiawn ac amhleidiol, cyn y bydd i'r Ysbryd Glân wneuthur ei breswylfod ynddi."²⁵ Gwelir yma fod pwysau allanol yn dylanwadu ar ymddygiad mewnol y Cyrff, a bod swyddogion wedi dechrau mynd i feddwl am oblygiadau ariannol colli rhai teuluoedd o'u mysg. Fe ddeuwn yn ôl at y pwynt hwn eto.

Y trydydd peth a'i gofidiai oedd fod eglwysi'n mynd yn llac wrth dderbyn aelodau newydd i'w cymdeithas gan ostwng eu safonau. Mae'n cynghori ei ddarllenwyr gan ddweud y dylid "ymofyn yn fwy manol i sefyllfa ysbrydol y rhai a dderbynir yn aelodau i'r eglwys." Oherwydd yn ei dyb ef 'roedd "drws yr eglwys yn llawer rhy lydan yn yr oes hon" a bod angen ei gyfyngu. "Dylid gwneuthur drws yr eglwys, mor bell ag y gellir ei fesur wrth y Gair, o'r un lled ac o'r un uchder a drws y nefoedd. Ni ddylai neb ond credinwyr gael eu derbyn yn aelodau o'r eglwys. Nid lle i wneuthur y drwg yn dda, ond lle i wneud y da yn well ydyw."²⁶ Mae'r geiriau hyn yn ddadlennol oherwydd mae'n amlwg y teimlai Joshua Lewis fod anghredinwyr yn treiddio i mewn i gymdeithas fewnol y Cyrff. Credai ymhellach mai bai y Cyrff eu hunain oedd hyn gan nad oeddent yn holi ymgeiswyr yn ddigonol cyn eu derbyn. Cwynai mai dim ond yn gyhoeddus yn y "society" yr oedd yr eglwysi'n holi'r ymgeisydd, ac nad oedd holi ar lefel unigol, bersonol yn digwydd. "Nid y gyfrinach eglwysig ydyw y lle i fyned i mewn i galon yr ymgeisydd, a chael ei deimlad allan.....Yn y gyfrinach bersonol y mae myned i'r fynwes; yno y ceir cyfleusdra i'w dwyn i'r golau." Ac fe ychwanega y sylw arwyddocaol, "Edrychir ar y gofyniadau a roddir yn y society i raddau fel ffurf, ac y mae'r atebion fynychaf o'r un natur."²⁷ Hynny yw yn ôl Joshua Lewis 'roedd pobl mewn rhai eglwysi'n cael eu derbyn mewn ffordd gwbl

ffurfiol a defodol, arwydd pendant fod y Cyrff yn colli peth o'u dwyster dechreuol.

Yn wir 'roedd derbyn aelod yn gallu bod mor ffurfiol erbyn 1851 fel y gallai Joshua Lewis ddweud, "Cyfeiriwyd yn barod at y ffaith fod llawer yn cael eu derbyn heb fod neb o'r aelodau yn siarad gair yn bersonol â hwy, er cael cyfleusdra'n aml i wneuthur hyny. Amlygant eu cymeradwyaeth o honynt ar y cyfarfod "paratoad", a'u bodlonrwydd i'w derbyn i'r eglwys, heb eu bod yn gwybod dim am eu teimladau, nac yn gofalu nemawr yn eu cylch. A all eglwysi o'r ysbryd hyn fod yn gweddio dros y rhai sydd yn ymofyn "lle yn y tŷ?"⁽²⁸⁾

Wrth derfynu, ychwanegai fod yr eglwysi'n euog o dderbyn rhai cwbl anaddas i'w plith dan y rhagdybiaeth y gellid bob amser eu torri allan. "Fel esgus dros dderbyn rhai lled amheus i mewn, dadleuir y gellir eu tori allan, 'os na ddygent ffrwythau addas i edifeirwch.' Ond gellir tybied ei bod yn hawddach i'w cadw allan na'u troi allan; a gellir ychwanegu, yr eglwys sydd yn ddiotal yng nghylch cymeriad y rhai a dderbynia i'w chymundeb, sy'n ddiotal hefyd ynghylch y rhai a geidw....."⁽²⁹⁾ Felly mae'n amlwg fod Joshua Lewis yn pryderu'n fawr am y dirywiad a welai ef yn safon y ddisgyblaeth, ei bod yn llac, aneffeithiol a ffurfiol mewn amryw o eglwysi.

Gwelwyd y ddau ddull o dderbyn aelodau, yr hen a'r newydd, yn dod ben-ben â'i gilydd yn yr hanes enwog am Dafydd Morgan a John Jones, Blaenannerch.⁽³⁰⁾ 'Roedd John Jones, Blaenannerch, ar ddechrau'r cyffroad yn bur amheus o Ddiwygiad '59 ac o'r arfer newydd o bwysu ar bobl i greu. Mewn Cwrdd Misol ym Mlaenannerch gofynnodd John Jones i Dafydd Morgan,

"Beth sy'n bod, Dafydd bach, beth sydd wedi dwad drostot ti, machgen i?.....Beth yw'r hel pobl yma i'r seiat wyt ti'n wneud, heb roi amser iddynt i gysidro a bwrw'r draul, cyn dechreu adeiladu?" Ymatebodd Dafydd Morgan gyda'r cwestiwn, "faint o amser ddylai pechadur gael i gysidro, Mr. Jones?" Atebodd John Jones, Blaenannerch, "Dyw mis yn ddim gormod i gysidro peth mor bwysig." A dywedodd Dafydd Morgan, "Wel, wel! 'heddyw' medd Ysbryd Duw; 'yfory' medd y diafol; ond 'fe wneiff y tro ymhen mis,' medd yr efengylydd o Flaenannerch."³¹ Dengys yr hanes hwn fod yr hen ddull o dderbyn aelodau yn llawer mwy pwyllog a gofalus na'r drefn newydd. Gwelwn hefyd fod anfodlonrwydd ymhlith rhai oherwydd fod aelodau'n cael eu derbyn heb "fwrw'r draul." Ac nid John Jones, Blaenannerch, oedd yr unig un i leisio pryder ynglŷn â hyn. Yn ei ysgrif "Tridiau yn Llandrindod," yn Y Traethodydd (1859), dywed Glan Alun, "fod y fath arfer (h.y. derbyn aelodau yn y fan a'r lle) yn beryglus i enw da crefydd, yn gymaint ag mai nid mewn wythnos, nac mewn mis, y gellir adnabod pa un ai cyffröad tymher ai newidiad egwyddor a ddygodd y proffeswyr newydd i mewn i'r eglwys."³²

Wrth fwrw trem yn ôl dros Ddiwygiad '59 dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon,

"Eithr bu y wedd gymhelliadol hon drachefn yn destyn llawer o feirniadu a beio. Dywedid y pryd hyny, a dywedir gan lawer eto, mai perygl y dull hwn o gymhell dynion at grefydd, ys dywedir, yw dangos yr eglwys iddynt yn lle Crist, a rhoddi yr un cyffelyb bwys ar broffesu Crist ag ar gredu ynddo. A dywedid mai llawer diogelach a fuasai cyfeirio dynion deffrous at Grist fel yr unig noddfa i bechadur colledig, a gadael iddynt hwy eu hunain benderfynu y cwestiwn o broffesu Crist mewn pwyll ac wedi bwrw y draul. A dyma hefyd dybygid oedd syniad yr hên Fethodistiaid ar hynyma.

Mae yn ddiôs fod y cymhell hwn ar ddynion i wneyd proffes o grefydd, fel y dywed Gurnal, am "weddi anghyffredin," yn arf peryglus - yn galw am lawer o ddoethineb pa fodd a pha bryd i'w ddefnyddio. Mae perygl o'r ddeutu. Mae yn fwy na thebyg y byddai y brodyr anwyl ar adegau, yn eu gor-awydd i chwaneu dychweledigion, yn cario y cymhell hwn braidd yn rhy bell, ac felly yn y perygl o bacio dynion i fyny mewn proffes o grefydd

heb ei bywyd.... Barnai y brodyr wrth arfer y dull cymhelliadol hwn i gael dynion at grefydd, y gallai hyn fod hefyd yn foddion llwyddiannus i'w cael at Grist, megys y caed aneirif brofion yn hanes ein Cyfundeb." (33)

Nid oedd W. Roberts, Amlwch, ychwaith yn gwbl hapus gyda'r datblygiadau yn Niwygiad '59. Ysgrifennodd yn Rhagfyr 1859 at ei nai Mr. Hughes, Gaerwen, yn mynegi rhai o'i ofnau.

"Deallaf fod yr adfywiad crefyddol yn daenedig drwy y sir, a'r ychwanegiadau at yr eglwysi yn lluosog iawn, ac felly yn ein gosod mewn amgylchiad ag y mae arnom fwy o angen am arweiniad Ysbryd yr Arglwydd er gwybod pa fodd i ymddwyn yn nhy Dduw na chynt; canys y mae yn anhawdd gwybod pa beth a ddylai Israel ei wneuthur, yn gymaint a bod cymysgedd lawer yn mhlith yr ymgeiswyr sydd yn troi eu hwynebau ar ein heglwysi, drwy fod y nifer fwyaf o honynt yn dyfod o'r dosbarth mwyaf anwybodus." (34)

Credai W. Roberts mai'r ateb i'r broblem oedd "ffurfio cyfarfodydd i'w catecísio er amcanu eu hegwyddori mewn gwybodaeth o'r gwirionedd, a'u hyfforddi at fucheddu yn grefyddol, er fod hefyd yn eu plith lawer y gellir coelio am danynt bethau gwell." (35) Yn gynt yn y ganrif digwyddai hyn yn ddi-ffael cyn i bobl ddod yn gyflawn aelodau.

Ofnai John Thomas, Lerpwl, y byddai llawer yn gwrthgilio ar derfyn y cyffroadau ym 1859, a dywed ei gofiannydd fel hyn amdano.

"Ystyriai fod perygl mawr i lawer o'r dychweledigion wrthgilio ar ol i'r cyffroad dawelu ac i'r teimladau oeri. Ni cholodd un cyfle i alw sylw yr eglwysi at y cyfrifoldeb a orphwysai arnynt i geisio atal y cyfryw drychineb. Paratôdd bregeth uniongyrchol ar y mater oddiwrth Actau 16:22, - yr hon a ymddangosodd yn yr Annibynwr - Nodwedd y Weinidogaeth Gyfaddas i Ddychweledigion Ieuanc - Sefydlu eu golygiadau yn egwyddorion crefydd - cryfhau eu penderfyniadau yn eu proffes o grefydd - a chymedrolí eu dysgwyliadau oddiwrth grefydd. Ystyriai hefyd mai un moddion effeithiol i gadw dirywiad draw ydoedd cadw eglwys mewn llawn waith." (36)

Yn yr un modd, teimlai John Evans, Eglwys-bach, yr angen am hyfforddi dychweledigion ym 1874.

"Tra yn llawenyachu yn yr olwg ar luosogrwydd yr ymofynwyr am iachawdwriaeth yn y Victoria Hall a manau eraill, yr oedd yn effro i'r angenrheidrwydd am i'r eglwysi a'u bugeiliaid wneyd eu rhan i'w hyfforddi a'u sefydlu er mwyn osgoi ymollyngiad. Credai mai un cynorthwy i gyraedd yr amcan hwn ydoedd cyfeirio meddylliau dychweledigion ieuainc at y posibilrwydd i gredinwyr dd'od i feddiant o dystiolaeth yr Ysbryd Glân i'w mabwysiad. Oddiar argyhoeddiad o hyn cyhoeddodd bregeth Seisnig ar "Dystiolaeth yr Ysbryd," yn llyfryn wythplyg. Gan faint ei awydd i beidio ymddangos yn hyfdybus, ni chysylltodd ei enw priodol â'r bregeth, ac am flynyddoedd lawer nid oedd ei hawduriaeth yn wybyddus y tuallan i gylch tra chyfyng o'i gyfeillion." (37)

Ym 1861 ymddangosodd erthygl ddiddorol yn Yr Annibynwr, gan Josiah Jones, Machynlleth, (38) yn codi cwestiynau ynglŷn â'r diwygiad. Ofnai ef fod perygl i'r eglwysi, mewn cyfnod o adfywiad, agor drws aelodaeth yn rhy llydan.

"Mewn adeg o gyffroad crefyddol, mae crefyddwyr yn cael eu meddianu yn fawr gan awydd a hiraeth am achubiaeth pobl eraill. A phan welont rai yn dyfod i mewn i'r gyfeillach, bydd eu llawenydd a'u gorfoledd mor fawr fel na feddyliant fawr am brofi ymgeiswyr. Pan yn clywed drws yr eglwys yn cael ei guro, rhedant mewn gorfoledd i'w agor yn union, heb ymholi fawr pa un ai plentyn ai lleidr sydd wrtho. Nid ydwyf yn awgrymu y dylai eglwysi fod yn orfanwl, fel ag i fod mewn perygl i gau un ymgeisydd gwirioneddol allan, ond, y mae yn ddiâu, nad oes ganddynt hawl i dderbyn i'w plith heb eu profi yn gyntaf. Os nad ydyw pobl dduwiolaf yr eglwys yn clywed llais plentyn gan yr ymgeisydd, dylid bod yn dra gochelgar cyn rhoddi cyflawn dderbyniad iddo. Mae perygl i'r ymgeisydd ei hun, ac i'r eglwys hefyd, iddo gael ei dderbyn i mewn. Oblegyd iddo deimlo rhyw gynhyrfiad yn ei feddwl mewn adeg o ddiwygiad, ac oblegyd iddo gael ei dderbyn yn gyflawn aelod yn gysylltiedig a'r cynhyrfiad hwnw, mae llawer un wedi dyfod i ddweud wrth ei enaid ei hun, "heddwch, heddwch, pryd nad oes heddwch." (39)

Teimlai Josiah Jones fod perygl mawr mewn derbyn aelodau anaddas oherwydd y byddai hynny'n anochel yn arwain at dyndra o fewn yr eglwysi, drwy i'r Cristnogion ymroddedig gael eu boddi gan y newydd ddyfodiaid.

"Os yn y lleiafrif y byddent, caiff pobl ddifrifol a duwiol yr eglwys deimlo eu bod yn dalpau meirwon, yn gorwedd bob amser ar eu llwybrau, pan yn ceisio dilyn yr hyn sydd yn dda. Ac, o'r tu arall, os byddant yn y mwyafrif dygant amcanion bydol a llygredig i mewn i'r eglwys, a thynant gynlluniau amheus os nad pechadurus, er eu cyrhaedd....Os bydd y dosbarth y soniwyd amdano oddeutu yn gyfartal mewn rhifedi a dylanwad ar y llall, gallwch ddisgwyl yn yr eglwys hono doraeth o ymrysonau ac ymladdfeydd." <40>

Tybed a oedd y geiriau uchod yn rhai proffwydol am yr hyn oedd i ddigwydd wrth i'r ganrif ddirwyn i ben? Byddai'n ddiddorol gweld a oedd cynnydd yn y nifer o gapeli "sblit" yn ail hanner y ganrif. Oherwydd mae'r pwynt fod y rhai a oedd yn cael eu derbyn yn aelodau yn newid natur eglwysi gan ddwyn "amcanion bydol a llygredig i mewn i'r eglwys," yn un allweddol. Erbyn Diwygiad 1904-05 'roedd y duedd hon o dderbyn aelodau yn y fan ar lle yn gwbl amlwg, fel y tystia R. Tudur Jones,

"Anodd iawn i'r eglwysi hyn oedd hyfforddi a chymhwyso pobl ar gyfer bod yn aelodau gwasanaethgar a deallus yn yr eglwysi. Ar ben hynny, yr arfer gyda phob enwad oedd derbyn dychweledigion y Diwygiad heb unrhyw baratoi arnynt. Ar sail eu profiadau tanllyd derbynid hwy fwy neu lai ar unwaith yn gyflawn aelodau. Yr oedd hyn yn wendid mawr ac yn gamgymeriad costus a oedd i ddrygu'r eglwysi yn y dyfodol fel cancr. Ond wedyn, yr oedd yr hen arfer o hyfforddi darpar aelodau'n ofalus a'u cadw ar brawf yn hir yn darfod ymhell cyn hyn. Yn niwygiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni ddychmygai gweinidogion dderbyn pobl yn unig ar sail eu teimlad gorfoleddus mewn oedfa. Y drefn oedd annog y dychweledigion i wneud cais i'r seiat (gyda'r Methodistiaid) neu i'r cyfarfod eglwys (gyda'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr) am aelodaeth a rhoddai hyn gyfle i weld a oedd eu hargyhoeddiad yn ddilys ynteu'n ffug." <41>

Gallwn ddweud yn bendant fod safonau derbyn aelodau newydd wedi gostwng yn ail hanner y ganrif a bod canlyniadau niferus i'r datblygiad

hwn. Nid oedd yr aelodau newydd mor ddisgybledig a chaeth yn eu golygiadau â'r aelodau gwreiddiol. Nid oeddent wedi eu trwytho i'r un graddau mewn diwinyddiaeth ag aelodau hŷn. Oherwydd nad oeddent yn cael eu holi gyda'r un manylrwydd ag yn y gorffennol, 'roeddent yn cario llawer o agweddau bydol i mewn i'r eglwysi, gan leihau y gwahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd. Ceid hefyd bobl yn llithro i mewn i'r eglwysi nid oherwydd fod ganddynt unrhyw argyhoeddiadau Cristnogol arbennig, ond oherwydd eu hawydd am addysg; er mwyn cael manteision cymdeithasol bod yn aelod eglwysig, e. e., Ysgol Sul, ysgol gân, darlithiau, cyngherddau; er mwyn cael gwaith; er mwyn cael statws a hyd yn oed er mwyn cael gŵr neu wraig. Parai presenoldeb pobl o'r fath lacio pellach ar y ddisgyblaeth, drwy iddynt yn raddol gael eu dwylo ar yr awenau a dylanwadu ar yr aelodau gwreiddiol. Pen draw hyn oedd fod y broses o dderbyn aelodau'n troi yn fwy ffurfiol byth. 'Roedd fel cylch di-dor gyda phob ton o aelodau newydd, wrth iddynt sefydlu a chael eu dyrchafu'n arweinwyr, yn llacio ychydig mwy ar y ddisgyblaeth.

Yn ddi-os, un o'r dylanwadau mwyaf yn y cyfnod hwn oedd y niferoedd a ddaeth yn aelodau dros gyfnod cymharol fyr o amser. Am gyfnod dylifai pobl i mewn i'r eglwysi wrth y cannoedd. 'Roedd effaith hyn yn enfawr ar y Cyrff, ac yn anochel fe'u newidiwyd o ran ansawdd, cymdeithas a disgyblaeth, ac nid oeddent byth wedyn yr un fath. Ni allai'r fath dwf gymryd lle heb i newidiadau ddod maes o law. Cwestiwn a gyfyd yn y fan hon, sy'n anodd i'w ateb, yw ai llacio yn y ddisgyblaeth a arweiniodd at dderbyn niferoedd mawr, oherwydd ei bod yn rhwyddach dod yn aelod, ynteu ai'r niferoedd mawr yn cyflwyno eu hunain yn aelodau a effeithiodd ar y ddisgyblaeth? Yr ateb tebygol yw fod y ddeubeth yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd. Fe gawn gyfle i drafod y niferoedd yn fanylach maes o law. Ond cyn

i ni symud ymlaen i sôn am effaith y cynnydd mawr hoffwn grybwyll rhai pethau eraill sy'n gysylltiedig â'r ddisgyblaeth.

Pennod 24. Dirywiad Disgyblaeth.

Yr ail beth a synhwyrrwn a oedd yn digwydd yn ail hanner y ganrif oedd llacio cyffredinol yn y ddisgyblaeth. Gwelsom mewn penodau blaenorol pa mor haearnaidd y gallai'r ddisgyblaeth fod, ac yn sicr erbyn diwedd y ganrif bu newid yn ei dwyster a'i llymder. Cwestiwn diddorol yw pa mor effeithiol oedd y ddisgyblaeth, a pha mor barod oedd yr aelodau eglwysig i blygu i'r drefn? Fe ymddengys ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a chychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod disgyblaeth yn cael ei gweinyddu yn rhwydd a diwrthwynebiad, a ^bfod yr aelodau'n fodlon plygu iddi fel rhan o'u dyletswydd Cristnogol. Ond erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'roedd newid sylfaenol ar waith, a cheir yr argraff fod y Cyrff yn cael anhawster cynyddol i weinyddu disgyblaeth yn yr un modd ag yn y gorffennol, gan nad oedd aelodau yr un mor barod i ufuddhau. Yr ydym eisoes wedi sylwi mai trengi a wnaeth y seithfed rheol ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd ac nid hon oedd yr unig reol i golli'r dydd. Credai cofiannydd Gwilym Hiraethog fod hyn yn gysylltiedig â datblygiadau diwinyddol y cyfnod.

"Yr oedd Calfiniaeth o ran y ffurf uchelaf o honi yn awr yn colli ei gafael ar y bobl, a rhoddodd allan ei hebwch diweddfaf yn y "Pregethwr a'r Gwrandawr." Yr oedd llawer o'r aelodau ag oedd wedi dyfod yn fwy rhyddfrydol gyda golwg ar drefn gras wedi dyfod felly gyda golwg ar ddysgyblaeth eglwysig, yr hon a ystyrient yn llawn rhy gaeth yn gystal ag yn anghydweddol âg ysbryd yr efengyl, a gwrthdystient yn fynych yn ei erbyn, yr hyn a barodd i lawer o'r hen weinidogion a'r blaenoriaid, nad oedd symud i fod arnynt i ganlyn yr oes, i edrych arnynt fel dynion anhywaith, a rhai i fod beunydd ar eu gwyliadwriaeth yn eu cylch." (42)

Diddorol yw nodi yn y fan hon fod Thomas Rees yn awgrymu rhywbeth digon tebyg pan ddywedodd, "profa hanes yr eglwys, yn neillduol hanes Ymneilldueth yn y deyrnas hon, fod dynion pan yn gwyro oddiwrth athrawiaeth iachus, yn debyg hefyd o wyro oddiwrth foesoldeb." (43) Yr

"athrawiaeth iachus" yn ôl pob tebyg oedd Calfiniaeth. Ym marn Thomas Rees felly pan fyddai Corff yn symud oddi wrth Galfiniaeth - tuag at Arminiaeth hwyrach - byddai'r safonau moesol, ac felly'r ddisgyblaeth, yn gwegian. Dros ganrif yn ddiweddarch fe awgrymodd B. Wilson yn union yr un peth gan ddweud,

"Arminian type theology, as distinct from Calvinism, would appear to be a significant factor in promoting the growth of sect to denomination.... Calvinist sects which developed into denominations did so only as their Calvinism gave way to Arminian and less exclusive teaching, as with the Baptists in England." (44)

Hwyrach fod hyn yn un o'r rhesymau am ddirywiad y ddisgyblaeth ymhlith y Cyrff Ymneilltuol drwy ddylanwad Wesleyaeth a thrwy iddynt symud oddi wrth Uchel Galfiniaeth at y Galfiniaeth Gymedrol. Ond mae'n rhaid bod yn ofalus gyda dadansoddiadau fel hyn, oherwydd fe geir sectau caeth eu disgyblaeth sydd o bwyslais diwinyddol arminaid. Yr hyn sy'n amlwg yw fod nifer o elfennau ar waith a oedd yn tanseilio ac erydu'r ddisgyblaeth. Yn y fan hon, hoffwn dynnu sylw at bedwar ffactor a oedd yn rhannol gyfrifol am y llacio yn y ddisgyblaeth, sef gorlymder, derbyn plant aelodau, y fodrwy aur, a chynnydd yn y niferoedd.

Gor-lymder Disgyblaeth.

Gwendid a ddaw i'r amlwg drachefn a thrachefn sydd yn gysylltiedig â disgyblaeth oedd ysbryd y disgyblwyr. Mae'n amlwg fod rhai o'r swyddogion eglwysig yn troi'n chwynn a chas wrth ddisgyblu, yn gymaint felly, fel ei fod mewn rhai achosion yn peidio â bod yn ddisgyblu gan droi'n ddim byd mwy na chosbi arwynebol. 'Roedd y seiat a'r cyfarfod eglwys ambell dro yn ymdebygu fwy i lys gwladol seciwlar nag i gyfarfod Cristnogol ysbrydol. Y gwir yw fod y Cyrff mewn sefyllfa ddigon anodd. 'Roedd disgyblu

manwl a deddfol yn golygu, er mwyn tegwch, y dylid mabwysiadu holl ddulliau y llys barn, fel y llysoedd eglwysig yn Eglwys Loegr. Ond nid oedd gan y Cyrff yr adnoddau i wneud hyn. Nid oedd cyfreithiau addas ganddynt, na swyddogion hyddysg ynddynt, na'r adnoddau ariannol i gynnal peirianwaith cyfreithiol. O ganlyniad, yr oedd disgyblu'n aml iawn yn annheg, mympwyol a blâr. Wrth gynghori Gwilym Hiraethog un tro ar ddisgyblaeth eglwysig, dywedodd Williams o'r Wern hyn.

"Y mae dynion i'w cael yn yr eglwysi yn bur gyffredin, nad oes dim wrth eu bodd cystal a dysgyblu a diarddel ar bob achlysur; diarddelu yn unig yw dysgyblaeth, dybiant hwy; dyfal chwiliant am achos i'w ddwyn gerbron yr eglwys, dan obaith o gael barn diarddeliad ar y cyhuddiedig, ac os methant, cwynant yn ddwys dan ocheneidio yn drwm fod dysgyblaeth wedi myned dan draed yn yr eglwys hono." (45)

Fe geid felly mewn nifer o eglwysi swyddogion sarrug a fyddai'n disgyblu nid gydag addfwynder ond gyda llymder diangen. Ni allwn lai na chofio wrth ddarllen y geiriau uchod gan Williams o'r Wern mai un o'r rhesymau pam y trodd Hiraethog ei gôt oddi wrth y Methodistiaid Calfinaidd at yr Annibynwyr oedd llymder disgyblaeth. Yn yr achos hwnnw a ddigwyddodd ym 1827 yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, Llansannan, diarddelwyd Joseph Davies, Llys Aled, am deithio ar y Sabath i weld ei wraig a oedd yn ddifrifol wael. Parodd hyn i rai o'r aelodau ymneilltuo gan sefydlu eglwys Annibynnol. (46)

Eithriad wrth gwrs oedd achos mor eithafol o ddi-deimlad a'r uchod, ond eto fe geir toreth o dystiolaethau fod amryw o'r swyddogion eglwysig yn annoeth ac anghariadlon wrth ddisgyblu. Wrth ddisgrifio gŵr o'r enw John Pierce, Ty'nllwyn (1795-1844), aelod yng nghapel y Trefnyddion Calfinaidd yn Nhanygrisiau, fe ddywed David O. Hughes, amdano. "Arferai

ddysgyblaeth eglwysig fanwl gan gadw rhag y gerwinder a'r llymder oedd yn nodweddu llawer o'r hen flaenoriaid pryd hwnnw. Byddai rhai o'r hen flaenoriaid yn cymeryd y blaen mewn achosion o ddysgyblaeth yn myned i eithafion mewn llymder, pryd y byddai ef yn credu y buasai cerydd ysgafnach yn gwneud y tro, os nad yn ateb y dyben yn well; ac wrth gyhoeddi y ddedfryd, byddai yn wylo nes methu siarad gan dynerwch ei deimladau; a phob tro cyn eistedd i lawr gofalai am ddweud ychydig eiriau fyddent fel dyferiad olew i friwiau y cyhuddiedig."⁴⁷

Trueni nad oedd pob swyddog eglwysig mor dyner â John Pierce, a bod carfan fechan o flaenoriaid yn llym a chwerw iawn gyda throreddwyr, dynion a oedd yn anghofio mai ar egwyddor cariad y sylfaenwyd disgyblaeth eglwysig ac mai ei phrif bwrpas oedd adfer aelodau cyfeilliornus nid eu dinistrïo.

Mae'n amlwg fod gerwinder swyddogion wrth ddisgyblu, wedi mynd o dan groen Yr Hen Ddysgybl, oherwydd pan yn cyfeirio at hyn yn ei draethawd ar ddisgyblaeth eglwysig mae'n mynd ar gefn ei geffyl. Gresynai wrth feddwl cyn lleied "ydyw rhifedi y rhai sydd yn ei wneud yn amcan difrifol i enill ac adferu eu brodyr, ac nid eu dinystrio!" Condemniai swyddogion eglwysig am wneud môr a mynydd o'r pethau lleiaf. Meddai amdanynt, "Chwyddir gwybedyn i faintioli camel, a'r brycheyn bychan a wneir yn drawst o faintioli anferth, a gwneir pridd wâdd yn fryniau a mynyddoedd mawrion, a rhoddir y lliw gwaethaf ar y cwbl. Beth fydd canlyniad y pethau hyn? Bod oerfelgarwch, amrafaelion, a dygasedd dwfnwreiddiol, yn nghyda holl nwydau a theimladau gwaethaf dynoliaeth lygredig, yn cael eu cynyrchu am flynyddoedd, os nid am oes."⁴⁸ Yn ei farn ef 'roedd, "diffyg mawr am ryw fras linellau a'r rhai hynny wedi eu sylfaenu ar y Ysgrythyrau, wedi bod ar

y pen hwn. "⁴⁹ Ac o ganlyniad 'roedd swyddogion a gweinidogion yn disgyblu o'u pen a'u pastwn eu hunain heb unrhyw ganllawiau pendant i'w dilyn. 'Roedd gan lysoedd gwladol reolau i weithredu arnynt, pam felly na ellid cael rheolau disgyblaethol pendant i'r eglwysi?⁵⁰ 'Roedd rhaid gwneud rhywbeth ar fyrder oherwydd yn ôl Hen Ddysgybl, "Gwelwyd swyddogion eglwysig, mewn enw, cyn hyn yn ymddwyn mor anghyson ac anheilwng i'w swydd a'u gwaith, nes bod yn amhosibl i bob un ystyriol wrth graffu ar eu hymddygiad, lai na dyfod i'r penderfyniad mai "Nimrod oedd heliwr cadarn gerbron yr Arglwydd," a'r brenin cyntaf yn llinach gorthrymwyr ydyw eu tad, a'u bod hwythau yn wir blant iddo."⁵¹ Fe'n harweinir ni i ystyried beth oedd wedi codi gwrychyn yr Hen Ddysgybl cymaint, oherwydd y mae'n hallt iawn ei dafod wrth gyfeirio at swyddogion eglwysig. Dywed,

"Nid ychain yn cornio y dylai swyddogion eglwysig fod; ond dylent ymddwyn fel athrawon a bugeiliaid at eu brodyr, gan eu dysgu a'u porthi â gwybodaeth ac â deall, gan eu harwain a'u diogelu rhag cael niwed, a rhwymo eu harchollion gan dywallt ynddynt olew a gwin pan y bydd achos. Gresyn fod y ddelw sydd ar ambell i swyddog eglwysig mor wrthwyneb i hyn, a bod ambell un yn ei arferion a'i dueddiadau, a'r ffurf ymosodol sydd arno, yn cyfateb ac yn ddarluniad rhy berffaith o lawer o ych hwyliog fyddo yn bugynad ac yn chwythu ei ffroenau, a gwg yn ei drem, ac ymddial lond ei natur; a'i holl agweddiad yn dywedyd fod ei gyrn yn beryglus, ac yn darogan dinystr y gwrthrych y bydd iddo gael cyfle i ymosod arno.

Maent yn eu helpen gyda'r gorchwyl hwn - maent wrth eu hoff waith o geryddu..... Nid oes berygl y daw o'r geneuau hyn fendith a mellith; nid oes ganddynt fendith i neb - nac oes un. Mae enill eu brodyr a'u "dwyn i'r iawn allan o fagl diafol" yn orchwyl nad oes ynddo un swyn iddynt; ac os bydd brawd neu chwaer wedi mynd ar gyfeiliorn, oddiwrth y gwirionedd, mae amcanu at ei droi, ac felly fod yn foddion i gadw enaid rhag angau a chuddio lluwys o bechodau, yn beth nad ydynt yn gofalu dim amdano."⁵²

Mae'n amlwg yn ôl ysgrif yr Hen Ddysgybl fod rhywbeth mawr wedi mynd o'i le ar ysbryd y disgyblu mewn llawer o achosion, ac y bu'r awdur yn dyst o'r difrawder hwn. Oherwydd nid ar chwarae bach yr oedd dyn yn

ysgrifennu a chyhoeddi geiriau oedd yn condemnio swyddogion eglwysig i'r fath raddau.

Nid yr Hen Ddysgybl oedd yn unig o'r farn hon. Yn ei erthygl yn Y Dysgedydd (1848), 'roedd Dr. Payne hefyd yn anhapus gydag ysbryd y disgyblu. Dywed "Nid anfynych, ysgatfydd, y cyfyngir yr ymadrodd, dysgyblaeth, at weinyddiad cerydd eglwysig...."⁽⁵³⁾ Yr un oedd barn Ebenezer Richards, Tregaron. Cwynai ef fod "ambell flaenor wrth geryddu aelod yn yr eglwys yn debyg fel pe gwelech rhyw ddyn yn mynd i ladd gwybedyn ar dalcen ei frawd gyda morthwyl haiarn. Dim ond gwybedyn sydd yno; a phe bae ef yn estyn ei fys, byddai yn llawn ddigon i ateb y dyben...."⁽⁵⁴⁾ Gwelwn fod llawer o swyddogion y Cyrff Ymneilltuol yn mynd dros ben llestri wrth ddisgyblu, ac yn mynd i drafferth mawr i ddiraddio a hyd yn oed enllibio y cyhuddedig yn gyhoeddus. Gwendid arall oedd eu bod yn hollti blew am bethau bychain gan anwybyddu pethau mwy. Dywedai Ebenezer Richards y gwelid ambell swyddog, "yn taranu yn ddychrynlyd....os gwel ryw lodes fach ddel wedi troi tamed o ribbon oddeutu ei hat; ond nis clywir ef yn ynganu gair am fod Mr. Hwn a hwn wedi dyfod adref o'r farchnad yn hanner meddw...."⁽⁵⁵⁾

Ceir enghraifft o ddisgyblwr sarrug a blin o'r enw Hugh Pritchard yn diraddio person drwy ddweud pethau annoeth ac angharedig, yn hanes eglwys y Tabernacl, Bangor, a dywedid iddo wneud llawer o gangymeriadau oherwydd diffyg amynedd a thynerwch.

"Aeth gwr ieuanc o'r eglwys i Lerpwl i weithio tua'r adeg yr oedd Robert Owen, Newtown, y Socialist, yn cynhyrfu gweithwyr y wlad. Aeth i rai o gyfarfodydd Robert Owen, a phan ddaeth yn ol i Fangor, nis gallai ymatal rhag awyros rhai o'r opiniynau a glywsai. Daeth hyn i glustiau y swyddogion, a rhaid oedd cael sylw arno, a galwyd ef at y fainc. Siaradai rhai o'r swyddogion wrth y llanc yn dyner, gan feddwl ei feddyginiaethu. Blinodd Hugh

Pritchard ar hyn, am fod ysbryd y llanc mor iach. Cododd ar ei draed, a chyfarchodd ef fel hyn. "Y chdi sydd yna -? Yr o'n i yn adnabod dy daid, weldi, toedd o ddim yn llawn llathan, yr ydw i yn nabod dy dad, tydi o ddim gwirionach na challach na rhywun arall rwan, ac yr ydwi yn dy nabod dithau er pan oeddit yn dy bais. Welis i ddim byd ynot ti yn gofyn am wneud ryw fuss fel hyn efo ti. Mae nhw yn deud wrtha i dy fod yn mynd yn dipyn o feistar ar hwn," gan roi ei law ar y Beibl. "wel, rhyw dipyn o bobl druan, dlodion, ydan ni, yn y fan yma, sy'n proffesu fod hwn yn fistar arnom ni, ac o'm rhan i allan dyla ti fynd." Allan yr aeth y llanc, ac allan y bu hyd ei fedd." <56>

Er mwyn gwrthweithio'r duedd annymunol hon a oedd yn datblygu dywedai Thomas Rees yn ei draethawd ar Natur, Trefn a Dybenion Dysgyblaeth Eglwysig, y "dylai dysgyblaeth yr eglwys gael ei gweinyddu gyda llawer o ddoethineb." <57> Pwysleisiai hyn oherwydd yn ei dyb ef 'roedd yr "achos gorau wedi dyoddef llawn cymaint os nad mwy, oddiwrth annoethineb dynion da ag oddiwrth anfoesoldeb a melltigedigrwydd dynion drwg." <58> Honnai fod ganddo nifer o enghreifftiau blin o "ddiarddeliadau, a weinyddwyd dan amgylchiadau ac mewn dull annoeth," a bod hynny "yn foddion i suro meddyliau y diarddeledigion at yr eglwys hyd eu marwolaeth, pryd, o bosibl, y gallasai hyd yn oed eu diarddeliad, wrth gael ei weinyddu gyda phwyll a doethineb, fod yn foddion i sicrhau achubiaeth eu heneidiau." <59> 'Roedd disgyblu chwyrn felly yn troi pobl yn llwyr oddi wrth Gristnogaeth, yn hytrach na'u harwain i edifeirwch fel y dylai. <60>

Yn fwy na hynny gallai gorlymder ac annhegwch wrth ddisgyblu nid yn unig droi pobl oddi wrth Gristnogaeth ond gallai hefyd arwain yr aelodau i wrthryfela yn ei herbyn, ac yn sicr fe ddigwyddodd hyn erbyn diwedd y ganrif. Ymateb naturiol unrhyw un wrth weld gerwinder diangen yw ei wrthwynebu.

Yn y blynyddoedd rhwng 1840 a 1870 mae'n amlwg fod cyfnewidiad wedi digwydd, ac yn parhau i ddigwydd am gyfnod maith gyda golwg ar agwedd y Cyrff Ymneilltuol tuag at ddisgyblaeth, oherwydd erbyn 1876 gallai'r Parch. Powell ddweud fel hyn "Yr ydym yn sylwi fod cyfnewidiad mawr ar ddysgyblaeth eglwysig. Y mae fwy anhawdd diarddel a thorri allan o'r eglwys nag ydoedd gynt, gyda'r gwahanol enwadau, a mwy o ymdrech i adgyweirio yn yr eglwysi."⁶¹ Gwelai y Parch. Powell hyn fel peth da, fel arwydd fod y swyddogion yn ceisio "cael y beius o afael ei fai" yn hytrach na'u cosbi.⁶² Ond tybed ai dyma oedd y gwir? Ynteu a oedd y Cyrff Ymneilltuol yn cael mwy a mwy o anhawster i weinyddu'r ddisgyblaeth, i ddiarddel, a chael yr aelodau i ufuddhau? Ddwy flynedd yn ddiweddarach fe ddywedai R.P., Brynsiencyn, yn Y Drysorfa (1878), ei fod ef wedi sylwi ar leihad mawr yn nifer y diarddeliadau, a "fod hyn yn myned yn llai lai y naill flwyddyn ar ol y llall."⁶³ Ei reswm ef am hyn oedd fod "y ddysgyblaeth yn cael eu hesgeuluso."⁶⁴ Mae'n amlwg nad ei farn ef yn unig oedd hon gan y dywed fod "y dynion gorau...yn cwyno yn ofidus fod adfeiliad a dirywiad mawr wedi ac yn cymeryd lle yn eglwysi y Methodistiaid y blynyddoedd diwethaf hyn gyda golwg ar ddysgyblaeth eglwysig."⁶⁵ Mae'n amlwg felly fod dadfeiliad yn y ddisgyblaeth a bod rhai o fewn eglwysi'r Trefnyddion Calfinaidd yn ôl R.P., yn barod "i oddef bron bob math o droseddwr yn yr eglwys."⁶⁶

Ond 'roedd Cromwel o Went wedi gweld y duedd hon ymhell o flaen llaw. Ym 1848 yn ei lyfr Eglwys Crist, pryderai ef fod "gormod o ymdrech am ychwanegu rhif yr aelodau gan wahanol enwadau, yn hytrach nag edrych fod y cyfryw a dderbynir yn addas ddefnyddiau i Eglwys Crist...."⁶⁷ A dyma yn ei dyb ef oedd y rheswm fod gymaint o "ymrysonau, ymbleidiau ac o

rwygiadau, yn perthyn i Eglwysi yn yr oes hon...."«69» Mynnai fod safonau'r Cyrff yn gostwng a bod pobl annheilwng yn cael mynediad, ac felly bod y safonau'n dirywio ymhellach. Symptom o'r dirywiad hwn yn ôl Cromwel oedd fod yr eglwysi'n ymddwyn nid yn ôl y Beibl ond yn ôl barn yr ardal. Mynegai ei bryderon yn y geiriau canlynol, "nid beth ddywed y Beibl ydyw hi, ond beth ddywed yr ardal, a pheth yw swm y byd, ac wrth lais oddiallan, yn rhy fynych, y gweinyddir dysgyblaeth oddifewn yn nhŷ Dduw."«69» Ac fe awgryma Cromwel mai'r rheswm am hyn oedd fod "cymaint o frodyr oddiallan, ac yn gwbl o'r un ysbryd ac egwyddorion a hwythau, wedi ymwthio i fewn i gynulleifaoedd yr Arglwydd...."«70»

Bu gorlymder mae'n amlwg yn wendid mawr yn y ddisgyblaeth, gwendid a danseilliodd y ddisgyblaeth maes o law drwy i'r aelodau deimlo fod swyddogion yn rhy hallt gyda throseddwyd.

Derbyn Plant.

Agwedd arall a allai fod wedi cyfrannu at ddadfeiliad disgyblaeth oedd derbyn plant aelodau. Gwelsom yn y rhagymadrodd fod y cymdeithasegwyr yn trafod hyn yn fanwl, gan awgrymu fod derbyn yr ail genhedlaeth o reidrwydd yn troi sect yn enwad. Ond ym marn R. Mehl, fel y gwelwn isod, ni ddylid gosod hon fel deddf y Mediaid a'r Persiaid.

"The recruitment of the second generation is also an aspect of evangelism. There are similar problems of the tests of admission and the process of socialising the in-comers.....It is an oversimplification to say, however, that the second generation makes the sect into a denomination.....such developments depend on the standard of admission imposed by the sect, the previous rigour with which children have been kept from the world, and on the point at which a balance is struck between the natural desire of parents to have their children included in salvation and their awareness of the community view that any sort of salvation depends on the maintenance of doctrinal and moral standards."«71»

Fe all y broses o dderbyn plant dychweledigion oeri natur y sect, oherwydd er fod rhieni wedi dod yn aelodau drwy argyhoeddiad a thröedigaeth, gall y plant ddod yn aelodau o ganlyniad i bwysau cymdeithasol a theuluol, a'r ffaith syml eu bod yn dilyn ôl traed eu rhieni. Nid yw olyniaeth na thraddodiad yn gydweddol â natur sect. Yr unig ffordd y gall y sect ei diogelu ei hun yn wyneb derbyn plant aelodau, yw trwy gadw safon uchel wrth eu derbyn ac yna cadw'r ddisgyblaeth yn ddi-ŵyro wedi eu derbyn.

Gwelodd Robert Ellis, Ysgoldy, yr anhawster sydd ynghlwm wrth dderbyn plant aelodau pan ysgrifennai ym Medi 1871. Byddai rhieni yn ôl pob tebyg yn ymaelodi oherwydd argyhoeddiad personol a thröedigaeth, ac yna byddai eu plant yn cael "eu dwyn i fyny yn yr eglwys o'u mebyd. Ac wedi iddynt gyrraedd oedran, yna rhaid yw eu derbyn i gyflawn aelodaeth."⁷² Ac fe ychwanega'r ebychiad cyfoes "Ac yna yswaeth, yn rhy aml, dyna y cwbl drosodd gyda hwy!"⁷³ Yr anhawster oedd fod pwysau ar y Cyrff i dderbyn plant aelodau nid oherwydd eu bod wedi dod dan argyhoeddiad Cristnogol ond oherwydd eu bod wedi "dod i oed". Ymhelaethai Robert Ellis ar y pwynt gan ddweud, "Tybier fod cynifer o fechgyn a lodesi wedi dyfod i'r oedran priodol i'w derbyn, ond heb yr oll ohonynt yr un mor gymwys. Os derbynir rhai, a gadael ereill o'r neilldu, dyma blant a rhieni yn cymeryd achlysur i dramgwyddo. Ac felly, er gadael tramgwydd, ni bydd dim i'w wneud ond derbyn yr oll, gan obeithio y gorau. Ac fel hyn y mae yn berygl i oedran ddyfod yn fwy o safon i aelodaeth eglwysig had yr Eglwys na chymwysderau ereill angenrheiddol."⁷⁴ Gwelwn yma eto y duedd i'r Cyrff ymateb nid i arweiniad y Beibl ond i bwysau cymdeithasol a disgwyliadau an-ysbrydol rhieni. Canlyniad hyn oedd fod rhai plant heb unrhyw argyhoeddiad Cristnogol yn dod yn aelodau. Ac fe ddywedai Robert Ellis "mai yr hyn sydd

fwyaf bygythiol i grefyddolrwydd yr eglwysi yn y dyfodol yw gwaith rhieni yn magu eu plant yn yr eglwys heb yr ymgais briodol i'w magu yn grefyddol. "(75)

Yn y fan hon fe gyfyd pwnc diddorol iawn wrth i'r weithred o dderbyn aelodau - yn arbennig yn achos plant - droi o fod yn ddigwyddiad ysbrydol, a ddangosai fod person yn cyflwyno ei hun yn llwyr i'r Iesu, i fod yn ddefod gymdeithsaol, a ddangosai fod ieunctid wedi "dod i oed". Trwy hyn deuai 'derbyn i gyflawn aelodaeth' yn rhyw fath o garreg filltir ar daith bywyd. Enw anthropolegwyr ar hyn yw defodau tramwyo (rites of passage)⁽⁷⁶⁾, ac fe'u cysylltir gan amlaf gyda digwyddiadau fel genedigaethau, blaenlencyndod, priodasau a marwolaethau, pryd y cynhelir defodau cymdeithasol ar hyd a lled y byd ar yr achlysuron hyn mewn bywyd er mwyn eu dathlu. Yng nghyswilt yr adran hon golyga fod 'derbyn' yn colli ei arwyddocâd ysbrydol gan fabwysiadu arwyddocâd cymdeithasol, hynny yw, mae'n cael ei seciwlareiddio. Onid yw'n eironig fod Ymneilltuwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn taranu yn erbyn defodaeth weledig y Pabyddion a'r Anglicaniaid tra ar yr un pryd - yn ddiarwybod iddynt - 'roedd defodaeth anweledig yn ymgripio'n llechwraidd i'w gweithgareddau hwy eu hunain?

Gellir priodoli'n union yr un peth i fedydd, priodas a chladdu. Mae rhain hefyd yn ddefodau tramwyo cymdeithasol pwysig. Wrth i sect gynyddu yn ei dylanwad mae'n hynod anodd diogelu eu harwyddocâd crefyddol drwy iddynt cael eu herwgipio gan gymdeithas, e. e., pobl yn mynnu bedyddio eu babanod "am eu bod yn dod ymlaen yn well"; pobl eisiau priodi yn y capel, nid er mwyn selio'r cyfamod ym mhresenoldeb Duw, ond am fod gwasanaeth capel yn fwy "neis" na gwasanaeth swyddfa gofrestru; a phobl eisiau i'w perthnasau gael eu claddu gyda defod Gristnogol am mai dyna sy'n

weddus. Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn mae gweinyddu defodau tramwyo'n rhoi lle cyhoeddus i'r eglwys - ond y pris yw seciwlareddio. Un o'r rhesymau am hyn yw fod y sect yn cael safle ddefodol bendant o fewn y patrwm cymdeithasol.⁷⁷ Ac yn sgil hynny'n troi o fod yn fudiad sy'n gwrthwynebu'r byd i fod yn fudiad sydd nid yn unig yn dderbyniol yng ngolwg y byd ond yn cynnal y status quo. Mae'n rhaid fod y datblygiad hwn - y seciwlareiddio ar wasanaethau ysbrydol - yn rhan allweddol o'r symudiad tuag at enwadyddiaeth.

Mae'n amlwg fod yr ieuenctid yn aml ar feddwl Robert Ellis, oherwydd ysgrifennodd gan gyfeirio [etol] at y pwnc ym 1878. Ysgrif oedd hon yn hel atgofion am ddiwygiad 1832, ac fe gredai ef "mai diwygiad 1832, yn benaf oll, a roes y symbyliad hwn o wir ofalu am had yr eglwys." "Barnai yr hen bobl," meddai, "nad cymwys oedd derbyn rhai pur ieuainc i gymundeb heb argoelion lled glir ynddynt o ofn yr Arglwydd....Pe buasai ystadegau yn cael eu cyhoeddi y pryd hwnw fel yn bresenol, ni a dybiem y buasai nifer ar y golofn 'Derbyniwyd o had yr eglwys' yn druenus o fach. Ond gan fod yr adfywiad hwn yn dylanwadu mor rymus ar blant a rhai pur ifanc, dechreuwyd meddwl o ddifrif am wneud y gorau ohonynt....Ac o hyny hyd yn bresenol, derbyniwyd llawer mwy, i aelodaeth eglwysig o had yr eglwys, fel ei gelwid, nag a dderbyniwyd o'r un cyfeiriad arall."⁷⁸

Yr hyn a ddaw i'r amlwg yn y dyfyniadau uchod gan Robert Ellis, yw fod patrwm yn datblygu o dderbyn plant credinwyr nid oherwydd argyhoeddiad ysbrydol personol, ond oherwydd eu bod wedi eu magu o fewn i'r Corff. Nodwedd yr Enwad a'r Ecclesia a'r Eglwys Sefydledig yw fod plant yn cael eu hystyried o'u genedigaeth yn aelodau o'r eglwys. Erbyn 1878 'roedd Robert Ellis yn fwy calonnog yn ei agwedd tuag at dderbyn o had yr eglwys.

Oherwydd fe ychwanega ar ddiwedd ei ysgrif, "Os ydym fel yr ofna rhai, wrth dderbyn rhai ieuainc fel hyn i gyflawn aelodaeth, oherwydd rhyw ddiffygion neu gilydd, yn dwyn i mewn i'r adeiladaeth eglwysig fwy nag a fyddai ddymunol o'r defnyddiau diwerth, coed a gwair, a sofl, yr ydym trwy yr un moddion yn cael i'r adeilad y defnyddiau mwyaf gwerthfawr, aur, arian a meini drudfawr, defnyddiau y bydd eu gwir werth a'u rhagoriaeth o hyd yn dyfod yn fwyfwy i'r golwg." (79)

Am gyfnod maith fe fu'r Cyrff yn ennill llu o bobl o'r byd, pobl nad oedd ganddynt fawr gysylltiad gyda llan na chapel. Ond fel y datblygai'r ganrif 'roedd mwy a mwy o blant credinwyr yn dod yn aelodau, a llai yn cael eu hennill yn uniongyrchol o'r byd. Golygai hyn fod elfen o draddodiad yn dod i fywydau'r Cyrff a rhai pobl yn cael eu derbyn oherwydd cysylltiadau teuluol, a phlant yn cael eu derbyn yn unig oherwydd eu bod wedi cyrraedd oedran arbennig. Pen draw hyn fyddai i'r broses o dderbyn plant aelodau droi fwy neu lai yn ddefod ffurfiol ac arwynebol. Os nad oedd ganddynt wir argyhoeddiad, wrth i'r genhedlaeth hon dyfu o fewn i'r Cyrff, byddai'r safonau a'r ddisgyblaeth yn sicr o newid.

Y Fodrwy Aur.

Elfen arall a gyfrannodd at lacio'r ddisgyblaeth, oedd newid yn natur yr aelodaeth. Wrth i natur y gymdeithas yng Nghymru newid gyda'r chwyldro diwydiannol a chynnydd mewn cyfoeth a safonau byw, golygai hynny newid hefyd i raddau yn natur aelodaeth yr eglwysi Ymneilltuol. Buddiol fyddai nodi'r dyfyniad hwn gan W. Stark.

"Nevertheless, the upward movement of sectarians in the scale of prosperity, and their correlated downward movement in the scale of rebelliousness, is so general that it may justly be called a mass phenomenon.... There is something in sectarianism itself

which leads - via worldly success - to the decay of sectarianism."«e0»

Erbyn ail hanner y ganrif fe geid llawer mwy o dirfeddianwyr, arweinyddion gwleidyddol a dynion busnes da eu byd yn aelodau'n yr eglwysi. Y duedd oedd fod y bobl hyn, mawr eu parch yn y byd, yn ennill safle o barch yn yr eglwysi. 'Roeddent yn aml yn hael iawn yn ariannol tuag at yr achosion a golygai hyn fod rhai yn cyrraedd safle dylanwadol o fewn i eglwysi nid oherwydd rhesymau Cristnogol ac ysbrydol, nid oherwydd duwioldeb a sancteiddrwydd ond oherwydd eu safle yn y byd. Ar ddechrau'r ganrif yr unig reswm y byddai dyn yn dod yn swyddog eglwysig oedd oherwydd ei rinweddau ysbrydol, ond mae awgrym nad gwir hyn erbyn diwedd y ganrif. Yn ei atgofion am Robart y Go' rhydd Andronicus«e1» syniad bras i ni o pwy oedd yn flaenoriaid mewn capel gerllaw Caernarfon.

"Gan fod meistriaid amryw o'r ffermydd mwyaf yn yr ardal hon, fel yn mhob ardal arall, yn perthyn i'r sêd fawr, bydd gryn dipyn o jobs yn yr efail noson seiat. Mae y ffarmwrs mwya' bob amser yn perthyn i'r sêd fawr, os byddant yn perthyn i'r capel o gwbl. Mae hyn yn hen arferiad yn yr ardaloedd hyn. Nid am fod mwy yn mhen y ffarmwr mawr, ond y mae yn lle neis i'r pregethwyr aros."«e2»

Yn ddiweddarach yn ei atgofion cyfeiria at sgwrs rhwng Robart y Go' a gŵr o'r enw John. Yr oedd Robart yn amddiffyn blaenoriaid y capel gan ddweud eu bod wedi eu dewis drwy arweiniad, ac nad hap a damwain oedd eu bod yn eu swyddi. Ond fe atebodd John ef gan ddweud.

"Pob parch i chi, Robart Jones, choelia i byth mo hyn. 'Does gen i ddim mymryn o ffydd yn y codi blaenoriaid yma - y fodrwy aur pia hi, Robart Jones. Ty braf i gymryd pregethwrs, a gig i fyn'd i'r stesion i'w cyfarfod nhw."«e3»

Felly 'roedd ffermwyr cefnog ardaloedd yn tueddu i ffeindio eu ffordd i'r sêr fawr. Ni ellir dweud fod pob ffermwr cefnog yn dduwiol, gan hynny mae'n rhyfedd o beth fod cymaint ohonynt yn llwyddo i gael swyddi o fewn i'r eglwysi. Yr unig ateb y gellir ei roi yw eu bod ambell dro yn cael eu dyrchafu nid oherwydd eu duwioldeb ond oherwydd eu safle o barch yn y byd. Yn aml fe geir cyfeiriadau at swyddogion yn gŵyro yn eu barn oherwydd presenoldeb teuluoedd cyfoethog o fewn i eglwysi. A bod pwy oeddech a beth oeddech yn y byd a faint oedd gennych wrth gefn yn dod yn bwysig. Yr ydym eisoes wedi codi dyfyniad gan Joshua Lewis yn rhybuddio eglwysi rhag dangos ffafriaeth tuag at deuluoedd cefnog wrth ddisgyblu. Ond ysgrifennai John Davies, gan roi pwyslais gwahanol,

"Y mae rhai pobl yn cwyno bob amser yn erbyn y blaenoriaid, am nad ydynt y peth hyn neu y peth arall, a'u bod yn edrych ar y fodrwy aur, ac yn ffafrio honno. Nid oedd gennyf fi na safle na modrwy aur; er hynny bu y blaenoriaid yn garedig iawn wrthyf." <84>

Mae'n amlwg fod John Davies wedi clywed cyhuddiadau yn erbyn swyddogion, eu bod yn cowtowio ambell dro i aelodau cyfoethog ac yma mae'n eu hamddiffyn. Er hynny nid oes dim sicrach na'r ffaith y gallai'r "fodrwy aur" arwain at ostwng safonau derbyn drwy i eglwysi awchu am gael aelodau cefnog yn eu rhengoedd, fel yr awgrymai Moses Ellis,

"Y mae bydolrwydd yr eglwys rhai gweithiau wedi eu harwain i'r amryfusedd hwn: gor awydd am gael idd ei chymundeb y mawrion a'r cyfoethogion, yn hytrach na chael gwir ddychweledigion, gan nad beth fyddai eu sefyllfaoedd yn y byd." <85>

Gallai'r cyfoethogion hefyd, ambell dro, ddianc rhag disgyblaeth eglwysig oherwydd fod swyddogion ofn colli eu cyfraniadau ariannol drwy sathru ar eu cyrn, fel y dywedai Thomas Rees, yn ddiflewyn ar dafod,

"Mor aml yr esgeulusir cynggori a rhybuddio dynion dan yr esgus o ofn dolurio eu teimladau; ac O! y miloedd a adewir o flwyddyn i flwyddyn i bydru yn eu pechodau, am fod yr eglwysi y perthynant iddynt â mwy o barch ganddynt i'r 'fodrwy aur' nag i sancteiddrwydd. Un o'r gwarthnodau atgasaf ar Babyddiaeth yw ei bod yn caniatáu i ddynion brynu âg arian eu rhyddid i bechu yn ddi-gerydd.....Pa le y mae yr enwad neu yr eglwys lle nas goddefir i ddynion cyfoethog neu ddoniol, gyflawni pechodau yn ddi-gerydd, yn di-arddel dynion tylodion a di-ddawn? Onid yw yn wirionedd galarus, mai y crefyddwyr gwaelaf yn ein holl eglwysi yn mhob ystyr, ond mewn cyfranu arian, ac yn hyn yn fynych, yw y dynion mwyaf cyfoethog, gyda rhai eithriadau teilwng? Onid y tylodion yn yr eglwysi, gan amlaf yw bywyd yr Ysgolion Sabbothol, y cyfeillachau eglwysig, a'r cyfarfodydd gweddio? Onid yw yr argraff ar feddwl llawer o'n proffeswyr goludog, eu bod yn cyflawni eu holl ddyledswydd os gallant ddyfod i'r addoliad un waith neu ddwy bob Sabboth, a chyfranu ychydig bunoedd yn y flwyddyn at achosion crefyddol?.....Os yw cyfoeth yn cael ei oddef yn aml i attal dysgyblaeth yr eglwys i gael ei gweinyddu yn ddi-duedd, mae lle i ofni fod teimladau cnawdol cyfeillion mynwesol a pherthynasau yn fwy o attalfa byth...." (66)

Yr hyn oedd yn rhyfeddol am y Cyrff Ymneilltuol am gyfnod, a chredaf fod hyn yn wir am bob sect, oedd fod gwerthoedd ysbrydol yn cael y blaen bob amser ar werthoedd cymdeithasol. Nid oedd pobl yn cael eu mesur yn yr un ffordd y tu mewn i gymdeithas y saint. O fewn i gymdeithas y saint 'roedd gwerthoedd y byd ambell dro yn cael eu troi wyneb i waered. Yr hyn a olygaf wrth ddweud hyn yw ei bod yn bosibl i weithiwr cwbl gyffredin fod yn flaenor neu ddiakon ar ei feistr gwaith ei hun. Yn y byd, ac yn ei waith beunyddiol 'roedd y gweithiwr i ufuddhau i'w feistr, ond yn yr eglwys gallai'r sefyllfa godi lle 'roedd y meistr gwaith o dan ofal y gweithiwr. Ac yn fwy na hynny fod ganddo hawl o fewn trefn yr eglwys i gynghori a hyd yn oed ddisgyblu person oedd yn uwch ei safle nag ef yn gymdeithasol. Cawn awgrym o hyn yn y dyfyniad isod.

"Teimlai fod yr hen ŵr wedi gwro barn a bod y fodrwy aur wedi cael ei gwisgo yn yr eglwys ieuanc hon yn y dechrau. Gofynai yr hen flaenor pa beth oedd arno eisiau? Atebai yntau mai chwaraeu teg. "O" ebai J.P. "dy chware teg di ydy parchu y fodrwy aur. Wyt ti'n meddwl mai am dy fod di yn Steward, a mod i yn weithiwr tlawd, y gwnaf fi wyro barn? Na wnaif byth," meddai, " ac y mae i

ti groeso i fynd i'r man y mynot ti os felly y mae pethau yn bod." «87»

Ond wrth i'r Cyrff dyfu a datblygu 'roedd llai a llai o hyn y digwydd ac 'roedd safle person o fewn i'w eglwys yn aml yn adlewyrchu ei safle yn y byd. A thrwy hyn fe danseiliwyd sylfaen ysbrydol y gymdeithas fewnol. Mewn geiriau eraill 'roedd dylanwad y byd yn cynyddu gan dreiddio i mewn i gymdeithas y saint ac o ganlyniad 'roedd yr eglwys yn ymdebygu fwyfwy i'r byd.

Niferoedd.

Yr elfen olaf, yr ydym am gyfeirio ati, a effeithiodd ar y ddisgyblaeth, oedd y cynnydd aruthrol a fu yn niferoedd aelodau'r eglwysi dros gyfnod cymharol fyr o amser. 'Roedd cynnydd y Cyrff yn syfrdanol yn ail hanner y ganrif. Er mwyn rhoi syniad o'r hyn a ddigwyddodd rhoddwn yma ychydig enghreifftiau o niferoedd sy'n gysylltiedig yn fwyaf arbennig â Diwygiad 1859. Dyfynnwn yn gyntaf o lyfr Henry Hughes, «88» Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru.

"Fel hyn y dywed Dr. Rees yn ei "History of Nonconformity in Wales;" - 'Bernir nad oes yn ystod y diwygiad hwn, o fis Rhagfyr, 1858, hyd fis Mawrth, 1860, ddim llai nag o 35,000 i 40,000, wedi eu chwanegu at eglwysi yr Annibynwyr, ac oddeutu yr un nifer at y Methodistiaid; bernir fod tua 10,000 wedi eu chwanegu at y Bedyddwyr, ac o 4,000 i 5,000 at y Wesleyaid." Mae ystadegau y Methodistiaid yn dangos fod dros 40,000 wedi eu chwanegu at nifer eu cymunwyr mewn ryw bedair neu bum mlynedd yn yr adeg yma; yr hyn sydd yn danos fod Dr. Rees yn bur agos i'w le. A chredwn hefyd y gallasai chwanegu fod o leiaf o 3,000 i 4,000 wedi eu chwanegu at yr Eglwys Wladol.....Mae hyn yn gwneyd nifer y dychweledigion yn y diwygiad hwn yn bur agos i 100,000 mewn rhifedi." «89»

Nid oedd amcangyfrif Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, o nifer dychweledigion Diwygiad '59 mor fawr â'r uchod, ond cofiwn mai dim ond at y flwyddyn 1859 yn benodol y cyfeiriai ef. Dywedai, "pe cymerid yr holl siroedd, a phob enwad, yn nghyda'r Cymry yn nhrefi Lloegr i'r cyfrif, gallem dybied y bu ychwanegiad at yr holl eglwysi yn rhywbeth uwchlaw hanner cant o filoedd o eneidiau, a hyn, cofier, mewn yspaid mor fyr a deuddeg mis o amser!"⁽⁹⁰⁾ Cytunai Edward Parry mai "rhif y dychweledigion trwy y Dywysogaeth yn y flwyddyn '59" oedd hanner can mil ond fe ychwanega "fod y cynydd mewn rhif at yr eglwysi yn ystod y diwygiad dros bedwar ugain mil!"⁽⁹¹⁾ Mae ystadegau cymunwyr y Cyfarfodydd Misol yn cadarnhau fod ton enfawr o ddychweledigion wedi dod i eglwysi'r Methodistiaid Calfinaidd yn ystod y diwygiad hwn. Cynyddodd y cymunwyr o 62,844 ym 1857 i 100,568 ym 1861, cynnydd o 37,724 mewn cyfnod o bum mlynedd.⁽⁹²⁾

Yr un yw'r dystiolaeth hefyd wrth edrych ar ardaloedd o fewn i Gymru. Dywed Edward Parry fod rhif y dychweledigion yn Aberystwyth mewn llai na blwyddyn yn agos i fil. Yng Nghaergybi 'roedd rhif y dychweledigion rhwng y pedwar Corff yn 1,149, ac mewn cyfnod o 12 mis derbyniodd y Parch. A. J. Parry, Cefn-mawr, tros ddau gant trwy fedydd.⁽⁹³⁾ Mewn achosion unigol hefyd fe welwn yn union yr un patrwm, dyma rifau eglwys Hiracl, Bangor, rhwng 1853 a 1900.

"Rhif yr eglwys yn nechre 1853, 50; yn 1854, 53; yn niwedd 1856, 61; yn 1858, 70; yn 1860, 133, yn 1863, 118; yn 1866, 125; yn 1868, 98; yn 1869, 70; yn 1870, 77; yn 1880, 123; yn 1900, 197."⁽⁹⁴⁾

Rhwng 1853 a 1900 fe gynyddodd rhif yr aelodaeth felly o 50 i 197, a olygai fod yr eglwys wedi pedwareblu mewn llai na hanner can mlynedd. Yn ystod diwygiad 1849, yn eglwys Annibynnol Ebeneser, Aberdâr,

derbyniwyd 100 o aelodau newydd yn yr un gwasanaeth, a rhwng Mai 27ain a Rhagfyr 30ain yn yr un flwyddyn derbyniwyd 139 o'r newydd. Cyfanswm dychweledigion yr eglwys honno am y flwyddyn oedd 200. ⁹⁶ Yn eglwys y Tabernacl, Lerpwl, pan oedd John Thomas yn weinidog yno derbyniwyd 80 o'r newydd, a hynny yn y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn 1860. ⁹⁶ Mewn dim ond tair oedfa gymun yn eglwys Ebeneser, Aberdâr, yn ystod y flwyddyn 1859, derbyniwyd cyfanswm o 203 o'r newydd. ⁹⁷ Cynyddodd rhif aelodau eglwys y Methodistiaid Calfinaidd ym Mhen-y-groes, Arfon, o 85 ym 1858 i 161 ym 1861. Dyblwyd yr aelodaeth fwy neu lai mewn pedair blynedd. ⁹⁸ Yn rhyfeddach fyth yn ystod diwygiad 1859 fe ddyblwyd nifer yr aelodau yn eglwys y Wesleyaid, Eglwys-bach, Dyffryn Conwy, mewn dim ond wyth diwrnod. ⁹⁹

Rhydd yr ystadegau uchod ddarlun o'r cynnydd enfawr a fu mewn aelodaeth eglwysig yn ail hanner y ganrif. Mae'n anhygoel meddwl fod rhwng 80 a 100 mil o aelodau newydd wedi dod at y Cyrff Ymneilltuol mewn cyfnod byr yn Niwygiad '59. 'Roedd hi'n gwbl amhosibl i gymaint o bobl ddod yn aelodau heb iddynt adael eu hól ar y Cyrff ac heb i'r Cyrff orfod addasu i ryw raddau.

'Roedd effaith y cynnydd hwn yn fawr ar y Cyrff yn gadarnhaol ac yn negyddol. Ond cyn mynd ymlaen i sôn rhyw gymaint am ganlyniadau cyffredinol y tŵf, mae'n rhaid yn gyntaf ystyried - yng nghyd-destun yr adran hon - effaith hyn ar y ddisgyblaeth. Yn anorfod fe ddaeth newid yn y ddisgyblaeth o ganlyniad i'r cynnydd. Nid mater o ddewis oedd hyn ond mater o raid oherwydd pwysau amgylchiadau. Yn syml, gan fod cymaint wedi dod yn aelodau mewn cyfnod byr, nid oedd hi'n ymarferol bosibl i fynd trwy eu profiadau a'u buchedd hefo crib mân wrth eu derbyn. Ac ar ôl eu derbyn nid

oedd hi'n rhwydd cadw golwg manwl a'r eu moes a'u hymddygiad. Mae gwahaniaeth aruthrol rhwng cadw golwg ar aelodaeth o 30 o'i gymharu ag aelodaeth o 400. Canlyniad hyn yn anochel oedd fod pobl anaddas yn cael eu derbyn. 'Roedd y rheolau disgyblaethol yn parhau ond nid oeddynt yn cael eu gweinyddu i'r un graddau nac â'r un manylder ag yn gynt yn y ganrif. Ar un wedd bu'r twf sydyn yn andwyol i'r Cyrff yn yr ystyr ei fod wedi gwanychu'r ddisgyblaeth. Mae'n debygol iawn, pe bai'r twf wedi digwydd yn raddol dros gyfnod hir o amser, y byddai datblygiad y Cyrff wedi bod yn wahanol, drwy iddynt ddelio'n fwy effeithiol gyda'r cynnydd.

Yn y bennod hon felly gwelwn fod nifer o ffactorau ar waith a oedd yn tanseilio'r ddisgyblaeth. 'Roedd dull derbyn aelodau a phlant yn troi'n llawer mwy ffurfiol a ffwrdd â hi ac heb yr un dwyster yn perthyn iddo. 'Roedd gorlymder swyddogion yn troi aelodau'n erbyn y ddisgyblaeth. 'Roedd pobl gefnog ambell dro yn effeithio ar farn y swyddogion, ac ni lwyddodd y Cyrff i ddelio'n effeithiol gyda'r torfeydd enfawr a drodd atynt yn ail hanner y ganrif. Unwaith eto rhaid pwysleisio fod hyn wedi digwydd yn raddol dros gyfnod maith. Canlyniad yr holl ddylanwadau hyn oedd disodli'n raddol nodweddion pendant, disgybledig a dwys sectyddol y Cyrff a wahanai credinwyr oddi wrth anghredinwyr, gan agwedd llawer mwy eangfrydig a goddefol.

Pennod 25. Cyfarfodydd Atodol.

Dros dreigl amser gwelwn newid sylfaenol yn agwedd y Cyrff tuag at gyfarfodydd. Ar ddechrau'r cyfnod - fel y gwelwyd - 'roedd holl gyfarfodydd y capeli'n benodol Gristnogol a Christ ganolog. Dim ond cyfarfodydd i addoli Duw ac i adeiladu'r credadun yn y Ffydd a gynhelid. Pwrpas ysbrydol yn unig oedd i'r holl weithgareddau. Yng nghyswllt cyfarfodydd gwelwyd dau ddatblygiad; y cyntaf oedd cynnydd yn nifer y cyfarfodydd sylfaenol, Crist ganolog. Credai Iolo Caernarfon y dylai pob eglwys o gryn faint, yn ychwanegol at foddion cyhoeddus y Sul gael cyfarfod eglwysig, cyfarfod gweddi cyffredinol, cyfarfod canu cynulleidfaol, cyfarfod gweddi i bobl ieuanc, cyfarfod darllen i ddynion, i ferched, cyfarfod i hyfforddi bechgyn a genethod rhwng pymtheg ac ugain mlwydd oed a chyfarfod i blant. «100» Rhydd hyn syniad eglur i ni o'r nifer o gyfarfodydd penodol Gristnogol a gynhelid mewn capeli yn ail hanner y ganrif. At yr uchod gellir ychwanegu cyfarfodydd pregethu, cyrddau chwarter a chyfarfodydd misol.

Yr ail ddatblygiad oedd ymddangosiad toreth o gyfarfodydd atodol poblogaidd eu naws ac eang eu hapél. «101» Wrth i nifer aelodau'r Cyrff gynyddu ac i'w diddordeb ehangu fe welid hefyd drai ar y gwrthwynebiad i gyfarfodydd amrywiol. Yr hyn sy'n bwysig yn y datblygiad hwn yw nad oedd y cyfarfodydd newydd hyn a fabwysiadwyd gan y Cyrff yn benodol Gristnogol ac er adeiladaeth ysbrydol y credadun. Cyfarfodydd seciwlar oedd llawer ohonynt, ond eto gyda naws Gristnogol gref. Trwy'r datblygiad hwn tyfodd y capeli i fod yn llawer mwy o ganolfannau cymdeithasol ac adloniadol, er fod eu prif bwyslais yn parhau i fod yn ysbrydol.

Gwelir y newid hwn wrth restru'r cyfarfodydd a gynhelid yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, erbyn diwedd y ganrif. Yn ogystal â'r moddion arferol ar y Sul cynhelid cyfarfod darllen, cyfarfod plant, cyfarfod cystadleuol, cymdeithas llenyddol a dadleuol, cymdeithas genhadol y chwiorydd, cymdeithas ddirwestol y chwiorydd, cyfarfod gweddi y chwiorydd, cyfarfod gweddi y bobl ieuanc, cymdeithas ariannol, cyfarfod canu yn ogystal â chyfarfodydd a oedd yn gysylltiedig â dirwest.^{'102'} Gwelwn yma fel y daeth cyfarfodydd atodol nad oeddent yn Grist ganolog yn rhan o fywyd yr eglwysi, fel y cyfarfodydd cystadleuol, cyfarfodydd llenyddol, cymdeithas ariannol a chyfarfodydd dirwestol. Diddorol yw sylw Ieuan Gwynedd Jones wrth iddo drafod gwleidyddiaeth Sir Feirionnydd ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dywed,

"However improbable this might sound, in fact this would involve the capture of one of the most important cultural activities of those rural communities, namely, the literary societies which, though often closely associated with chapels, nevertheless existed independently of religion."^{'103'}

'Roedd hi'n bosibl felly i gyfarfodydd gael eu cynnal mewn capeli heb iddynt fod yn uniongyrchol Gristnongol. Yn sicr 'roedd hwn yn ddatblygiad newydd yn hanes Ymneilltuaeth, ac yn arwydd o'r seciwlareiddio a oedd ar droed. 'Roedd nifer ac amrywiaeth y cyfarfodydd atodol a ddaeth yn rhan o weithgarwch y Cyrff Ymneilltuol yn enfawr. Cyfarfodydd llenyddol a diwylliadol^{'104'}, cyfarfodydd te^{'105'}, cyfarfodydd canu, cyngherddau^{'106'}, cyfarfodydd dirwestol (e.e. Gobeithlu, Temlyddiaeth Dda, Rechablaid, Urdd y Ruban Glas), cyfarfodydd gwleidyddol^{'107'}, cymdeithasau ariannol^{'108'}, eisteddfodau^{'109'}, cymanfaoedd canu a darlithoedd.^{'110'} Yn ei Hen Atgofion am ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg dywed W.J. Gruffydd

fod y llu cyfarfodydd a gynhelid wedi mynd yn afresymol a hyd yn oed yn fwrn ar yr aelodau.

"Yr oedd y capel yn bwrw ei gysgod dros holl egnion fy mywyd i a'm teulu. Ar ddydd Sul, byddem yn treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod rhwng ei furiau, ac yn ystod yr wythnos prin yr oedd un noson yn rhydd oddi wrtho. Ni wn a ydyw "crefydd" yn gymaint gormes ar blant yn awr ag yr oedd yn fy mebyd i; gobeithio nad ydyw oherwydd bachgen neu eneth a faged fel y'm maged i, gadw ei gariad at bethau'r capel ar ôl dioddef cymaint o ddiflastod, rhaid fod gwreiddyn y mater yn ei grefydd. Ar ddydd Sul, neu'r "Sabbath" fel y gelwid ef yn swyddogol, yr oedd tri chwedd rheolaidd, ac o leiaf ddau arall yn ychwanegol, y cyfarfod plant am un o'r gloch, a'r cyfarfod canu am bump, ac nid oedd dim ond dygn afiechyd yn ddigon o reswm dros aros adref o un o'r pum cyfarfod. Yn ychwanegol at hynny, yr oedd cyfyngiad drastig ar weithrediadau cyffredin bywyd plentyn." (111)

Ond beth oedd y rheswm fod y fath gyfnewidiad wedi digwydd o fewn y Cyrff, a fod cymaint o amrywiaeth cyfarfodydd wedi dod yn rhan o'u bywydau? Y gwir yw fod nifer o resymau am y newid, ac fe nodwn yma bedwar rheswm posibl. Yn gyntaf, fe awgrymai T.M. Bassett mai'r rheswm mwyaf oedd fod llawer o eglwysi'n ceisio talu dyledion yr addoldai.

"Awgrymwyd yn barod mai nodwedd arbennig eglwysi ail hanner y ganrif oedd yr ymdrech i ledu'r achos a'u bod wedi eu llithio i ddefnyddio dulliau newydd i dalu am y capeli mwy rhodresgar a'r dulliau rheini'n aml yn fydol eu naws a dweud y lleiaf. Fel dull o godi arian ac, i raddau, i'w chadw allan o'r dafarn y dygwyd yr eisteddfod i mewn i'r capel. Dilynwyd hithau gan y gyngerdd a daeth y gymdeithas ddiwylliadol yn rhan o batrwm wythnosol y frawdoliaeth. Ymdrechwyd i ddod â phob gweithgaredd o dan yr unto. Wrth fentro i'r meysydd newydd yma llanwodd yr eglwysi fylchau mawr ym mywyd y cymunedau pentrefol Cymraeg. Gadawyd arlliw'r capel a'i safonau'n drwm ar ein llenyddiaeth a bu llawer o feirniadu ar hynny. Ar yr un pryd gadawyd arlliw'r gweithgareddau mwy seciwlar yma ar y capel hefyd. Teimlid ymchwydd y bywyd seciwlar ar ei gweithgareddau hi ei hun. Gallodd gadw ffrwyn arnynt hyd ddiwedd y ganrif ond ar ôl hynny bu gwrthdaro." (112)

Awgrymir yn union yr un peth gan W.R. Lambert yng nghyd-destun dirwest, mai un rheswm fod y capeli wedi rhoi'r fath groeso i ddirwest oedd y gwneid casgliadau yn y cyfarfodydd tuag at y ddyled. «113» Ond ni ellir nodi dyled fel yr unig reswm am ddyfodiad y cyfarfodydd atodol.

All reswm y gellir ei nodi am y newid hwn yw, yn syml, datblygiadau cymdeithasol a thwf mewn gwybodaeth. 'Roedd gan weithwyr all hanner y ganrif lawer mwy o amser hamdden na'u hynafiaid ac nid oedd yn rhaid iddynt dreulio pob awr o'r dydd yn gweithio. «114» Felly 'roedd llawer mwy o alw am adloniant a difyrrwch.

Trydydd rheswm am hyn oedd fod y Cyrff yn awyddus i gadw eu pobl, ac oherwydd hynny yn barod i addasu eu gweithgareddau at anghenion eu cynulleidfaoedd. Yn hytrach na bod eu haelodau'n mynd ar ddisberod trwy fynychu eisteddfodau a chyngherddau mewn tafarndai, onid gwell oedd i'r gweithgareddau hynny ddod o dan adain y Cyrff? Dyma yr union reswm paham y cychwynnodd John Thomas, Lerpwl, gyfarfodydd llenyddol. Dywed ei gofiannydd,

"Ystyriai mai un moddion effeithiol i gadw pobl ieuainc o afael profedigaethau a'u cylchynent ydoedd meithrin ynddynt duedd at lenyddiaeth bur a dyrchafol, a'u gwneyd yn fyw i'w hawliau a'u cyfleusderau." «115»

Cytunai William Williams, Hirwaun, â hyn gan ddweud "mai amcan caniatau a goddef cyfarfodydd llenyddol ac eisteddfodau yn ein capelau ydoedd gwneud daioni; megys gefnogi gwybodaethau buddiol - tynu allan ddoniau ein pobl ieuainc - anog y bobl at addysg - talu dyled addoldai a chapelau, a'r cyffelyb bethau." «116»

Y pedwerydd rheswm - a'r olaf - oedd dylanwad dirwest. Hwyrach mai'r Mudiad Dirwestol^{'117'} yn fwy nag unrhyw fudiad arall a ddechreuodd chwalu'r rhagfur rhwng yr eglwys a'r byd. Ar y cychwyn cyntaf dangosai ddirwest arwahanrwydd y credinwyr oddi wrth y byd.

"Deprived of social status for much of the nineteenth century these nonconformists saw in a progressive cause like temperance a means of confirming their separateness from the world. Such separateness was a positive attraction to nonconformists, who were keen to show their contempt for traditional social habits and aristocratic immorality, and who wished to construct a godly community in a corrupt world."^{'118'}

Hefyd defnyddid Dirwest fel cyfrwng effeithiol i genhadu yn y byd, ac i dynnu anghredinwyr i mewn i'r eglwysi.

"A valid criticism made by contemporaries was that the church deliberately used temperance as an instrument of proselytism; temperance offered a way by which the churches could proselytise without going into the world. The recreational aspect of those temperance societies attached to individual churches acted as a bait to attract non-church goers. With the public house and chapel as the twin foci of social life, the temple of Bacchus - the People's Palace - became of necessity the deadliest competitor of the house of God. The public house was seen as being anti-God."^{'119'}

Yn ddi-os gwnaeth y Mudiad Dirwestol waith clodwiw a rhagorol yn dysgu'r Cymry am beryglon y ddiad gadarn gan arwain llawer o bydew meddwod. Er hynny, wrth i ddylanwad dirwest gynyddu ac i lwrymataliaeth ddod yn egwyddor llawer mwy cyffredin, fe ddigwyddodd o leiaf ddau beth a danseiliodd y meddylfryd sectyddol. Yn gyntaf, aethpwyd i uniaethu llwrymataliaeth yn ormodol ^âgydá bod yn Gristion. Ac yn ail, trwy ddirwest, daeth llawer o weithgareddau atodol seciwlar i fod yn dderbyniol gan, ac yn rhan o fywydau'r Cyrff.

Yn gyntaf, fe aethpwyd i wneud llyrymataliaeth fwy neu lai yn amod bod yn aelod eglwysig, yn enwedig yn eglwysi'r Methodistiaid Calfinaidd. ¹²⁰ Cawn yr argraff mewn rhai erthyglau a phregethau fod anghymedroldeb wedi cymryd lle Satan a llwrymataliaeth wedi cymryd lle Crist. Yn fwy na hynny, 'roedd rhai aelodau eglwysig yn fwy o ddirwestwyr nag o Gristnogion. Wrth sôn am gymeriad o'r enw Morgan Ifan dywed W. Hopley y geiriau dadlennol hyn,

"Ond dirwest y tentasid dyn i ddweyd oedd ei grefydd rywfodd - dirwest, dirwest, annwyl ddirwest! Melodi Paradwys i Forgan Ifan oedd sain y gair *titotal*." ¹²¹

Dywedir eto am yr un gŵr,

"A gadawer i mi chwanegu y gwn i o'r goreu nad esgeulusai efe mo'r Beibl ychwaith; a golwg fawr oedd ganddo ar ei anffaeledigrwydd ym mhob iot a thipyn ohono.....Er hynny, mi gredaf mai llawn mwy ei flas yn aml oedd Smith na Samuel, a Murphy na Meica, a Nott na Nahum, a Kirton na Chaniad Selyf, a Guthrie ar Ofidiau'r ddinas na Galarnad Jeremeia uwchben Caersalem, a Jabez Inwards na'r Jabez arall hwnnw weddiodd am eangu ei derfynau, ac Arnot na'r Apocryffa, yr ysbïai efe i mewn iddo ar dro yn yr hen Feibl teuluaidd." ¹²²

Hefyd wrth gyfeirio at Gaptan Owen a oedd yn aelod yn Nhŵr-gwyn, Bangor, dywed W. Hopley,

"Sirioldeb y môr a dywynai yn y Captan yn ei oriau hamddenol, a chlywid rhywbeth o ru'r môr ar dro yn ei araeth ar ddirwest. Canys dirwest oedd y pwnc o'r pynciau. Dwyn sel dros bob gwaith da, yr un pryd. Eithr sel dros ddirwest ydoedd y nôd amgen." ¹²³

Yn ystod yr wythnos ar ôl tanchwa fawr yng nglofa'r Albion, Cilfynydd, Pontypridd, ym 1894, cynhaliodd J. Evans, Eglwys-bach, nifer o gyfarfodydd. Dywed ei gofiannydd, "cymerwyd gan y Chwiorydd yn unig bedwar

cant a deg o ardystiadau dirwestol yr wythnos hono...."¹²⁴ Mae hwn yn osodiad annisgwyl oherwydd byddai dyn yn disgwyl i bregethwr fel John Evans arwain pobl at Grist yn gyntaf ac nid i arwyddo'r "pledge." Ym mis Awst, yr un flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod pregethu yn Neuadd y Dref, Pontypridd. Y pregethwr gwadd oedd Ademuywia o Jebu Remo, Gorllewin Affrica. Pregethodd ef bregeth ddirwestol ar gyngor Paul i Timotheus, i arfer ychydig win. Ac fe ychwanegir ar derfyn yr hanes, "caed arddeliad ar y gwasanaeth; dychwelwyd rhai at grefydd, a daeth tua thriugain ymlaen i ardystio."¹²⁵ Yr hyn sy'n ddiddorol yn y cyfeiriadau hyn yw fod pobl yn gallu bod yn rhan o'r mudiad dirwestol heb fod yn Gristion. Yn gallu cymryd rhan yn yr holl weithgareddau dirwestol heb fod yn aelod eglwysig. Y cwestiwn yw faint o bobl a ddaeth yn aelodau eglwysig oherwydd eu hymroddiad dirwestol yn unig?

Yr ail beth a wnaeth dirwest oedd dod â llawer o gyfarfodydd atodol i fod yn rhan o fywyd yr eglwysi. Nid oes rhaid ond crybwyll y Gobeithlu,¹²⁶ y Rechabiaid,¹²⁷ y Washington Club,¹²⁸ Urdd y Rhuban Las¹²⁹ a Themlyddiaeth Dda.¹³⁰ Yn ogystal â hyn, trwy Ddirwest fe wnaethpwyd nifer o gyfarfodydd a ystyrid gynt yn anaddas, yn barchus a derbynol i'r Cyrff, cyfarfodydd fel yr eisteddfod, cyngherddau, darlithoedd a chymanfaoedd cerddorol.¹³¹ Gallwn ddweud mai trwy ddrws cefn dirwest y cafodd nifer helaeth o'r cyfarfodydd hyn fynedfa i weithgarwch yr eglwysi.

Ond nid oedd dyfodiad y cyfarfodydd atodol at ddant pawb a mynegwyd cryn wrthwynebiad iddynt. Teimlid gan lawer nad oeddent yn weddus fel rhan o weithgareddau eglwysi Iesu Grist. Dywed T. Thomas nad oedd Cadwaladr Jones, Dolgellau, "yn rhyw hoff iawn o'r 'Cyfarfodydd Llenyddol,' er y byddai'n aml yn rhoddi ei bresenoldeb yn y rhai hyn. Ond credai y

byddent, yn y cyffredin, yn cael eu dwyn yn mlaen mewn dull rhy ysgafn a gwageddus ganddo ef; o'r hyn lleiaf, cefais le i gasglu hyn, oddi wrth ei agwedd yn un o'r cyrddau hyny. Yr oedd y steam wedi ei godi i'r eithafodd - pawb mewn hwyl, ac yn barod i chwerthin, a bod yn llawen; ond eisteddai yr hen ŵr yn eu canol, a'i wynebpryd fel gwynepbryd angel, yn sobr a difrifol, a danghosai ei holl agweddiad yr anghymeradwyaeth llwyraf o'r dull ysgafn a gwageddus y cerid y cyfarfod yn mlaen." <132>

Yn yr un modd, credai Edward Morgan, Dyffryn, fod y cyfarfodydd hyn yn gwneud niwed i'r Cyrff ac yn arwain aelodau ar ddisberod. Ar ôl Sul diffrwyth - yn ei dyb ef - o bregethu ym 1850, cafodd bwl o ddigalondid ac ysgrifennodd yn ei ddyddiadur.

"Teimlwn yn brudd iawn ddoe; dymunwn, pe byddai bossibl, gilio i rywle o'r weinidogaeth. Nis gallwn weled fy mod yn gwneuthur unrhyw ddaioni..... Yr wyf yn awr yn gweled yn amlwg effaith yr holl ganu a'r cyngherddau; y maent wedi cymmeryd ymaith bob archwaeth at bregethu y Gair. Ac y maent y paratöad goreu sydd yn bossibl at y Chwareudy a'r Babaeth. Ni byddai o gwbl yn syn genyf, ped agorid capel Pabaidd, mewn un o'r ardaloedd hyn, lle y ceir yr holl ganu yma, weled y bobl yn heidio yno. Y mae eu dull o ddwyn yn mlaen yr addoliad yn cyfarfod chwaeth lygredig y bobl ieuaingc. A phed agorid ynddynt chwareudy cyrchai y bobl iddo wrth y cannoedd. Ystyriaethau difrifol; ond nid oes genyf ammheuaeth am eu gwirionedd." <133>

Teimlai Edward Morgan, Dyffryn, felly fod y cyfarfodydd atodol yn pylu ymwybyddiaeth ysbrydol ei gynulleidfa gan eu gwneud yn llawer mwy bydol eu bryd. Condemniai William Williams, Hirwaun, y cyfarfodydd atodol yn llwyr ac yn gyfan gwbl. Hwyrach iddynt gael eu cychwyn gyda bwriadau da ond 'roedd eu heffeithiau'n datblygu i fod yn andwyol i grefydd. Dywedai, "dan ein hargyhoeddion presenol, nis gallwn lai na chredu, os parha yr eglwysi i agor y cysegrleoedd i gyfarfodydd sydd yn cael eu bwriadu yn wledd o chwerthin, y bydd y canlyniadau yn ddinystriol i foesau a chrefydd

yr oes sydd yn codi....Nid ydynt yn ol ein barn ni yn meithrin chwaeth at wir wybodaeth. Arweiniant y werin ieuanc at chwedlau difyr, cerddoriaeth wageddus, barddoniaeth ysgafn, a rhigymau chwerthingar, a darnau mewn rhyddiaeth at gynhyrfu y tymherau.....Mae y chwaeth a feithrinant o'r un rhywogaeth ag eiddo y chwareudy. Tueddant i arwain y dô ieuanc oddiwrth yr Arglwydd, i esgeuluso chwilio a darllen yr ysgrythyrau, i'w hanaddasu i addoli yr Arglwydd, a lladd ysbryd eu gweddïau."¹³⁴ Yr un oedd barn W.Jones (Lleynfab), mewn pamffled a ymddangosodd ganddo ym 1876. Dywedai fod yr addoldai yn cael eu camddefnyddio yn aml iawn "i bregethu dynion," yn hytrach nag i "bregethu Crist yn Geidwad i bechaduriaid."¹³⁵ Pe byddai ef yn cael ei ffordd fe fwriai "o bob addoldy yn mhob cymmydogaeth ddarlithio ar ddynion, cyfarfodydd llenyddol, a'r tea parties &c."¹³⁶ Yn ei farn ef 'roedd "concerts a chyfarfodydd llenyddol yn lleihau dylanwad grasol yr efengyl ar gorph y boblogaeth."¹³⁷

Mae'n amlwg fod gohebydd yn Y Dysgedydd (1877), wedi alaru ar yr holl gyfarfodydd atodol a dywedai, "Ai ni byddai pregeth noson waith gan ryw un lled alluog, yn llawer mwy buddiol na'r darlithiau a'r concerts diddiwedd sydd bron bob nos?"¹³⁸ Credai Henadur pan ysgrifennodd i'r Dysgedydd (1890), fod y cyfarfodydd llenyddol a'r eisteddfodau a gynhelid mewn capeli ac ysgoldai wedi gwneud niwed mawr. Tybiai ef mai "hawdded mewn ambell ardal fuasai llwyddo perswadio rhyw ddsbarth i beidio cynal Ysgol Sul neu roddi heibio y cyfarfod gweddïo am lwyddiant yr efengyl yn mysg pechaduriaid, ag a fyddai eu darbwylo i dynu ymaith eu cefnogaeth i'r cyfarfod llenyddol."¹³⁹ Ac yn fwy na hynny uchelgais llawer dyn ieuanc oedd bod yn flaenllaw yn y cylch llenyddol yn fwy felly nag yn y cylch crefyddol. Ac fe ychwanega Henadur yn drist, "gall fod yn gyhoeddus iawn ar esgynlawr yr eisteddfod leol, tra y mae yn anhawdd ei gael i gymeryd rhan

yn y gyfeillach a'r cyfarfod gweddio."¹⁴⁰ Gwelwn felly, nad oedd pawb yn hapus gyda'r datblygiad hwn am fod cyfarfodydd atodol nid yn unig wedi eu hychwanegu at weithgareddau'r capeli ond mewn rhai achosion wedi cymryd lle cyfarfodydd ysbrydol.

Er mai ceiso ennill pobl o'r byd a cheisio eu cadw rhag dylanwad y byd a barodd i'r Cyrff dderbyn y cyfarfodydd atodol hyn, mae'n amlwg fod eu dyfodiad wedi gwanhau eu tystiolaeth ac wedi lleihau y gwahaniaeth rhyngddynt a'r byd anghrediniol. Mae'n wir fod y Cyrff wedi cymryd llawer o gyfarfodydd seciwlar dan eu hadain gan roi arlliw Cristnogol iddynt, ond nid dyna'r unig beth a ddigwyddodd. Oherwydd 'roedd dyfodiad y cyfarfodydd atodol yn gadael eu hól seciwlar ar yr eglwysi, a llawer o amser ac ynni yn cael eu defnyddio i gynnal cyfarfodydd ymylol nad oeddent yn eu hanfod yn weithgareddau ysbrydol.¹⁴¹ Canlyniad hyn oedd fod y dystiolaeth bendant gadarn Gristnogol yn cael ei phylu. Fel y mae arllwys dŵr i uwd yn ei deneuo felly yr oedd dyfodiad y cyfarfodydd atodol yn gwanhau'r dystiolaeth sectyddol.¹⁴² Ar ôl y cyfnod hwn ni fu'r gwahaniaeth rhwng y Cyrff Ymneilltuol a'r byd yr un mor amlwg. Sylwodd John R. Roberts, Aberhosan, ar y datblygiad hwn ac ysgrifennodd yn Y Dysgedydd (1877), gan ddweud,

"Mae cydymffurfiad yr eglwys a'r byd yn bechod cyffredin yn yr oes hon....Mynych yr edliwir gan y gelynion yn y dyddiau hyn, fod yr eglwys a'r byd yn rhy debyg i'w gilydd, fod y ffin a fu unwaith mor eglur rhyngddynt, bron wedi ei dynu i lawr; fod y crefyddwyr a'r digrefydd yn gyfryw nas gellir yn rhwydd eu gwahaniaethu, fod yn hawdd iawn camgymeryd y naill am y llall...ac ysywaeth, y mae gormod o wirionedd yn yr edliwiad, ond ni ddylai pethau fod felly....Mae ysbryd y byd fel chwŷn yn tagu ei holl dda,- yn difa ei chariad, yn gwanychu ei nerth, yn bwyta ei chryfder, yn pylu ei chleddyf, yn llygru ei phurdeb, yn dyrysu ei heddwch, yn chwerwi ei chysuron, yn sychu ei hysbryd....Mae yn sicr na bu bydolrwydd erioed yn teyrnasu mor gyffredinol yn yr eglwys ag yn y dyddiau hyn; ni bu disgyblion Mammon erioed mor lluosog a phenboeth eu defosiwn."¹⁴³

Nid oes diffiniad symlach na chliriach o'r datblygiad hwn ymhlith sectyddion i gynnwys agweddau'r byd, na'r isod gan Werner Stark,

"Those who would like their sociology to be a kind of applied physics might be inclined to explain the ever-repeated process of sect decay with the help of the second law of thermodynamics: objects which are hotter than their environment tend to give off heat to that environment until an equalization of temperatures is brought about. Such a formulation though rather awkward and unduly metaphorical, would contain a great deal of truth." (144)

Pennod 26. Ysfa Adeiladu.

Datblygiad arall sy'n ddiddorol ac yn berthnasol i'r astudiaeth hon, yw'r duedd fu yn ail hanner y ganrif i adeiladu capeli mawreddog, addurniedig ac adnewyddu hen addoldai gan droi cefn i raddau helaeth ar gapeli plaen a di-addurn dechrau'r ganrif. Ysgrifennai J.R., Conwy, yn Y Cronicl (1861), gan ddweud, "Ni chlywyd am y fath adeiladu addoldai mewn un rhan o'r byd er dyddiau Moses ag sydd yng Nghymru eleni."⁽¹⁴⁵⁾ A dywed R. Tudur Jones, na fu "cymaint o adeiladu ac ail-adeiladu a hyd yn oed drydydd adeiladu ar gapeli ag a fu rhwng 1850 a 1900."⁽¹⁴⁶⁾ Rhwng 1851 a 1905 cynyddodd nifer addoldai'r Annibynwyr o 640 i 1,078;⁽¹⁴⁷⁾ cynyddodd nifer addoldai'r Bedyddwyr o 433 ym 1851⁽¹⁴⁸⁾ i 901 ym 1905.⁽¹⁴⁹⁾ Yr un oedd hanes y Methodistiaid Calfinaidd, ym 1851 'roedd ganddynt 807 o addoldai ac erbyn 1905, 1,411.⁽¹⁵⁰⁾ Felly hefyd y Wesleyaid, ym 1851 'roedd ganddynt 455 o addoldai a gynyddodd i 661 ym 1905.⁽¹⁵¹⁾ Ym 1851 'roedd gan y pedwar Corff Ymneilltuol oddeutu 2,478 o addoldai a gynyddodd i 4,051 erbyn 1905, cynnydd o 1,573. Nid yw'r ystadegau hyn gwaetha'r modd yn cynnwys yr addoldai hynny a ail-adeiladwyd neu a ehangwyd yn yr un cyfnod.⁽¹⁵²⁾ Erbyn 1905 'roedd gan y pedwar Corff rhyngddynt 4,526 o gapeli ac ysgoldai, dim ond 1,546 o eglwysi oedd gan yr Eglwys yn Nghymru a 318 o ystafelloedd cenhadu.⁽¹⁵³⁾

Yn y cyfnod hwn (1850-1900) brithwyd trefi a phentrefi Cymru gan addoldai o bob lliw a llun, yr oeddent fel caws llyffant yn ymddangos dros nos. Awgrymir nifer o bethau i ni gan y datblygiad hwn mewn adeiladu capeli. Yn un peth 'roedd yn ymateb cadarnhaol ac ymarferol gan y Cyrff Ymneilltuol i'r cynnydd mawr a fu mewn aelodaeth. Os oedd y cynnydd i barhau fel ag y gwnaeth rhwng 1849 a 1861, oni fyddai angen adeiladau mwy i ddal y cynulleidfaoedd? 'Roedd yn arwydd hefyd o'r cynnydd a fu mewn safon

byw a'r arian ychwanegol a oedd gan bobl gyffredin yn eu meddiant. Mae'n syndod parhaus y symiau enfawr o arian a roddwyd gan y werin bobl tuag at amrywiol achosion yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. E.e., Cyfanswm casgliadau'r Eglwysi Annibynnol ym 1890 oedd £124,825.⁽¹⁵⁴⁾ Cyfanswm casgliadau Eglwys y Tabernacl (A), Lerpwl, ym 1856 oedd £500.⁽¹⁵⁵⁾ Casglodd Edward Morgan, £24,203 i ffurfio Cronfa i gynnal Athrofa'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala, ac yna casglodd £15,000 i godi'r adeilad. Yn yr un cyfnod casglodd Edward Matthews £15,946 tuag at gronfa Coleg Trefeca.⁽¹⁵⁶⁾ A chanlyniad ymdrechion a haelioni'r aelodau oedd fod arian ar gael i adeiladu'r capeli newydd.

Ond y gwir yw nad oedd llawer o'r capeli mawrion yn llawn ond ar achlysuron arbennig, a'u bod yn aml yn rhy fawr i'r gynulleidfa arferol.⁽¹⁵⁷⁾ Gwendid mawr arall oedd fod amryw o gynulleidfaoedd wedi mynd ati i adeiladu capeli crand heb yn gyntaf fwrw'r draul. O ganlyniad bu llawer o gynulleidfaoedd dros eu pennau a'u clustiau mewn dyled am flynyddoedd maith, a gosodai hyn faich ariannol trwm ar ysgwyddau gweinidogion a swyddogion.⁽¹⁵⁸⁾ Ym 1861 cyfanswm dyledion eglwysi'r Bedyddwyr oedd £85,721⁽¹⁵⁹⁾ ac ym 1890 cyfanswm dyled Eglwysi'r Annibynwyr oedd £223,042.⁽¹⁶⁰⁾ Oherwydd yr ysfa i adeiladu ac adnewyddu capeli fe ddigwyddodd rhai pethau cwbl hurt a di-alw amdanynt. Dywedai W. Ambrose yr hanes canlynol yn ei atgofion, am weinidog gyda'r Bedyddywr.

"Yr oedd arno flys mawr am gael ei ordeino; o'r diwedd, fe ymwithodd i le bychan yn weinidog, gan ymrwmo, os ordeinid ef, yr adeiladai gapel newydd, ac y talai y ddyled. Felly y bu. Adeiladwyd gapel hardd; cerddodd yr hen lanc drwy Gymru, Lloegr, Scotland, Iwerddon, a'r Isle of Man, i gasglu ato. Talodd bob dimai o'r ddyled felly. Ond wedi cael capel, yr oedd eisiau cynulleidfa; ond yn lle cynyddu; mynd yn waelach waelach yr oedd o hyd."⁽¹⁶¹⁾

Capel newydd, ond dim cynulleidfa i'w lenwi. Yr awgrym yw fod goradeilladu'n digwydd a chapeli diangen yn cael eu codi, dim ond oherwydd mympwy rhai pobl ddi-arweiniad. Oddeutu 1878, pan oedd John Evans, Eglwysbach, yn weinidog yno, aeth Wesleyaid Cymraeg Llundain ati i adeiladu capel newydd yn City-road ar gost o £10,000. Y rhyfeddod yw mai dim ond 130 o aelodau oedd yn yr eglwys ar y pryd.⁽¹⁶²⁾ Menter fawr gan gynulleidfa fechan. Ac fe barodd y ddyled loes a phryder mawr i John Evans a'r aelodau am flynyddoedd maith.⁽¹⁶³⁾ O'i gymharu nid oedd y ddyled o 1,700p yr ymgymerodd y 25 o aelodau eglwys Kilsby Jones & hi, yn Llandrindod, ym 1868, i adeiladu eu capel newydd ond fel mân us.⁽¹⁶⁴⁾ Y gwir yw fod llawer o gynulleidfa oedd yn y cyfnod hwn wedi gorymestyn yn ariannol trwy ysgwyddo dyledion rhy fawr.

Mae'n amlwg nad oedd yr holl adeiladu wrth fodd pawb. Gwardai Mathetes⁽¹⁶⁵⁾ yn Seren Gomer (1851), oherwydd yr anhrefn a'r gwastraff a oedd yn aml yn gysylltiedig ag adeiladu addoldai. Gofynnai y cwestiwn, "onid rhesymol fyddai adeiladu yn ol y moddion; paham yr a ychydig o dlodion i ganoedd o bunau o ddyled heb un sylfaen i obeithio y gallant dalu?"⁽¹⁶⁶⁾ Yn ei farn ef, "gwell fyddai i ychydig o weiniaid adeiladu capel i ateb i boblogaeth y gymydoggaeth, heb wario canoedd o bunau i gael oriel a chorau drwyddo oll, ac ymdrechu i gael y cyfryw yn mhen blynyddau, os byddai angen am danynt a modd i'w cael - dylid tori y goat yn ol y brethyn."⁽¹⁶⁷⁾ Ysgrifennodd Robert Jones, Llanllyfni, at y Parch. Owen Davies, Llangollen, ym mis Ebrill, 1871, yn mynegi ei bryder am yr ysfa adeiladu a oedd wedi gafael yn yr Ymneilltuwyr, fel a ganlyn.

"Yr wyf yn ofni ein bod ni yn yr oes hon yn ormod am redeg ar ol pethau newyddion, yn ymddibynu gormod ar bethau dynol, yn rhy ddfater am symlrwydd yr efengyl, a chael Duw i weithio yn ein mysg. Nid oes dim ammheuaeth nad oes gormod o falchder a rhyfyg yn fynych gydag addoldai, ac y mae hyn yn arwain i lawer iawn o

ddrygau. Y mae yn gwneyd eglwysi yn gaethweision i bob ynfydrwydd, i foddio y byd llygredig, er cael cymhorth eu harian at y dyledion. Y mae y dynion sydd o dan bwysau yr arian yn teimlo yn rhyfeddol at yr achos mawr! Ond yr arian a wariwyd ar ynfydrwydd yw pwys eu gofid, ac nid yr efengyl ac achub eneidiau. Os bydd pregethwr ffyddlawn a gonest yn dygwydd bod yn anmhoblogaidd, bydd yn rhaid ei gael i ffwrdd, a chael un gwaelach yn ei le, os meddylient y gall hwnw yn rhyw ffordd gael mwy o arian i mewn. Pe boddlonai dynion ar fath addoldy a allai eu hamgylchiadau hyfforddio, gallent sefyll dros y gwirionedd yn ddibrofedigaeth, a chymmeryd yr hyn a ddeuai i'w cyfarfod." (168)

Mewn rhai ardaloedd fe aeth yn gystadleuaeth rhwng y Cyrff i adeiladu addoldai a hynny'n gwbl ddiangen. Yn hytrach na bodloni fod un capel Ymneilltuol mewn ardal, datblygodd y syniad fod yn rhaid i bob un o'r pedwar Corff gael addoldy i'w cynrychioli. Yn y pen draw 'roedd yr agwedd hon yn andwyol i Ymneilltuaeth ac yn wastraff enbyd ar adnoddau a chyfalaf. Dywed John Thomas, Lerpwl, yn ei gofiant i Thomas Rees,

"Yr unig berygl a welwn ydyw amlhau capeli yn ddianghenraid, ac yn enwedig i gydymgais enwadol gael ei gario mor bell, fel yr ydym eisoes wedi cyfeirio, nes fod y naill enwad yn ymwthio i ardaloedd sydd wedi eu meddianu gan un o'r enwadau efengylaidd. Rhaid cofio hefyd nad yw lluosogi capeli yn llwyddiant crefyddol bob amser. Gall eu hamhad fod yn wanychdod. Mae yn haws hefyd codi capeli na chael dynion iddynt; ac er mor anhawdd yn fynych yw cael arian, y mae hyn yn haws nag enill eneidiau. Cael dynion cymhwys i bregethu yn y capeli yw yr anhawsder mawr. Gall cynlluniau dynol lenwi y wlad â chapeli cyfleus; ond rhaid cofio hefyd fod capeli, fel pob peth arall allanol crefydd, i fod yn dyfiant a dadblygiad ei hysbryd oddifewn. Nid yr eglwysi gychwynodd mewn capeli hardd a adeiladwyd iddynt gan eraill, yw y rhai sydd wedi profi yn fwyaf llwyddianus yn hanes ein gwlad, eithr yn hytrach yr eglwysi a ddechreusant yn fychain mewn ystafelloedd cyfyng, ac a eangasant eu terfynau fel yr oedd eu nerth a'u bywyd crefyddol yn cryfhau." (169)

Dylai John Thomas wybod beth oedd pwysau ymgymryd â dyled capel gan iddo wneud hynny ei hun ym Mhenbedw, '170' ac yn y dyfyniad uchod mae'n cynghori aelodau'r eglwysi Ymneilltuol i fod yn llawer mwy pwylllog wrth ystyried adeiladu addoldai newydd.

Yn wahanol i'r gorffennol yn y cyfnod hwn fe ddaeth yr adeiladau'n bwysig, nid yn unig fel lle hwylus i ymgynnull ac addoli, ond o ran adeiladwaith a phensaernïaeth. Aethpwyd ati i addurno rhai ohonynt gyda gwaith coed, dur a phlastro cywrain, rhoddwyd pibellau organ mawreddog i fwrw eu cysgod dros y pulpud yn y rhai mwyaf ac aethpwyd ati i addurno blaen ambell un gyda cholofnau rhwysgfawr. ^{'171'} Canlyniad hyn oedd creu balchder ymhlith yr aelodau tuag at eu hadeiladau. ^{'172'} Rhywbeth na fu yn rhan o feddylfryd y Cyrff yn y gorffennol. Daeth y capel i fod yn "status symbol" - yn enwedig yn y trefi - ac yn rhywbeth llawer mwy parhaol nag y bu. Fel y dywed Guto Prys ap Gwynfor,

"Bwriwyd iddi i ddefnyddio'r adnoddau newydd hyn i ogoneddu'r adeiladau a'u gwneud yn fwy sefydlog ac anadnewyddadwy. Er mwyn cynorthwyo'r canu sicrhawyd organau hardd, drudfawr a leolwyd mewn man amlwg yn y capel. Codwyd meini coffa ar y muriau yn null yr eglwysi, sy'n ei wneud yn llawer anos bwrw'r wal i lawr! Cyflogwyd penseiri oedd yn barod i gynllunio capel godidocach o ran golwg nag eglwys y plwyf; aeth nifer o'r eglwysi hynny i edrych yn debycach i hen gapeli anghydfurfiol mewn cymhariaeth. Adeiladwyd festrïoedd hardd, ond yn hytrach na defnyddio'r hen derm 'Ysgoldy' benthyciwyd y gair eglwysig 'Festri'. Codwyd tŷ arbennig i'r gweinidog, y Mans,.....yr oedd yn rhaid iddo fod cymaint a chyn hardded â'r ficerdy." ^{'173'}

Fel y gwelsom yn gynt yn yr astudiaeth hon, ystyrid capeli ar ddechrau'r ganrif, fel adeiladau hwylus y gellid eu dymchwel, eu hadnewyddu neu eu ail-adeiladu yn gwbl ddi-rwystr. Rhyw dabernaclau oeddent i'w codi a'u dymchwel yn ôl yr angen. Nid oedd unrhyw ymlyniad nac ystyr i'r adeiladau heb y gynulleidfa. I'r gwrthwyneb nid oedd rhaid cael adeilad pwrpasol i gynulleidfa addoli ynddo, gallent orfoleddu mewn ysgubor cystal bob tamaid ag y gallent orfoleddu mewn capel. Adlewyrchai'r agwedd hon farn y Piwritaniaid a gredai "there is no more holiness in the church than in their kitchen, nor in the Lord's table than in a dresser-board." ^{'174'} Yr un hefyd oedd agwedd y Crynwyr a'r Lutheriaid tuag at yr addoldai. ^{'175'} Ond

yn raddol daeth tro ar fyd a thros gyfnod o amser fe ddaeth y capel yn bwysicach yn y gweithgareddau. O ganlyniad trodd Cristnogaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg o fod yn grefydd yr aelwyd a'r teulu i fod yn grefydd capel ganolog. Aethpwyd i feddwl fod y capel yn rhywbeth mwy na lle cyfleus i ymgynnull, a datblygodd y syniad fod y capel yn adeilad arbennig. 'Roedd y canoli hwn ar grefydd yn y capel yn rhan o'r broses o ysgaru Cristnogaeth oddi wrth fywyd cyffredin pob dydd. Tyfodd yr ymdeimlad mai adeilad i'w barchu oedd y capel a disgwylid i'r aelodau ymddwyn yn weddus ynddo. Nid oeddent bellach i ymddwyn yn y capel fel yr ymddygent gartref ar yr aelwyd, amharch fyddai ymarweddiad o'r fath. Ac fe aethpwyd i ystyried capeli fel adeiladau sanctaidd. Gwelwn yr agwedd hon yn dod i'r amlwg mewn erthygl gan William Williams, Hirwaun, yn Y Diwygiwr (1862), pan ddywedodd,

"Gofynir, a hyn yn ddigon rhesymol, A oes rhyw gysegrwydd yn perthyn i addoldy ag sydd yn gwahardd cynal pethau ereill ynddo a fyddo yn fuddiol i gymdeithas? neu, ydyw yn gyfreithlawn ar achlysuron i droi ty gweddi yn dy marchad, neu ei droi yn chwareudy, mor bell ag y mae chwareu difyrus yn gyfreithlon i'r natur ddynol? Yr ydym yn credu nad ydyw. Nis gellir yn ol ein barn ni, gynal cyfarfodydd difyrus yn yr addoldy heb ddinystrio ei gysegrwydd. Nis gellir ei ystyried yn lle neilltuedig at wasanaeth Duw, ac yn dy yr Arglwydd tra byddo gwrthrychau a phethau ereill yn ei feddianu, pethau ag y mae natur eu dylanwad yn wahanol i addoliad dwyfol." (176)

Cododd anniddigrwydd hefyd ynglŷn â chynnal cyfarfodydd o naws ysgafn yn y capeli. Gofynnai "Un o Leyn" yn Y Tyst (1870), "A gaf i ofyn gyda difrifoldeb eneidiau pa esgus sydd genych i'w roddi dros bleidio a chynnal y cyfarfodydd llenyddol, cyngherddau, a'r cyffelyb yn nhy Dduw, y fan y mae wedi ei gyfenwi yn dy gweddi - yn fangre y mae wedi addaw cyfarfod a'i bobl mewn bendithion i'w heneidiau?" (177) Credai fod y cyfarfodydd hyn yn gwneud drwg mawr, "y mae y tai addoliad wedi myned yn brif fan gan leuenctyd i fyned yno i borthi eu nwydau llygredig; ac y mae

pleidwyr y cyfarfodydd llygredig sydd yn codi yn ddigon doeth i wybod pa beth a deru oreu ar deimlad y rhai ieuainc."⁽¹⁷⁸⁾ A'i ateb i hyn oedd symud y cyfarfodydd hyn i ryw adeilad ar wahân i'r capel. "Os nad oes dim all rwystro y bechgyn i fyned i'r dafarn ond concert, gadewch ryw adeilad iddynt yn lle capel i'w gynnal; ac yna caiff y capel fwy o barch fel lle i addoli."⁽¹⁷⁹⁾ Tueddai "William" i greu'r un fath, sef mai da o beth fyddai cynnal cyngherddau a chyfarfodydd cystadleuol mewn adeilad fel ysgoldy neu neuadd y dref, yn hytrach nag yn y capel.⁽¹⁸⁰⁾ Dwysai'r ymdeimlad felly fod y capel yn adeilad neilltuedig a chysegredig, ac aethpwyd ati mewn llawer i ardal i adeiladu ysgoldai i gynnal cyfarfodydd atodol, gan ddefnyddio'r addoldy yn unig i addoli. Sylwodd J.G.Davies ar yr un duedd yn union ymhlith yr Anglicaniaid, a dywed,

"This apartness was emphasized by another aspect of the Anglican building programme, viz. the erection of church halls, which became common towards the end of the nineteenth century. Since the church is a sacred space from which all secular activities are to be excluded, if the Christian community is to perform any social services requiring rooms, the accommodation has to be provided outside the liturgical area. This is the rationale of the church hall. In parish after parish these large rooms were erected.....This has remained Anglican practice to the present day. A clearer expression of the division of sacred and secular could scarcely be found."⁽¹⁸¹⁾

Pen draw hyn yn achos y Cyrff Ymneilltuol oedd fod ffurfioldeb a threfn gaeth yn datblygu yn y gwasanaethau, ffurfioldeb a lyffetheiriaid'r nodweddion sectyddol anhrefnus a byrfyfyr. 'Roedd yr agwedd hon yn ymdebygu i agwedd yr Eglwyswyr tuag at eu heglwysi, gan edrych ar eu haddoldai fel adeiladau sanctaidd a chysegredig. Gyda dyfodiad y capeli newydd yn ail hanner y ganrif, 'roedd llawer ohonynt yn addurniedig a gorffenedig. 'Roedd rhywbeth llawer mwy parhaol ac arhosol ynddynt, a phobl yn dod i'w hystyried yn llawer mwy o adeiladau sanctaidd.⁽¹⁸²⁾ Mynegwyd yr agwedd

newydd hon gan ohebydd dienw, yn Y Dysgedydd ym 1856. Ysgrifennai gan ddweud. "nid oes dim eglurach na bod rhyw wahaniaeth rhwng tŷ addoli a thŷ masnachol, neu dŷ annedd. Dylai addoldy fod yn y fath drefn a phrydfferthwch fel y byddo'n dangos ei hun mai tŷ addoli ydyw." (183) Sylwodd Werner Stark ar y nodwedd hon ymhlith sectyddion - fel y gwelsom yn y rhagymadrodd - pan ddywedodd,

"As poverty recedes and well-being progresses, there arises a very understandable desire to exchange the dank and dark cellar or the dingy store in which the group has at first worshipped for some more dignified, or at any rate more suitable premises. And when these premises are acquired, there follows the no less understandable desire to beautify them. The same onset of a more aesthetic attitude can be observed in the services themselves: with a better shell comes a hunger for a better kernel. The simple, often all too simple style of the lay-preacher is no longer satisfactory or acceptable: there springs up a taste for more sophisticated sermons, and this presupposes a trained predicant and, ultimately, as a secondary development, the formation of training institutions." (184)

Y gwir yw wrth i deulu addoli yn yr un adeilad dros gyfnod maith, 'roedd yr adeilad ei hun fwy neu lai yn dod yn rhan o'u "profiadau" crefyddol ac o'u hanes teuluol. (185) 'Roedd traddodiadau'n datblygu a phobl yn troi'n sentimental am yr adeiladau oherwydd fod eu bedydd, eu magwraeth, eu derbyniad i gyflawn aelodaeth, eu priodas a'u cynhebrwng maes o law i gyd yn gysylltiedig â'r un addoldy. 'Roedd profiadau mwyaf dwys, trist a llawen eu bywydau'n annatod glwm gyda'r capel a phob sedd a charreg yn cyfleu rhyw atgof iddynt. Yn Hanes eglwys Peniel, Aberteifi, fe geir y cyfeiriad hwn.

"Diddorol yw sylwi i'r Ysgrifenyddiaeth aros yn yr un teulu o'r cychwyn pell, ganrif a chwarter yn ôl, hyd y dydd hwn. Ysgrifennydd cyntaf yr eglwys oedd John Davies, Aberdeuddwr..... Ar ei ôl ef daeth Thomas Davies, ei nai; yna David Davies ei fab yntau; a heddiw T.J. Davies, mab David Davies drachefn. - record rhagorol iawn." (186)

Er fod teulu'r Dafisiaid uchod i'w canmol am eu hymroddiad i waith yr ysgrifenyddiaeth, dengys y geiriau hyn pa fodd yr oedd traddodiad ac olyniaeth deuluol yn dechrau dod yn rhan o fywydau'r Cyrff, a pha fodd yr oedd y capel yn cydblethu rywfodd neu'i gilydd gyda hanes bywydau'r aelodau. O ganlyniad nid rhinweddau ysbrydol a gallu unigolyn bob amser a oedd yn ei wneud yn gymwys i dderbyn swydd eglwysig ond beth oedd ei linach a'i dras. Rhywbeth yw hyn a fyddai'n wrthun a bydol yng ngolwg y sect, gan fod unrhyw fath o draddodiad o'r math hwn yn groes i'r agwedd sectyddol. Pen draw hyn wrth gwrs yw'r gapelyddiaeth a'r ymlyniad gorffwyll sydd gennym yn awr ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif tuag at "ein capel ni."

Y cwestiwn a gyfyd yma yw a oes cysylltiad rhwng enwadaeth a chapelyddiaeth? A yw agwedd y sect yn wahanol i agwedd yr enwad tuag at yr adeiladau yr addolant ynddynt? Yn ôl y dystiolaeth, fe ymddengys fod gwirionedd yn hyn. Mae'r enwad yn llawer mwy caeth a chlwm i'w adeilad na'r sect. Ystyria fod yr addoldy yn adeilad cysegredig, ond nid i'r un graddau â'r eglwyswyr. Oherwydd fod y capel yn lled-gysegredig mae'n rhaid ymddwyn yn gyfrifol ynddo, a chanlyniad hyn yw ffurfioldeb. Ar y llaw arall, mae'r sect yn rhydd o agweddau o'r fath. Yn aml iawn nid oes ganddynt adeilad wedi ei godi yn bwrpasol i addoli ynddo. Ac os oes nid yw eu hymddygiad yn cael ei dymheru a'i addasu wrth iddynt ei fynychu.

Pennod 27. Cyfundrefnu.

Nodwedd arall amlwg yn hanes y Cyrff yn ail hanner y ganrif oedd eu hawydd cynyddol i roi trefn ar eu holl weithgareddau gan ffurfio cyfundrefnau canolog i hyrwyddo eu gwaith. Oes y trefnu mawr oedd oes Victoria, oes y pwyllgorau ac oes ffurfio cannoedd o sefydliadau cyhoeddus. Yr un fu yr hanes gyda'r Cyrff Ymneilltuol. Cynhaliwyd Cymanfa Gyffredinol gyntaf y Methodistiaid Calfinaidd, a unai Dalaith y De a'r Gogledd, yn Abertawe yn y flwyddyn 1864. ⁽¹⁸⁷⁾ Sefydlwyd Undeb y Bedyddwyr mewn cyfarfod yn Llanwenarth ym mis Awst, 1866. ⁽¹⁸⁸⁾ Ffurfiwyd Undeb yr Annibynwyr Cymreig ar ddechrau'r saithdegau ac fe gynhaliwyd ei gyfarfodydd blynyddol cyntaf yng Nghaerfyrddin ym mis Medi 1872. ⁽¹⁸⁹⁾

Yn ôl Roger Mehl, un o nodweddion y sect yn ei chychwyniad yw ei gwrthwynebiad i drefniadaeth a hierarchiaeth,

"This individualism is manifested in the sect by the rejection of an organization that is too hierarchical and distant, by the defiance towards any institutionalism which would resemble that of the world, and by an anti-sacramental attitude." ⁽¹⁹⁰⁾

Daw y gwrthwynebiad hwn yn erbyn cyfundrefn i'r amlwg fel arfer drwy i sect wrthwynebu'r eglwys sefydledig sydd bob amser gyda chyfundrefn ganolog gadarn. Ond mae'n bwysig nodi nad gwrthwynebiad i gyfundrefnaeth ynddi'i hun ydyw gwrthwynebiad y sect ond gwrthwynebiad i'r hyn a gynrychiolir gan y gyfundrefn e.e., defodaeth, caethiwed addoliad, marweidd-dra a ffurfioldeb. Ychwanega R. Mehl,

"The sect sees itself more as a movement than as an institution. This is why it is often characterized, at least in the beginning, by a fluid, embryonic, and spontaneous organization, and by the abandoning of the pastoral ministry as a professional activity. It refers itself to the primitive church, which it feels was not

at all institutional. As with the primitive church, the sect attempts to make charisma prevail over function, spontaneity over organization, the prophet over the priest, inspiration over doctrine. It is "enthusiastic" in the proper sense of the term. "«191»

Pan yw sect yn llwyddiannus yn ei chenhadaeth y mae nifer ei haelodau'n cynyddu a changhennau'n amlhau. Pan fo hyn yn digwydd y mae tuedd iddynt ddatblygu cyfundrefn ganolog i hyrwyddo eu gwaith a'u cenhadaeth, ac i roi trefn ar eu gweithgareddau.

"Let us also point out that the numerical growth of a church or of a religious movement involves a movement towards structural and hierarchial organization, even if such organization had not been initially desired." «192»

Ond wrth edrych ar gyfundrefnu yng nghyd-destun y symudiad o'r sect i'r enwad mae'n rhaid bod yn hynod ofalus. Y rheswm am hyn yw na ellir dweud yn bendant fod trefniadaeth a chyfundrefnu ynddo'i hun yn arwydd o symudiad tuag at enwadaeth, oherwydd y mae rhai cyrff sy'n dangos nodweddion sectyddol amlwg hefyd yn gyrff trefnus a chyfundrefnol iawn. Fe ddywed B. Wilson,

"A feature of sects in contemporary society is that they tend to develop some sort of centralised organisation, however minimal.....Central organisation in itself, however, is not to be equated with a denominational tendency, since central control may be effectively employed to prevent such trends as with the Jehovah's Witnesses. On the other hand, such agencies may be a departure from the original sect ideal their development may be a response to some external threat to the sect's values, but they also imply the surrender of other values." «193»

Gall trefniadaeth ganolog felly gadarnhau agweddau sectyddol trwy bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng credinwyr a'r byd a chadw'r arwahanrwydd hwn am gyfnod amhenodol. Cyrff cyfundrefnol sydd wedi llwyddo i gadw nodweddion

amlwg sectyddol yw Byddin yr Iachawdwriaeth, '194' Y Tystion Jehofa a'r Mormoniaid. Yng nghyswilt hanes Cymru, gellir dweud fod y Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleyaid wedi bod â threfniadaeth ganolog o'r dechrau ac yn Gyrff cyfundrefnol, er hynny 'roedd iddynt nodweddion sectyddol amlwg. Yn sgil hyn gellir dweud nad yw datblygiad cyfundrefn ganolog o reidrwydd yn arwydd fod sect yn troi'n enwad. Ond ar y llaw arall onid un o nodweddion enwad yw cyfundrefn gadarn? A all corff crefyddol fod yn enwad, heb fod ganddo gyfundrefn ganolog? Oherwydd trwy greu cyfundrefn fe hybir nodweddion enwadol. E.e., Y mae rhai swyddogion yn anochel yn mynd i gael eu hystyried yn bwysicach nag eraill. Ac mae hyn yn ei dro yn tanseilio egwyddor cydraddoldeb sydd mor amlwg yn y sect. Hefyd fe roddir trefn ar weithgareddau a fu gynt yn ddi-drefn.

Cwestiwn na ellir ei osgoi yn y fan hon yw beth yw'r elfennau sy'n gwahaniaethu trefniadaeth sectol oddi wrth drefniadaeth enwadol? Er fod gwahaniaeth sicr, nid cwestiwn hawdd i'w ateb yw hwn. Ni cheisiaf roddi ateb cyffredinol gan fod datblygiad cyrff crefyddol - fel y tywydd - yn amrywio gymaint o wlad i wlad. Ond wrth edrych ar ddatblygiad y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru a oedd a ffurf ar drefniadaeth o'r cychwyn gallwn nodi rhai nodweddion a all fod o gymorth. Yr oedd trefniadaeth gynnar y Methodistiaid yn cael ei gweinyddu gan lawer o leygwyr a gweinidogion rhan amser. 'Roedd gweithgareddau'r cyrddau misol a'r Gymdeithasfa'n gyfyngedig i faterion ysbrydol, diwinyddol a disgyblaethol. Ac yr oedd pwyslais mawr ar wrthwynebu'r "byd". Pwrpas y gyfundrefn oedd cadarnhau'r eglwysi lleol. Nid oedd unrhyw bencadlys na gweithwyr llawn amser yn cael eu cyflogi i gynnal strwythur y Corff.

Wrth i gyfundrefn y Methodistiaid Calfinaidd gael ei thraed oddi tani, fe welir tuedd gynyddol mai'r ceffylau blaen oedd y gweinidogion llawn amser, ac yr oedd dylanwad y lleygwyr i raddau'n lleihau. Gwelid hefyd symudiad oddi wrth y pwyslais ysbrydol cyfyngedig tuag at bwyslais mwy eangfrydig ac ymarferol. O dipyn i beth gwelid angen i gyflogi gweithwyr llawn amser i weinyddu'r gyfundrefn a phencadlys i ganoli'r gweithgareddau.

Yn sgil yr hyn a nodwyd uchod gallwn ddweud am yr enwad fod y gyfundrefn ei hun yn llawer pwysicach. Erbyn i Gorff droi'n enwad fe geir yr argraff mai pwrpas yr eglwysi lleol yw cadarnhau'r gyfundrefn, sydd yn ei thro yn ddolen gyswllt rhwng yr eglwysi a chyrff Cristnogol eraill. Mae'r gyfundrefn enwadol yn llawer mwy allblyg a rhyddfrydol yn ei hagwedd na'r gyfundrefn sectol. Mae'r gyfundrefn sectol fel pe bai yn arloesol mae'r gyfundrefn enwadol fel pe bai yno i gynnal yr hyn sydd.

Yr hyn sydd yn bwysig i'w ofyn - yn ôl y cymdeithasegwyr - yw a oedd y cyfundrefnu yn ail hanner y ganrif yn arwain y Cyrff i gydnabod dilysrwydd Cyrff eraill, ac i'r ymdeimlad mai un mudiad oeddent ymhlith nifer o fudiadau Cristnogol eraill? Oherwydd yn ôl Roger Mehl,

"A sect progresses towards the status of church when it agrees to collaborate with other churches." (195)

Gyda'r gosodiad hwn fe ddeuwn ar draws anhawster wrth edrych ar y datblygiadau yng Nghymru. Yr anhawster gyda'r gosodiad uchod yw, ai un Corff oedd yr Ymneilltuwyr Cymreig, ynteu nifer o Gyrff ar wahân? Os mai Cyrff unigol oeddent, - yn Annibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid Calfinaidd a Methodistiaid Wesleyaidd - yr oedd llawer o gydweithredu rhyngddynt ers

yn gynnar iawn, ac felly 'roedd y symudiad at enwadaeth wedi cychwyn yn llawer cynt na chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond os gellir eu hystyried fel un mudiad, gellir gwneud dadansoddiad cwbl wahanol oherwydd eu gwrthwynebiad i Eglwys Loegr a'r Eglwys Babyddol. Yn y fan hon, felly, fe ddeuwn at ddeuoliaeth ym mywydau'r Cyrff. Ar un llaw fe gawn yr argraff fod y pedwar Corff Ymneilltuol yn bodoli'n gwbl ar wahân ac annibynnol ar ei gilydd ac yn pwysleisio'n fynych y gwahaniaethau a oedd rhyngddynt. Ond ar y llaw arall fe gawn yr argraff mai un mudiad oeddent, a'u bod yn aml iawn yn ystyried eu hunain fel uned Anghydfurfiol. Un peth oedd i arweinyddion ddatgan arwahanrwydd rhwng y Cyrff a'i gilydd, peth arall oedd i'r ymdeimlad hwnnw dreiddio o'r brig i'r bôn at yr aelodau cyffredin.

Yr hyn a anghofir yn aml iawn, yw fod llawer mwy o gydweithio yn digwydd rhwng y gwahanol garfanau Cristnogol nag a dybir yn gyffredin. Hwyrach mai gwendid haneswyr yn fynych yw gorbwysleisio dadleuon a chynhennau, oherwydd eu bod yn aml yn fwy difyr na chytgord a chydweithredu. Mae'n gwbl wir fod llawer o ddadlau a checru ymhlith yr Ymneilltuwyr yn ystod y ganrif; dywedwyd llawer o bethau cas a niweidiol gan arweinyddion y pedwar Corff. Ond y gwir yw fod llawer o gyd-dynnu hefyd rhyngddynt, os nad ar raddfa genedlaethol, yn sicr felly ar raddfa leol. Dylid hefyd gwneud y pwynt, er fod llawer o ddadlau rhwng gwahanol ogwyddiadau diwinyddol, yn aml iawn 'roedd y dadleuon hyn yn croesi ffiniau'r Cyrff. Yn fynych nid dadleuon oeddent rhwng dyweder y Methodistiaid Calfinaidd a'r Bedyddwr, neu rhwng y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, ond dadleuon rhwng carfanau o fewn y mudiad Ymneilltuol, a phob carfan yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwahanol Gyrff. E.e., Gyda, dyweder, y garfan Galfinaidd o bob Corff yn uno i wrthwynebu'r garfan a gefnogai y

Galfiniaeth Gymedrol ym mhob corff. Mae sylwadau Ieuan Gwynedd Jones yn berthnasol iawn yn y cyswllt hwn.

"There was a community of belief that was of the utmost practical significance, for it is difficult to see how the denominations as a whole could have developed so powerfully, without internecine warfare and with virtually no secessions, had they not shared in a fundamental concurrence of belief and uniformity of practical theology. *Odiūm theologicam* there was, but it was never on such a scale as to disrupt the universal consensus or render impossible the holding of common attitudes to the world or the achieving of common aims. It is undoubtedly true that the role of ideology and denominational differences in Welsh religious life have been exaggerated at the expense of the fundamental community that existed, and it may perhaps be a characteristic error on the part of historians, who tend rarely to wander beyond the study or out of the manse, to believe that the esoteric ideas and the subtly-spun differences of trained theologians should be of much relevance to the average worshipper." (196)

Ac mae'n amlwg fod yr ymdeimlad hwn o undod Anghydfurfiol, neu undod Protestannaidd, yn bodoli yn ystod y ganrif. Oddeutu'r flwyddyn 1858 fe draethodd W. Roberts, Amlwch, ar natur eglwys ac yn ystod ei araith dywedodd,

"nad oedd Duw wedi rhwymo ei hun wrth ffurf eglwysig yn y byd - esgobyddiaeth, na henaduriaeth, nac annibyniaeth, - fod dynion wedi eu hachub yn yr Eglwys Sefydledig, ac y gwyddai ef a'i frodyr fod Duw wedi bod yn gweithio yn mysg y Methodistiaid, a'i fod wedi ymostwng i achub dynion yn nglŷn ag Annibyniaeth; nad oedd wahaniaeth ganddo pa ffurf - rhywbeth weithiau." (197)

Amlygid yr undod a'r cydweithrediad hwn rhwng y Cyrff Ymneilltuol, mewn amryw ffyrdd yn ystod y cyfnod sydd dan sylw. Nid peth dieithr oedd i aelodau ddilyn pregethwyr poblogaidd o gapel i gapel, (198) ac ambell dro byddai'r Cyrff yn rhannu addoldy mewn ardal, fel yn y cyfeiriad hwn gan John Thomas, Lerpwl.

"Yn mhen llawer o flynyddoedd daeth yr Henfwlch i feddiant un Beynon, Eglwyswr, ond yn meddu tipyn o gydymdeimlad âg Ymneilltuaeth.....Cododd gapel newydd ar groesffordd, ryw ergyd bwa oddiwrth y tŷ a rhoddodd ef at wasanaeth y tri enwad - Methodistiaid, Bedyddwyr, a'r Annibynwyr - i bregethu ynddo ar gylch." (199)

Nid yn unig 'roeddent yn rhannu addoldai ond hefyd fe gynhelid cyfarfodydd ar y cyd, yn arbennig mewn cyfnodau o ddiwygiad. Yn ystod Diwygiad '59 cynhaliwyd cannoedd o gyfarfodydd gweddi undebol, fel y tystia J.J.Morgan isod.

"Ar ôl iddo ddyfod i gymdeithasu â'r Parch. D.Morgan, ac i'r ddau ddyfod o'r unrhyw ysbryd, dechreuwyd gyda y cyrddau gweddi; daeth y Wesleyaid a'r Methodistiaid oedd yn y gymdogaeth i gydweithredu.....Ar ol i'r ddau weinidog gwledig a syml drefnu y cyrddau gweddïo, a chael yr eglwysi o'r un feddwl, cynelid hwynt yn eu tro yn mhob addoldy, a hyny bob nos am rai wythnosau." (200)

Wrth iddo astudio Diwygiad '59 fe sylwodd Eifion Evans, ar yr undod arbennig a ddatblygodd ymhlith yr Ymneilltuwyr.

Gosodwyd deunydd y traethawd hwn yn fframwaith y categorïau a ddatblygwyd gan y cymdeithasegwyr crefydd wrth drafod gwahanol ffurfiau ar drefniadaeth grefyddol. Heb os nac oni bai bu hyn yn gynorthwyol wrth ymdrin â'r deunydd a'i gyflwyno'n ddealladwy a destlus. Wrth ddefnyddio'r categorïau hyn mewn ffordd feirniadol fe gafwyd canllawiau hwylus i ddisgrifio'r datblygiadau yn y cyfnod dan sylw. Er hynny 'roedd rhaid bod ar ein gwylidwriaeth wrth eu cymhwyso at hanes Cymru rhag ystumio'r dystiolaeth hanesyddol, gan fod y cymdeithasegwyr yn ceisio llunio patrymau cyffredinol. Ac yn aml iawn 'roedd eu categorïau yn llawer rhy gyffredinol ac annelwig. Mae'n amlwg iawn oddi wrth y dystiolaeth fod cyfnewidiadau mawr yn digwydd rhwng 1840 a 1870 a bu eu hystyried yng ngoleuni'r datblygiad o 'sect' i 'enwad' yn ffordd deg i'w dadansoddi. Hyd yn hyn nid oes nemor ddim trafodaeth wedi bod ar hanes crefydd yng Nghymru yn y cyddestun cymdeithasegol hwn.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif bu astudio ac ymchwilio dyfal a manwl ar amrywiol agweddau ar fywyd Ymneilltuwyr Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae gwaith rhagorol wedi ei wneud ac astudiaethau niferus wedi eu cyfansoddi ar eu gweithgareddau gwleidyddol, gwlatgarol, addysgol, dirwestol, llenyddol, diwinyddol a chymdeithasol. Ond hyd yn hyn ni wnaed unrhyw archwiliad cynhwysfawr i'r datblygiadau mewnol. Maes arbennig y traethawd hwn yw'r cyfnewidiadau mewnol a ddigwyddodd yn y Cyrff Ymneilltuol. Talwyd cryn sylw i weithgareddau gwleidyddol y Cyrff gan haneswyr ond dyma'r tro cyntaf i'r ochr fewnol gael ei hastudio'n fanwl. Yn wir, ychydig iawn o astudiaethau ysgolheigaidd sydd i'w cael ar y pwnc hwn. O ganlyniad nid oedd yn bosibl byrhau'r traethawd trwy gyfeirio atynt a

mabwysiadu eu casgliadau. Ac felly 'roedd yn rhaid ystyried y dystiolaeth yn y modd llawnaf posibl. Siomedig oedd y defnyddiau llawysgrif a bu'n rhaid dibynnu'n helaeth ar ffynonellau printiedig. Y mae'r rheini'n hynod doreithiog a dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu maintioli a'u dadansoddi yn y dull hwn.

Mewn llawer amgylchiad ffrwyth newidiadau mewnol oedd y gweithgareddau allanol, er wrth gwrs fod newidiadau allanol yn anochel yn effeithio ar fywyd mewnol y Cyrff. Ond ni ellir llawn werthfawrogi na deall y gweithgareddau allanol heb ystyried y newidiadau mewnol. Mae'r traethawd hwn yn dangos sut yr oedd newidiadau mewnol yn cyd-ddigwydd â datblygiadau allanol - ac mewn rhai achosion yn rhagflaenu - ac y mae hynny'n rhoi golwg newydd ar yr hyn a ddigwyddodd. Nid digon, wrth astudio hanes crefydd yw canolbwyntio'n unig ar y gweithgareddau cymdeithasol a gwleidyddol. Rhaid hefyd astudio'r ffordd yr oedd y diddordebau hynny'n newid ansawdd ac ymddygiad pobl yn y sectau. Ar yr un pryd y mae astudio'r newidiadau mewnol yn ein cynorthwyo i ddeall sut yr oedd y sectau'n eu cymhwysu eu hunain ar gyfer gweithredu ar y llwyfannau cyhoeddus. Yr oedd y sectau'n ymateb tros gyfnod canol y ganrif i gyfres o ymgyrchoedd cyhoeddus - mudiad rhyddhau'r caethion, hawliau cyfreithiol aelodau'r eglwysi fel dinasyddion, Deddf Diwygiad 1832, Siartiaeth, Mudiad Beca, Diddymu Deddfau'r Yd, parchu'r Saboth, addysg ddyddiol, Brad y Llyfrau Gleision a Datgysylltiad yr Eglwys. Wrth i'r sectau ymddiddori fwyfwy yn yr ymgyrchoedd hyn, yr oeddent yn dod i ddylanwadu'n sylweddol ar fywyd cyffredinol y genedl. Ond yr oedd pris i'w dalu a hwnnw'n bris mawr. O dipyn i beth yr oedd eu cymeriad fel sectau'n newid. Asgwrn cefn y traethawd yw ceisio dadansoddi natur y newid hwnnw. Y gwir yw nad pwysau allanol yn unig sy'n peri newid

yn ymarweddiad, meddylfryd, a datblygiad sectau crefyddol. Er mwyn i ddatblygiadau allanol ddigwydd mae'n rhaid wrth newidiadau mewnol.

Y mae'r dadansoddiad yn dangos sut yr ymddangosodd ffactorau a oedd yn amodi bywyd yr eglwysi at ddiwedd y ganrif ac yn y ganrif nesaf. Wrth ddatblygu'r ysbryd a'r drefniadaeth enwadol, yr oedd y brwdfrydedd ysbrydol a'r llymder disgyblaethol a'u nodweddiadau gynt yn lleihau ac fe ddaeth yr ysbryd seciwlaraidd yn fwy i'r amlwg. Disgyblaeth oedd y prif arf oedd ganddynt i ddiogelu purdeb eu cymeriad fel sectau. A dyma'n bennaf a warchodai'r nodweddiadau sectyddol rhag dylanwadau y byd allanol. Pan oedd y ddisgyblaeth yn cael ei chadw'n fanwl, rhoddid pwys ar ansawdd ymgeiswyr wrth eu derbyn yn aelodau. Disgwylid iddynt fod â dealltwriaeth, o leiaf, o sylfeini'r ffydd Gristnogol, bod o gymeriad moesol glân a meddu profiad personol crefyddol diffuant. O dipyn i beth, fel y gwelwom, daeth derbyn aelodau'n fater mwy ffurfiol. Gyda phobl ifanc, golygai eu derbyn am eu bod yn cyrraedd oedran neilltuol a digon oedd iddynt ddangos cydnabyddiaeth ffurfiol â gofynion moesol ac athrawiaethol yr eglwys yr ymument â hi. Yn bennaf drwy i'r ddisgyblaeth eglwysig lacio ac i'r Cyrff golli eu gafael tynn ar eu haelodau fe gynyddodd dylanwad y byd allanol ar fywyd ac ymarweddiad y sectariaid. Daethpwyd i feddwl fwy fwy am Gristnogaeth yn nhermau gweithredu gwleidyddol a chymdeithasol ar draul symud y pwyslais oddi ar y diddordeb mewn diwinyddiaeth ac ar yr elfennau ysbrydol pur.

Ni roddwyd sylw manwl i'r trafodaethau diwinyddol. Yn un peth, ceir sawl trafodaeth ysgolheigaidd eisoes ar y wedd honno ar fywyd crefyddol y cyfnod. Ond ceisiwyd awgrymu fod cysylltiad rhwng y newid yng nghymeriad y sectau a'u gogwydd diwinyddol ac y mae'n amlwg mai un o

ganlyniadau'r newid oedd lleihau'r diddordeb mewn diwinyddiaeth bur gan fabwysiadu pwyslais trymach ar weithredu cymdeithasol a chrefydd ymarferol.

Nid oedd dim yn fwy trawiadol yn y datblygiad na'r newid sylweddol dros gyfnod cymharol fyr yn ymddygiad y bobl. Lleihaodd yr elfennau gwerinol, amrwd ac anhrefnus a chynyddodd y pwyslais ar wedduster, parchusrwydd a threfn. Datblygodd dosbarth proffesiynol o weinidogion llawn amser a daeth ffurfioldeb a threfniadaeth yn rhan annatod o'u gweithgareddau. Mae'n gwestiwn a yw'n gynorthwyol i ddisgrifio'r ymddygiad newydd fel 'gwthio safonau dosbarth canol' ar werin gwlad. Ond yn sicr lle gynt yr oedd gwerthoedd a oedd yn deillio o'u dealltwriaeth o'r Testament Newydd yn amlwg a'r rheini wedi eu tymheru gan arferion nodweddiadol o'r dosbarth gweithiol mewn gwlad ac ardaloedd diwydiannol, daeth gwerthoedd trefol yn amlycach - gwisgo'n weddus, parchu'r Saboth, llwrymwrthod ag alcohol, mawrygu llwyddiant bydol a phethau o'r fath. Ac yr oedd y gwerthoedd newydd hyn yn tanseilio llawer ar y gwerthoedd sectyddol. Un mynegiant o'r duedd hon oedd lluosogi'r 'capeli crand', gyda'r Tabernacl, Treforys, ar y blaen iddynt i gyd, fel y 'cathedral Anghydfurfiol Cymraeg', chwedl Trebor Lloyd Evans. Ac yr oedd y proses hwn yn mynd i greu beichiau ariannol trymion i genhedlaeth ddiweddarach. Ochr yn ochr â hyn fe symudodd Ymneilltuaeth o fod yn grefydd yr aelwyd i fod yn grefydd y capel gan gollu ei gafael ar galon y gymdeithas sef y teulu estynedig.

Ond onid oedd y diwygiadau yn gyfrwng i adfer y pwyslais ar yr elfennau ysbrydol ym mywyd y Cyrff? Ar yr olwg gyntaf yr oedd y diwygiadau'n ailgynnau'r elfennau pentecostalaidd a charismatig a oedd yn nodweddu'r Cyrff Ymneilltuol byth er pan ddaethant o dan ddylanwad y Diwygiad Efengylaidd. Ond o sylwi'n fanylach ar y dystiolaeth, ni ellir

anwybyddu'r duedd rymus i gymedroli'r nodweddion hyn. Yr oedd y Cyrff Ymneilltuol tra oeddent yn parhau'n sectau'n gallu dygymod ag ymddygiad naturiol, cartrefol, di-drefn yn eu hoedfeunon. Yr oedd agosatrwydd yr aelodau at ei gilydd yn amlwg. Yr oedd eu harwahanrwydd oddi wrth y byd o'u cwrpas i'w weld yn amlycach yn eu moesoldeb, eu hiaith a'u bywyd ysbrydol nag yn eu hymddygiad cymdeithasol. Ond rhwng 1840 a 1870, daeth yn amlwg iawn fod 'parchusrwydd' ar gynnydd. Disgwylid ymddygiad mwy ffurfiol, mwy defodol, yn y capel a'r tu allan iddo. Aeth arweinwyr y Cyrff yn llawer mwy ymwybodol o safonau ymddygiad y byd llwyddiannus a dyfodd ym mlynnyddoedd canol y ganrif. Aeth ymddygiad y bobl o ganlyniad yn fwy disgybledig, mwy defodol a mwy ffurfiol. Mewn geiriau eraill, yma eto 'roedd safonau seciwlar i'w gweld ym mywyd yr eglwysi wrth iddynt ddatblygu'n enwadau.

Gyda'r cynnydd mawr yn eu haelodaeth yr oedd y Cyrff yn datblygu'n ddylanwad enfawr ar gymdeithas ac ar fywyd y genedl. Canlyniad hyn oedd codi cwestiynau hynod ddwys ynglŷn â pherthynas crefydd a diwylliant. Fel pob mudiad crefyddol, yr oedd Ymneilltuaeth Cymru'n llunio patrymau diwylliannol. Gwnâi hynny trwy lyfrau, trwy ei hemynau, trwy'r ysgolion Sul, trwy feithrin gwerthoedd moesol ac argraffu egwyddorion diwinyddol ar feddylliau pobl. Diwylliant lleiafrif oedd hwn yn y ddeunawfed ganrif ond fel y cryfhâi Ymneilltuaeth, deuai'r diwylliant i ddylanwadu'n raddol ar fwy a mwy o bobl. Fel y dengys y nodiadau cyfeiriadol yn y traethawd hwn, daw'n amlwg fod y cylchgronau'n offerynau neilltuol ddylanwadol i esbonio, dyrchafu, cymeradwyo a hysbysebu'r diwylliant hwnes dyfod ohono'n ddiwylliant mwyafrif. Ond pa bryd y mae'r eglwys Gristnogol yn peidio â bod yn famaeth diwylliant ac yn troi'n lawforwyn y diwylliant a fagodd? Rywbryd tua chanol y ganrif ddiwethaf dechreuodd troad y rhod ddigwydd. Aeth y Cyrff i ymddiddori mewn cyfarfodydd llenyddol, mewn

paratoi adloniant trwy gyfarfodydd cystadleuol, mewn cynnal ymgyrchoedd cymdeithasol fel y mudiad dirwest, mewn cefnogi mudiad gwleidyddol fel y Blaid Ryddfrydol, mewn meithrin canu mewn cymanfaoedd ac eisteddfodau. Datblygodd eu gweinidogion a'u swyddogion i fod yn bobl bwysig yn y gymdeithas. Mewn gair, yr oedd y diwylliant yn dechrau tynghedu gwaith a datblygiad y Cyrff. I'r Sect, byddai'r cwbl yma'n anathema. I'r enwad yr oedd yn destun balchder ac yn brawf o'i aeddfedrwydd cyfrifol. Ond yr oedd y cwbl hefyd yn golygu seciwlareddio ar raddfa enfawr. Yr oedd y diddordeb ysbrydol a diwinyddol yn prysur fynd yn ymylol.

Yn y traethawd hwn, felly, ceisiwyd olrhain a dadansoddi y prif newidiadau mewnol a fu mor allweddol yn nhwf a datblygiad y Cyrff Ymneilltuol erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Datblygiadau a oedd yn rhan o'r symudiad oddi wrth sectyddiaeth tuag at enwadyddiaeth. Proses cymleth oedd hwn, ac am gyfnod maith 'roedd nodweddion sectyddol ac enwadol yn cydfyw a'i gilydd o fewn i'r Cyrff. Ond wrth edrych ar yr holl dystiolaeth gwelwyd y nodweddion sectyddol yn gwywo, a'r nodweddion enwadol yn blodeuo. Dim ond cychwyn y daith a nodir yn y traethawd hwn oherwydd ni chyrrhaeddodd nifer o'r datblygiadau eu penllanw hyd yr ugeinfed ganrif. A dim ond wrth astudio'r cyfnod hwnnw y gwelir enwadyddiaeth yn ennill y dydd yn derfynol ar sectyddiaeth.

Trwy'r datblygiadau hyn, newidiodd naws y Cyrff o fod yn gymdeithasau ysbrydol, disgybledig, bychan, cyfyngedig, - ac i raddau'n gaŷedig a mewnblyg - a wrthwynebai'n chwyrn y byd a'i ddylanwadau, i fod yn gymdeithasau niferus, poblogaidd eu hapel ac eang eu diddordebau ond ar draul gadael i ddylanwadau bydol a seciwlar dreiddio i ganol eu bywyd a pheri newid dramatig yn eu hethos.

Llyfryddiaeth.

- A Sketch of the History and Proceedings of the Deputies, (Llundain, 1813).
- Abbey, C.J., & J.H. Overton, The English Church in the Eighteenth Century, II, (1878).
- Adroddiad Undeb yr Annibwywyr Cymraeg.
- Addysg Yng Nghymru 1847-1947, Llyfryn gan yr Adran Addysg, (Llundain, 1948).
- Addleshaw, G.W.O., & F. Etchells, The Architectural Setting of Anglican Worship, (Faber & Faber, 1948).
- Ahlstrom, Sydney E., A Religious history of the American people, (1972).
- Ambrose, William, (Emrys), Adgofion Fy Ngweinidogaeth, (Dolgellau, dim dyddiad), (gol.), H. Elvet Lewis.
- Baalen, J.K. Van, The Chaos of the Cults, (Michigan, 1938).
- Bainton, Roland, The Reformation of the Sixteenth Century, (Boston, 1952).
- Barnard, H.C., A History of English Education, (Llundain, 1961).
- Bassett, T.M., Bedyddwyr Cymru, (Abertawe, Ty Ilston, 1977).
- Barnes, Albert, Y Testament Newydd gyda Sylwadau Eglurhaol ac Ymarferol, cyfieithwyd gan Thomas Rees, (Dinbych, 1858).
- Baxter, R., Haner Cant o Resymau Paham y Dylai Pechadur Droï at Dduw Heddyw, Heb Oedi, (Llanidloes, 1833).
- Biéler, B., Architecture in Worship, (E.T. Oliver & Boyd, 1965).
- Birchenough, C., History of Elementary Education, (Llundain, 1920).
- Briggs, John, & Ian Sellers, Victorian Nonconformity, (Llundain, 1973).
- Briggs, M. S., Puritan Architecture, (Lutterworth Press, 1946).
- British and Foreign School Annual Report, (1815).
- Burnett, John, A Social History of Housing, 1815-1970, (Newton Abbot, 1978).
- Burns, D., Temperance History.
- Burrell, Maurice C., & J. Stafford Wright, Some Modern Faiths, (Leicester, 1983).
- Burrell, Maurice C., The Challenge of the Cults, (Llundain, 1983).
- Census of Religious Worship in England and Wales, 1851, (Llundain, 1854).
- Clarke, B.F.L., The Building of the Eighteenth Century Church, (S.P.C.K., 1963).
- Cofiant Ebenezer Davies.
- Cofiant y diweddar Barch. John Evans, Hebron, Swydd Benfro: a'i briod Martha, (Caerdydd, 1850).
- Cofiant y Parch. John Roberts, Llanbrynmair, (Llanelli, 1837, nid oes enw awdur).
- Crossik, Geoffrey, (gol.), The Lower Middle Class in Britain, 1670-1914, (1977).
- Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol, ail argraffiad, (Dolgellau, 1805).
- Curtis, S.J., History of Education in Great Britain, (Llundain, 1948).
- Cybi, Yr Arloeswr Sol-Ffa yn Sir Gaernarfon yr hwn a Gyfenwid -"Cae'r Go:" William Hugh Williams (Gwilym Erch), (Pwllheli, dim dyddiad).
- Cyfrifon o Draul Anghymmedroldeb, (Caerlleon, 1833).
- Chapman, S. D., (gol.), The History of Working-class Housing. A Symposium, (1971).
- Charles, D., Deg a thri Ugain o Bregethau, H. Hughes (gol.), (Caerlleon, 1840).
- Charles, Thomas, Geriadur Ysgrythyrol, y seithfed argraffiad, (Wrecsam, 1884).

- Church, R.W., The Oxford Movement. Twelve Years 1833-45, (Llundain, 1891).
Church of England and Other Bodies in Wales. Royal Commission Report,
 (1910).
- Dale, R.W., History of English Congregationalism, (Llundain, 1907).
- Davidoff, Leonore, & Catherine Hall, Family Fortunes: Men and Women of the English Middle Class, 1780-1850, (1987).
- Davies, Charles, Canmlwyddiant Eglwys y Bedyddwyr Cymreig yn y Tabernacl Caerdydd, (Caerdydd, dim dyddiad).
- Davies, D. Charles, Darlithiau ar Ysbrydoliaeth y Bibl, (Treffynnon, 1872).
- Davies, David Charles, Ysbrydoliaeth y Beibl, (Pamffled, Treffynnon, 1872).
- Davies, David, Bywgraffiad J.R.Jones, o Ramoth, (Llangollen, 1911).
- Davies, Dewi Eirug, Hoff Ddysgedig Nyth, (Abertawe, 1976).
- Davies, E., (gol.), Y Fasgedaid Friwfyd, (Llannerch-y-medd, 1867).
- Davies, E., James Hughes sef Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911?).
- Davies, E., Christian Schools, (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, 1978).
- Davies, E., & A. D. Rees (gol.), Welsh Rural Communities, (Caerdydd, 1960).
- Davies, E.Cynffig, Cofiant y Parch. William Griffith, Caergybi, (Dolgellau, 1883).
- Davies, D.Cunllo, Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd yn Hermon, Dowlais, (Bala, 1905).
- Davies, Evan, Cofiant y Parchedig Joseph Thomas, Carno ynghyd a Detholion o'i Anerchiadau a'i Bregethau, (Dolgellau, 1890).
- Davies, Horton, Christian Deviations, (Gateshead, 1954).
- Davies, J.G., The Secular Use of Church Buildings, (Llundain, 1968).
- Davies, J.G., The Origin and Development of Early Christian Church Architecture, (SCM Press, 1952).
- Davies, John, Cronfa o Adgofion, (Salford, 1891).
- Davies, O., Cofiant R.Jones, Llanllyfni, (Llangollen, 1903).
- Davies, Owen, Cofiant y Parch. John Prichard, D.D., Llangollen, (Caernarfon, 1880).
- Davies, T., Yr Aelod Cyflawn: Neu Lawlyfr yr Aelod Eglwysig, (Dolgellau, 1861).
- Daunton, M.J., House and Home in the Victorian City: Working-class Housing, 1850-1914, (1973).
- Dennison, James T., The Market day of the Soul: The Doctrine of the Sabbath in England: 1532 -1700, (Lanham, 1983).
- Deuddeg o Resymau o Blaid Dirwest, (Caerlleon).
- Dictionary of Christian Theology.
- Dodd, C.H., The Authority of the Bible, (1938).
- Drummond, A.L., The Church Architecture of Protestantism, (T. & T. Clark, 1934).
- Edwards, L., Traethodau Llenyddol, (Wrecsam, dim dyddiad).
- Edwards, Lewis, Traethodau Duwinyddol, (Wrecsam, Hughes a'i Fab, dim dyddiad).
- Edwards, R., & J.Hughes, Buchdraeth y Diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, (Wrecsam, dim dyddiad).
- Edward, Robert, Atgofion neu Hanes Crefydd yn Cynnwys Diwygiad '59 yn Llanfachell a'r Cylch, (Dinbych, 1910).
- Edwards, Roger, Y Gofadail Fethodistaidd, cyfrol 1, (Conwy, 1882).
- Edwards, Thomas Charles, Bywyd A Llythyrau y Diweddar Barch. Lewis Edwards, (Lerpwl, 1901).
- Edwards, W., Traethawd ar Ddirwest, (Merthyr Tydfil, 1847).
- Eliade, Mircea, (gol.), The Encyclopaedia of Religion, (Llundain, 1987).
- Eliade, Mircea, Rites and Symbols of Initiation, (Efrog Newydd, 1958).
- Ellis, Griffith, Cofiant y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych,

- 1906).
- Ellis, Moses, Y Pwys o Fod Gwahaniaeth Rhwng yr Eglwys a'r byd yn Fwy Amlwg, (Llanelli, 1853).
- Eos Iâl, Ffrwyth y Profiad neu Waedd yn erbyn Meddwdod, (1837).
- Essays on the Welfare State, (Ail-argraffiad, 1963).
- Evans, Benjamin, Bywgraffiad y Diweddar Barchedig T. Price, M. A., Ph. D., (Aberdar, 1891).
- Evans, C. Charles, Adgofion am y Diweddar David Jones, Treborth, (Dolgellau, 1885).
- Evans, Christmas, Pregethau ar Wahanol Bynciau Athrawiaethol ac Ymarferol Gwir Grefydd, (Caerfyrddin, 1837).
- Evans, Christmas, Sylwadau ar Lwyr-ymattaliad, (Wyddgrug, 1837).
- Evans, D. Silyn, Y Parch. John Thomas, Merthyr Tydfil, Y Dyn a'i Waith, (Merthyr Tydfil, 1913).
- Evans, D. Silyn, Cofiant Y Parch R. Rowlands, Aberaman, (Merthyr Tydfil, 1892).
- Evans, E. C., Cofiant a Phregethau y Diweddar Barchedig William Roberts, D.D. Utica, N.Y., (Utica, N.Y., 1890).
- Evans, Eifion, Revival Comes to Wales, (Penybont-ar-ogwr, 1986).
- Evans, J. T., Hanes Eglwys Annibynol, Pantycrws, Craigcefnparc o 1847-1947, (Treforus, 1947).
- Evans, James, (ysgrifennydd), Dylanwad Ymneilltuaeth ar Fywyd y Genedl: sef Adroddiad Dathliad Pumed Jiwibili 1662 yng Nghymru, (Llanelli, 1913).
- Evans, Joseph, Arrows from a Temperance Quiver, (Caerfyrddin, 1864).
- Evans, T., Gwernogle, Pwlpud y Beirdd, (Morrison, 1904).
- Evans, T. Eli, Cymanfaoedd Annibynwyr Lerpwl, (Lerpwl, 1902).
- Evans, Trebor Lloyd, Y Cathedral Anghydfurfiol Cymraeg, (Abertawe, 1972).
- Evans, Trebor Lloyd, Lewis Edwards ei Fywyd a'i Waith, (Abertawe, 1967).
- Finney, Charles G., Autobiography, (Salvation Army Book Dept.).
- Finney, Charles G., Revivals of Religion, (Llundain, 1928).
- Foulkes, John, Cyfarwyddwr Teuluaid: Cyfieithiad o waith y Parch. J. A. James, (Aberystwyth, 1850).
- Foulkes, John, Dechreuad a Chynnydd yr Ysgolion Sabbothol yn Nosbarth Rhuthyn, (Dinbych, 1870).
- Fried, Martha N., & Morton H. Fried, Transitions: Four Rituals in Eight Cultures, (Efrog Newydd, 1980).
- Frimpton T., & W. Hughes (gol.), Cyfrol Goffa. Hanner Canrif o Lafur Gweinidogaethol y Parch Abel J. Parry, D.D. Rhyl, (Bae Colwyn, dim dyddiad).
- Gennep, Arnold van, Les Rites de Passage, (Paris, 1909).
- Glenn, Gaius, Modern Religious Cults and Movements, (Efrog Newydd, 1923).
- Gluckman, Max, (gol.), Essays on the Ritual of Social Relations, (Manceinion, 1962).
- Griffith, David, Cofiant y Parchedig David Roberts, D.D., Wrexham, (Dolgellau, 1899).
- Griffith, D. Avan, Cofiant y Parch David Williams, Troedrhiwdalar, (Llandello, 1877).
- Griffiths, E., Ann Griffiths, (Caernarfon, 1903).
- Griffith, Richard, Y Gohebydd, (Dinbych, 1905).
- Griffiths, E., (cyf.), Darlithiau ar Adfywiad Crefyddol gan Charles G. Finney, (1839).
- Griffiths, J., Pregeth ar Ddyledswyddau Rhieni Tuag at eu Plant, (Treffynnon, 1847).
- Griffiths, Peter Hughes, Cofiant Y Parchedig W. E. Prytherch, (Caernarfon,

- 1937).
- Griffiths, R. D., Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru, (Caerdydd, 1948).
- Gruffydd, W. J., Hen Atgofion, (Aberystwyth, 1936).
- Guinness, Os, The Gravedigger File, (Llundain, 1984).
- Gwilym Alaw, Cwynfan y Dirwestwr Cymmedrol, (1850).
- Gwilym Alaw, Drych i'r Titotals, (1845).
- Hastings, J., (gol.), Dictionary of Christ and the Gospels, (Caeredin, 1927).
- Hen Ddysgybl, Traethawd ar Ddysgyblaeth Eglwysig, (Lerpwl, 1864).
- Hewitt, Margaret, Wives and Mothers in Victorian Industry, (1958).
- Hill, Michael, A Sociology of Religion, (Heinemann Educational Book, 1973).
- Hobley, W., Hanes Methodistiaeth Arfon, Dosbarth Bangor, (Cyfarfod Misol Arfon, 1924).
- Hodge, A. A., Banau Duwinyddiaeth, William H. Goold (gol.), (Dinbych, 1878).
- Hoekema, Anthony, The Four Major Cults, (Michigan, 1963).
- Hollenweger, The Pentecostals, (Llundain, 1972).
- Hoskins, D., & Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbothol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906).
- Hughes a'i Fab, Cofiant a Gweithiau Barddonol A Rhyddiaethol Ieuan Gwynedd, (Wrecsam, dim ddyddiad).
- Hughes, David O., Canrif o Hanes sef Hanes yr Achos Methodistiaidd yn Nhanygrisiau, 1809-1909, (Blaenau Ffestiniog, 1909).
- Hughes, E., Y Cyfeillachau Crefyddol, (1868).
- Hughes, Garfield, H., (gol.), Gweithiau William Williams Pantycelyn, (Caerdydd, 1967).
- Hughes H. H., a H. L. North, The Old Cottages of Snowdonia, (Bangor, 1908).
- Hughes, Henry, Canmlwyddiant y Tabernacl Bangor, (Conwy, 1907).
- Hughes, Henry, Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru, (Caernarfon, 1906).
- Hughes, J. Williams, Charles Davies, Caerdydd, (Caerdydd, 1933).
- Hughes, James, Y Testament Newydd gyda Nodau Eglurhaol ar Bob Adnod. ail argraffiad, (Treffynnon, 1846).
- Hughes, John, Hanes Methodistiaeth Cymru, (Wrecsam, 1854).
- Hughes, John, Traethawd ar Lafur, Gorphwysdra, ac Adloniant y Gweithiwr, (Blaenau Ffestiniog, 1873).
- Hughes, John, Unoliaeth y Beibl fel prawf o'i Darddiad Dwyfol, (Pamffled, Lerpwl, 1866).
- Hughes, John, Cydymaith yr Ysgrythyrau, (pamffled, 1863).
- Hughes, R., (gol.), Pregethau y Diweddar Barch. John Elias, (Wyddgrug, 1946).
- Hynodion Hen Bregethwyr Cymru Gydag Hanesion Difyrus Am Danynt, (Nid oes enw awdur, Wrecsam, dim dyddiad).
- Isaac, Evan, Coelion Cymru, (Aberystwyth, 1938).
- Isaac, Evan, Humphrey Jones a Diwygiad 1859, (Y Bala, 1930).
- Jaegar, Muriel, Before Victoria, (Llundain, 1967).
- James, M. Euronwy, Annibynwyr Pisgah a Phenrhywgaed, (Llandysul, 1971).
- James, W., & J. M. Jones (gol.), Cofiant a Phregethau y Parchedig D. Saunders, D. D., (Abertawe, 1894).
- Jenkins, Geraint H., (gol.), Cof Cenedl 5, (Llandysul, 1990).
- Jenkins, Geraint H., (gol.), Cof Cenedl 4: Ysgrifau ar Hanes Cymru, (Llandysul, 1989).
- Jenkins, R. T., Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif, (Caerdydd, 1931).
- Jenkins, R. T., Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn, (Bala, 1937).
- Jones, D. G., Cofiant y Parchedig Edward Matthews o Ewenni, (Dinbych, 1893).
- Jones, David Samuel, Cofiant Darluniadol Williams o'r Wern, (Dolgellau,

- 1894?).
- Jones, E. Aeron, 'Enwadaeth Gristnogol, Adroddiad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, (1893).
- Jones, E. Cefni, Hanes Coleg y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru 1862-1927, (Blaenau Ffestiniog, 1928).
- Jones, E. P., Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych 1735-1909, (Dinbych, 1936).
- Jones, E. Pan, Cofiant y Tri Brawd o Llanbrynmair a Conwy, (Bala, 1892).
- Jones, E. Pan, Oes a Gwaith y Prif Athraw y Parch. Michael Daniel Jones, (Bala, 1903).
- Jones, Edward, Y Gymdeithasfa, (Caernarfon, 1891).
- Jones, Evan, (cyf.), Deg o Bregethau ar Brif Bynciau Moddion Gras Gan E. Berens, (Wrecsam, 1826).
- Jones, Gareth Elwyn, Modern Wales, (Caergrawnt, 1984).
- Jones, George, Cofiant y Parch. John Davies, Nerguis yng Nghyda Detholiad o'i Bregethau ac Un Ddarlith, (Wrecsam, 1907).
- Jones, H., Cofiant Y Parch. W. Robert, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869).
- Jones, H., (Cromwel o Went), Eglwys Crist, Sef Darluniad o'r Eglwys Neu yr Eglwys Cristnogol yn ol y Testament Newydd, (1848).
- Jones, H. Cunliffe, The Authority of the Biblical Revelation, (1945).
- Jones, Hugh, Hanes Wesleyaeth Cymreig, (Bangor, 1911).
- Jones, Ieuan Gwynedd, Explorations and Explanations, (Llandysul, 1981).
- Jones, Ieuan Gwynedd, The Religious Census of 1851, (Caerdydd, 1976).
- Jones, Iorwerth, (gol.), Yr Annibynwyr Cymraeg Ddoe, Heddiw ac Yfory, (Abertawe, 1989).
- Jones, J. T., Christmas Evans, (Llandysul, 1938).
- Jones, John, Cofiant Capten Hughes, Gellidara, (Dolgellau, 1898).
- Jones, John, Cofiant a Phigion o Bregethau y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, (Pwllheli, 1883).
- Jones, John, Cofiant y Parch. John Jones, Bryn'rodyn, (Caernarfon, 1903).
- Jones, John, (Idrisyn), Deonglydd Beirniadol neu Eglurhad Manwl ar Bob Adnod yn yr Hen Destament a'r Newydd, (Wrecsam, 1858).
- Jones, J. Cynddylan & J. Gruffydd Hughes, Pregethau gan y Parch. Griffiths Davies, Aberteifi, (Abertawe, 1898).
- Jones, J. M., (gol.), Trem ar y Ganrif, (Dolgellau, 1902).
- Jones, John Morgan, Ordeiniad 1811 Ymysg y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad).
- Jones, John Mostyn, Cofiant, Pregethau a Ffraethebion y Parch. Griffith Jones, Tregarth, (Bala, 1887).
- Jones, John Owen, Cofiant a Gweithiau y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy, (Caernarfon, 1883).
- Jones, John William, (Andronicus), Adgofion Andronicus, (Caernarfon, 1894).
- Jones, M. D., & D. V. Thomas (gol.), Cofiant a Thraethodau Duwinyddol Y Parch. R. Thomas (Ap Vychan), (Dolgellau, dim dyddiad).
- Jones, Martyn Lloyd, Revival can we make it happen?, (Gurnsey, 1986).
- Jones, Owen, Hanes Bywyd Robert Tomos, Llidiardau, (Wrecsam, 1869).
- Jones, Owen, Hanes Ysgolion Sabbothol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906).
- Jones, R. Tudur, Congregationalism in England 1662-1962, (Llundain, 1962).
- Jones, R. Tudur, Duw a Diwylliant - Y Ddadl Fawr, (Amgueddfa Werin Cymru, 1986).
- Jones, R. Tudur, Ffydd ac Argyfwng Cenedl, cyfrol 1 & 2, (Abertawe, 1981).
- Jones, R. Tudur, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966).
- Jones, R. Tudur, Yr Ysbryd Glan, (Caernarfon, 1972).
- Jones, R. Tudur, Yr Undeb, (Abertawe, 1975).
- Jones, R. W., Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif, (Llundain, 1931).
- Jones, Robert, Cofiant John Elias, (Lerpwl, 1850).

- Jones, Robert, Gemau Duwinyddol, (Caernarfon, 1865).
- Jones, Robert, Traethawd ar Sobrwydd a Meddwdod, (1837).
- Jones, Rhys Gwesyn, Caru Priodi A Byw, (Merthyr Tydfil, 1866).
- Jones, Simon. B., Hanes Peniel a Bwlchycorn, (Llandysul, 1938).
- Jones, T. Gwynn, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913).
- Jones, T. Lloyd, (gol.), Pregethau Parch. John Jones Talysarn, ail gyfrol, (Caernarfon, 1875).
- Jones, T. R., Cofiant J. J. Roberts. (Iolo Caernarfon), (Caernarfon, dim dyddiad).
- Jones, Thomas, Hanes y Merthyron, (Dinbych, 1866).
- Jones, W., Geiriadur Duwinyddol, (Merthyr Tydfil, 1837).
- Jones, W., Cyfundebau Crefyddol Cymru: sef Nodiadau ar y diffygion sydd yn mhlith y gwahanol gyfundebau crefyddol yn ngwyneb safon y Testament Newydd, (Caernarfon, 1876).
- Jones, W. P., Coleg Trefeca 1842-1942, (Llandysul, 1942).
- Jordan, The Growth of Religious Toleration.
- Lambert, W. R., Drink and Sobriety in Wales 1830-95, (Traethawd Ph. D., Prifysgol Cymru, 1970).
- Lewis, D. Morgan, Cofiant y Diweddar Barchedig Evan Lewis, Brynberian, (Aberystwyth, 1903).
- Lewis, George, Esponiad ar y Datguddiad, (Wrecsam, dim dyddiad).
- Lewis, H. Elvet, Cofiant y Parch. E. Herbert Evans D. D., (Wrecsam, 1901).
- Lewis, Henry, Can-mlwyddiant y Tabernacl, Bangor, (Conwy, 1907).
- Lewis, J. Wyndham, Cofiant y Parchedig Edward Matthews o Eweni, (Dinbych, 1893).
- Lewis, Joshua, Yr Amserau Presenol, (traddodwyd yng nghwrdd chwarter Caerfyrddin, Abergorlech, Hydref 29ain, 1851).
- Levi, Thomas, Y Band of Hope. Hanes Dirwest Gogledd Cymru.
- Lloyd, J. E., (gol.), Hanes ac Egwyddorion Annibynwyr Cymru, (Llandysul, 1839?).
- Lloyd, John Edward, & R. T. Jenkins, Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, (Llundain, 1953).
- Manning, B. L., The Protestant Dissenting Deputies, (Caer-grawnt, 1952).
- Martin, H. R., The Maze of Mormonism, (London, 1963).
- Mather, Z., Bywyd a Gwaith yr Hynod Ddr. Arthur Jones, (R. E. Jones & Frodyr, 1908).
- Mathews, J., Nonconformist Triumphs, (Abertawe, 1899).
- Mathison, Richard, Faiths, Cults and Sects of America, From Atheism to Zen, (Efrog Newydd, 1960).
- McKinney, George E., The Theology of Jehovah's Witnesses, (London, 1963).
- Mead, Margaret, Coming of Age in Samoa, (Efrog Newydd, 1928).
- Mehl, R., The Sociology of Protestantism, (Llundain, SCM Press, 1970).
- Mitchill, William, Jacin a Boaz - neu Gynodeb o'r Athrawiaeth a'r ddisgyblaeth a Sefydlwyd Gan Grist yn Eglwys y Testament Newydd, (Llanrwst, 1828).
- Morgan, D. Densil, Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd, (Llandysul, 1991).
- Morgan, J. J., Dafydd Morgan a Diwygiad '59, (cyhoeddwyd gan yr awdur, 1906).
- Morgan, J. J., Evan Phillips.
- Morgan, J. J., A Welais ac a Glywais, (Cyhoeddedig gan yr Awdur, 1948).
- Morgan, J. J., The '59 Revival in Wales, (Wyddgrug, 1909).
- Morgan, J. Vyrnwy, Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era, (Llundain, 1908).

- Morgan, Prys, (gol.), Brad y Llyfrau Gleision, (Llandysul, 1991).
- Morgan, Vyrnwy, Kilsby Jones, (Wrecsam, dim dyddiad).
- Morgan, W., Cofiant neu Hanes Bywyd y Diweddar Christmas Evans, (Caerdydd, 1839).
- Morris, James, Cofiant, Dywediadau a Phregethau y Diweddar Barch. Thomas Job. D.D., Cynwyl, (Dolgellau, 1899).
- Morris, W., (gol.), Ysgolion a Cholegau y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, 1973).
- Muthesius, Stefan, The English Terraced House, (New Haven a Llundain, 1982).
- Niebuhr, Richard, The Social Sources of Denominationalism, (Meridian, Efrog Newydd, 1957).
- Nottingham, E. K., Religion - A Social View, (Efrog Newydd, 1971).
- Orr, J. Edwin, The Eager Feet: Evangelical Awakenings 1790-1830, (Chicago, 1975).
- Orr, J. Edwin, The Fervent Prayer. The Worldwide Impact of the Great Awakening of 1858, (Chicago, 1974).
- Orr, J. Edwin, The Flaming Tongue: The Impact of the Twentieth Century Revivals, (Chicago, 1975).
- Orr, J. Edwin., The Second Evangelical Awakening in Britain, (Llundain, 1949).
- Owain, O. Llew, Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850-1934, (Lerpwl, 1948).
- Owen, Daniel, Hunangofiant Rhys Lewis, Gweinidog Bethel, (Wrecsam, 1885).
- Owen, David, Brutusiana, (Llanymddyfri, 1855).
- Owen, Dyfnallt, Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr, (Llandysul, 1939).
- Owen, Griffith, Cofiant y Diweddar Cadwaladr Owen, Dolyddelan, (Wrecsam, 1896).
- Owen, Hugh, (gol.), Braslun o Hanes M.C. Môn, (Lerpwl, 1937).
- Owen, John, Cofiant y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, (Lerpwl, 1923).
- Owen, John, Cofiant y Parch. Robert Owen, (Lerpwl, 1907).
- Owen, R., Hanes Methodistiaeth Gorllewin Meirionnydd, (1888).
- Owen, Robert, Cofiant a Phregethau y Parch. Griffith Williams, Talsarnau, (Bala, 1886).
- Owen, W.J., Cyfrol Goffa am y Parchedig John Phillips Bangor, (Caernarfon, 1912).
- Oxford Dictionary of The Christian Church.
- Packer, J.I., Among God's Giants, (Eastbourne, 1991).
- Parker, Irene, Dissenting Academies in England, (Caergrawnt, 1914).
- Parry, Edward, Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau Crefyddol yn Nghymru, (Corwen, 1898).
- Parry, G. Tecwyn, Cofiant a Gweithiau Dr. Lewis Edwards, Bala, (Llanberis, 1896).
- Parry, J. T., (gol.), Pulpud Annibynol Ceredigion, (Pencader, 1903).
- Parry, R. Ivor, The Attitude of Welsh Independents Towards Working Class Movements, 1815-70, (Traethawd M. A., Prifysgol Cymru).
- Parry, W.J., Cofiant Tanymarian, (Dolgellau, 1886).
- Parry, W.J., (gol.), Cofiant Hwfa Môn, (Manceinion, 1909).
- Peate, I.C., The Welsh House, (Llundain, 1940 a Lerpwl, 1946).
- Pregethau.....y Parch. W. Morris, Cilgeran, (Dinbych, 1873),
- Price, David, Yr Adeiladydd Teuluaid, (Dinbych, 1852).
- Pritchard, W., Cofiant John Elias, (Caernarfon, 1911).
- Pugh, J., Llanfyllin, Y Cwrw yw Mam y Drwg, (Llanfyllin, dim dyddiad).
- Pyke, Royston, Jehovah's Witnesses, (Efrog Newydd, Philosophical Library, 1954).

- Phillips, Thomas, Natur Cyfammod Eglwys, ynghyd a Dyledswyddau Neillduol Aelodau Eglwysig, (Caerfyrddin, 1815).
- Phillips, Thomas, Wales. The Language, Social Condition, Moral Character and Religious opinions of the people. Considered in relation to Education, (Llundain, 1849).
- Quick, Dilys, Cartrefi a Gwisg Drwy'r Oesoedd, (Llandysul, 1971).
- Rees, B., Hanes Eglwysi y Bedyddwyr yn Blaenywaun, (Llangollen, 1899).
- Rees, Thomas & John Thomas, Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, (Lerpwl, 1891).
- Rees, Thomas, (gol.), Geiriadur Beiblaidd, (Wrecsam, 1926).
- Rees, Thomas, History of Protestant Nonconformity in Wales, (dau argraffiad, 1861 a Llundain, 1883).
- Rees, Thomas, Natur Trefn A Dybenion Dysgyblaeth Eglwysig, (Llanelli, 1853).
- Rees, W., The Devil's Keys, (Ystalyfera, 1888).
- Rees, William, Rhydd-Weithiau Hiraethog: sef Casgliad o Weithiau Llenyddol, (Lerpwl, 1872).
- Richard, E. W., a H. Richard, Bywyd y Parch. Ebenezer Richard, (Llundain, 1839).
- Richards, Glyn, A Study of Theological Developments Among Nonconformists in Wales During the 19th Century, (Traethawd B. Litt., Rhydychen, 1956).
- Richards, Thomas, Er Clod: Saith Bennod ar Hanes Methodistiaeth Yng Nghymru, (Wrecsam, 1934).
- Roberts, D. J., Capel Mair Aberteifi, (Llandysul, 1955).
- Roberts, Elfed Ap Nefydd, (gol.), Corff ac Ysbryd, (Caernarfon, 1988).
- Roberts, Enid P., Detholion o Hunangofiant Gweirydd Ap Rhys, (Llandysul, 1849).
- Roberts, Gomer M., Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, cyfrol 1, (Caernarfon, 1978).
- Roberts, Gomer M., Y Ddinas Gadarn, (Dinbych, 1974).
- Roberts, Hugh Robert, Bangor, Llawlyfr i'r Prawfion o Wirioneddau y Grefydd Gristnogol, (Caernarfon, 1867?).
- Roberts, John, (J.R.), Traethodau, Pregethau, Ymddiddanion, (Dinbych, 1862).
- Roberts, John, Ychydig o Hanes y Diweddar Barchedig Lewis Rees, (Caerfyrddin, 1812).
- Roberts, John, Y Gyfrol olaf o Bregethau gan J. R., (Bala, 1876).
- Roberts, John John, (Iolo Caernarfon), Cofiant Owen Thomas, (Caernarfon, dim dyddiad).
- Roberts, John Price, a Thomas Hughes, Lerpwl, Cofiant y Parch John Evans, Eglwysbach, (Y Llyfrfa Wesleyaidd, 1903).
- Roberts, O.L., Cofiant y Parch. Edward James, Nefyn, (Merthyr Tydfil, 1906).
- Roberts, Robert, The Classic Slum, (Manceinion, 1971).
- Roberts, Samuel, Pregethau yn nghydag Areithiau a Chaniadau, (Dolgellau, 1865).
- Roberts, T., a D. Roberts, Cofiant y Parch W. Rees, (Hiraethog), (Dolgellau, 1893).
- Roberts, T. Gwynedd, Morris Hughes Y Felinheli; Trem ar Ei Fywyd ei Waith a'i Amserau, (Caernarfon, 1903).
- Roberts, Thomas, (Scorpion), Cofiant Caledfryn, (Bala, 1877).
- Robertson, Roland, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell, 1970).
- Royal Commission on the Church of England and other Religious Bodies in Wales and Monmouthshire. Report of the Commission, (1910).

- Sanders, J. Oswald, Cults and Isms, (Basingstoke, 1986).
- Selbie, W.B., Nonconformity its Origin and Progress, (Llundain, dim dyddiad).
- Shiman, Lilian Lewis, Crusade Against Drink in Victorian England, (Llundain, 1988).
- Simpson, George E., 'Jamaican Revivalist Cults', Social and Economic Studies.
- Sills, David L., (gol.), International Encyclopaedia of The Social Sciences, (1968).
- Smith, P., Houses of the Welsh Countryside, (Llundain, 1975).
- Stark, Werner, The Sociology of Religion, cyfrol 2, (Llundain, 1966).
- Suenens, Cardinal, A New Pentecost?, (Llundain, 1975).
- The Contrubution of the Established Church to Welsh Education, (1811-1846).
- Treharne, Jacob, Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar, (Aberdar, 1898).
- Troeltsch, Ernst, The Social Teaching of The Christian Churches, (Llundain, 1931).
- Trott, A.L., The British School Movement in Wales 1806-46.
- Turner, Victor, The Forest of Symbols: Aspects of Ndembu Ritual, (Ithaca, 1967).
- Turner, Victor, The Ritual Process: Structure and Anti-Structure, (Chicago, 1969).
- Turner, Victor, The Drums of Affliction: A Study of Religious Processes Among the Ndembu of Zambia, (Llundain, 1968).
- Thomas, Benjamin, Dafydd Evans Ffynonhenry, (Castellnewydd-emlyn, 1870).
- Thomas, C. Tawelfryn, Cofiant Darluniadol i'r diweddar Barch. Evan Jones (Ieuan Gwynedd), (Dolgellau, 1909).
- Thomas, D., Y Teulu a'r Eglwys, (Abertawe, 1865), cyfieithiwyd i'r Gymraeg gan E. Griffiths.
- Thomas, Ieuan D., Addysg yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, (Caerdydd, 1972).
- Thomas, J., Y Diwygiad Dirwestol, (Merthyr Tydfil, 1885).
- Thomas, John, Cofiant y Tri Brawd, sef y Parchedigion J. Stephens, Brychgoed, D. Stephens, Glantaf, ac N. Stephens, Liverpool, (Lerpwl, 1876).
- Thomas, John, Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, (Dolgellau, 1891).
- Thomas, John, Cofiant y Parch. T. Rees, Abertawy, (Dolgellau, 1888).
- Thomas, Owen, Cofiant y Parchedig Henry Rees, (Wreccsam, 1891).
- Thomas, Owen, (gol.), Pregethau... Edward Morgan, Dyffryn, (Dolgellau, 1876).
- Thomas, Owen & John Machreth Rees, Cofiant John Thomas, Liverpool, (Llundain, 1898).
- Thomas, Owen, Cofiant John Jones Talysarn, (Wreccsam, 1874).
- Thomas, Owen, (gol.), Lampau'r Deml: sef Pregethau gan Weinidogion Y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, 1859).
- Thomas, R., Cadwaladr Jones, Hen Olygydd y Dysgedydd, (Lerpwl, 1870).
- Thomas, S., Cofiant... Phylip Griffiths, Alltwen, (Treffynnon, 1902).
- Thomas, William, Gwynfe, Cofiant a Phregethau y Diweddar Barch. Thomas Davies, Llandilo, (Llandeilo, 1877).
- Thomson, David, England in the Nineteenth Century (1815-1914), (Penguin Books, 1955).
- Thompson, F. M. L., The Rise of Respectable Society, (Fontana, 1988).
- Walker, Andrew, Restoring the Kingdom, (Hodder and Stoughton, 1985).
- Waller, The Constitution and Polity of the Wesleyan Methodist Church.

- Waller, P. J., Town, City, and Nation: England, 1850-1914, (Rhydychen, 1983).
- Wand, J. W. C., A History of the Modern Church from 1500 to the Present Day, (Llundain, 1929).
- Warfield, B. B., Perfectionism, (The Presbyterian and Reformed Publishing Company, 1971).
- Webb, B. G., (gol.), Christians in Society, (Homebush West, Awstralia, 1988).
- Whitaker, W. B., Sunday in Tudor and Stuart Times, (Houghton Publishing Co., Llundain, 1933).
- Williams, A. H., Welsh Wesleyan Methodism, 1800-58, (Llyfrfa'r Methodistiaid, Bangor, 1935).
- Williams, A. H., Efengyliaeth yng Nghymru, 1840-75, (Amgueddfa Werin Cymru, 1982).
- Williams, A. Tudno, Mudiad Rhydychen a Chymru, Darlithiau Davies, 1983, (Dinbych, 1983).
- Williams, B., Cofiant y Diweddar Barchedig John Williams, Castellnewydd-emlyn, (Abertawe, 1873).
- Williams, D. D., Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, dim dyddiad).
- Williams, D. D., Hanes Dirwest yng Ngwynedd, (Lerpwl, 1921).
- Williams, D. G., Llythyrau a Hanes Cymanfaoedd De-orllewin a De-ddwyrain yr Annibynwyr, 1845-1860, (Llanelli, 1927).
- Williams, David (gol.), Y Gofadail Fethodistaidd, cyfrol 2, (Gyffin, 1884).
- Williams, David, Cofiant Y Parch. R. Ellis (Cynddelw), (Caerfyrddin, 1935).
- Williams, Glanmor, David Rees, Llanelli, (Caerdydd, 1950).
- Williams, Ffowc, The Educational Ideals of Pioneers in Welsh Education 1730-1880, and their subsequent history, (Traethawd M. A., Prifysgol Cymru, 1929).
- Williams, H. Cernyw, Yr Arweinydd Dwyfol, (Llangollen, 1907).
- Williams, J. L., (gol.), Ysgrifau ar Addysg, Cyfrol 4.
- Williams, J. L., & G. R. Hughes (gol.), The History of Education in Wales, (Abertawe, 1978).
- Williams, J. O., (Pedrog), Stori 'Mywyd, (Lerpwl, 1932).
- Williams, John, Cofiant a Phregethau y Parch. John Hughes, D. D., (Lerpwl, 1899).
- Williams, Llywelyn, Hanes Eglwys y Tabernacl King's Cross, Llundain, (Llundain, 1947).
- Williams, Owen, Halogrwydd Natur Pob Dyn, Fel Deiliaid y Cyfammod Toredig: Ac y Dangosir Cyfiawnhad Pechaduriaid Trwy eu Hundeb a Christ, Pen y Cyfammod Gras, (Dolgellau, 1833).
- Williams, Owen, Golwg ar Gyflwr Dyn 1. Yn ei Greadigaeth. 2. Yn ei gwmp 3. Yn ei Gyfodiad Drwy Grist, (Aberystwyth, 1840).
- Williams, R. J., Y Parchedig John Roberts D. D. Khasia, (Caernarfon, 1923).
- Williams, Robert, Cofiant a Phregethau y Diweddar Barch. Griffith Roberts, Carneddi, (Caernarfon, 1896).
- Williams, T. Hudson, Atgofion am Gaernarfon, (Aberystwyth, 1950).
- Williams, W., Ystyriaethau Ychwanegol ar Lwrymataliaeth, (Caernarfon, 1837).
- Williams, W., Cymedroldeb a Llwyrymataliad, (1836).
- Williams, W. Lliedi (gol.), Hunangofiant ac Ysgrifau Ap Fychan, (Caerdydd, 1948).
- Williams, W. Nantlais, O Gopa Bryn Nebo, (Llandysul, 1967).
- Williams, William, & Henry Rees, Y Fasnach Feddwol, (Aberystwyth, 1839).
- Wilson, Bryan R., Patterns of Sectarianism, (Llundain, 1967).
- Wilson, Bryan, Religious Sects, (Widenfeld & Nicolson, 1970).

Wolff, H. J. & M., (gol.), The Victorian City: Images and Realities, (1973).
Wright, G. Fredrick, Charles Grandison Finney, (1891).
Wright, Charles H. H., Llyfr Elfennol ar Babyddiaeth, (Caernarfon, dim dyddiad).

Yinger, J. Milton, Religion Society and the Individual, (Efrog Newydd, Macmillan, 1957).

Cylchgronau a Chyfnodolion.

American Sociological Review.

Baner ac Amserau Cymru.

British Quarterly Review.

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd.

Evangelical Magazine.

Folk Life.

Journal of Social History.

Lleuad yr Oes.

Seren Cymru.

Seren Gomer.

Social Forces.

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych.

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon.

Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr.

Transactions of the Honorary Society of Cymmrodorion.

Tywysydd yr Ieuanc.

Y Beirniad.

Y Celt.

Y Cenhadydd Cymreig.

Y Cofiadur.

Y Cronicl.

Y Cylchgrawn.

Y Dirwestwr.

Y Diwygiwr.

Y Drysorfa.

Y Drysorgell.

Y Drysorgell Efengylaidd.

Y Dysgedydd.

Y Faner.

Y Geiniogwerth.

Y Genhinen.

Y Gymraes.

Y Temelydd Cymreig.

Y Traethodydd.

Y Tyst Cymreig.

Yr Annibynwr.

Yr Efenglydd.

Yr Eurgrawn.

Llawysgrifau.

LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad cyffredinol, Rhif 2335-9, Dyddiaduron Dr. William Morgan, 122.

LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol 462, Llyfr Methodistiaid Calфинаidd Penygroes, 142.

LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Bangor, Casgliad Cyffredinol, rhif 5757, Papurau Ap Vychan, 128.

LLS., Hanes Eglwys yr Annibynwyr Aberdyfi, dan ofal G. Ivor Lumley, Wrecsam.
LLS., Hanes a Cyfnewidiadau &c yn Eglwys Fedyddiedig Crist ag sydd yn
Cyfarfod i Addoli Duw yn Caergybi a Pontybont, Llyfrgell Coleg Prifysgol
Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 2339.